Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Number: 05/2012

# Gwerthusiad o Raglen GwirVol Llywodraeth Cymru

# Gwerthusiad o Raglen GwirVol Llywodraeth Cymru

# Adroddiad Terfynol

oldbell3

Research Policy Analysis
Ymchwil Polisi Dadansoddi

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

Siân Jones
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 0628126
E-bost: sj&lgresearchandinformationunit@cymru.gsi.gov.uk
http://www.wales.gov.uk/research

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012
ISBN: 978 0 7504 6965 4
© Hawlfraint y Goron 2012

## Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................................................................ 1
2. GwirVol: Cefndir a Chyd-destun .................................................................. 4
3. Adolygiad o'r Data Monitro, adroddiadau ac Allbwn Ymchwil Mewnol ..... 16
4. Canfyddiadau o'r Gwaith Maes .................................................................. 32
5. Casgliadau ac Argymhellion ...................................................................... 87

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Trosolwg

Lansiwyd GwirVol ym mis Ebrill 2009 i weithredu argymhellion adolygiad Comisiwn Russell ar gyfranogiad a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru.

Nod GwirVol yw rhoi gwirfoddoli ieuenctid 'ar y map', i wneud gwirfoddoli yn weithgaredd naturiol i bobl ifanc a helpu i gyflawn nodau dogfen Cymru'n Un a Chynllun Gweithredu Strategol y Trydydd Sector i gynyddu gwirfoddoli yng Nghymru.

Arweinir GwirVol gan Bartneriaeth GwirVol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, y sector cymunedol, y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru. Caiff y rhaglen ei gweinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu tua £1 miliwn y flwyddyn ar gyfer rhaglen GwirVol ar gyfer y cyfnod 2009-2010. Daw cyllid ar gyfer GwirVol i ben ym Mawrth 2012.

Comisiynwyd **Old Bell 3 Cyf.** ym mis Gorffennaf 2011 i gynnal gwerthusiad graddfa fach o gynllun GwirVol Llywodraeth Cymru. Prif nod yr ymchwil oedd:

> *'adolygu i ba raddau y mae GwirVol wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion wrth gefnogi a chynyddu gwirfoddoli ymysg pobl ifanc yng Nghymru.'*

## 1.2 Amcanion Ymchwil

Roedd gan y gwerthusiad bedwar amcan penodol, sef:

1. Adolygu'r sail resymegol dechreuol a chyfredol ar gyfer GwirVol;
2. Asesu i ba raddau y mae'r cynllun wedi cyfrannu at gynyddu gwirfoddoli ymysg pobl ifanc yng Nghymru a gweithredu argymhellion Comisiwn Russell;

3. Amcangyfrif effeithlonrwydd cost y cynllun;
4. Gwneud argymhellion ar yr angen a'r dulliau mwyaf addas i gefnogi gwirfoddoli ymysg pobl ifanc yng Nghymru.

Gofynnwyd i'r ymchwilwyr hefyd ystyried a gwneud argymhellion ar strwythur cyllid ar gyfer gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd hyn i ganolbwyntio yn neilltuol ar:

a. ‘Adolygu canlyniadau cynllun GwirVol;
b. Adolygu addasrwydd y strwythur presennol ac elfennau'r rhaglen ar gyfer cyflawni'r amcanion a fwriedid;
c. Argymhellion ar ddyfodol GwirVol neu ddulliau eraill i gynyddu gwirfoddoli ymysg pobl ifanc.'

**1.3 Dull Ymchwil**

Mae'r rhaglen waith ar gyfer yr adolygiad yma wedi cynnwys y camau dilynol:

- Adolygu dogfennau gweinyddol cefndir oedd ar gael yn cynnwys ffurflenni cais a chanllawiau, data monitro, adroddiadau perfformiad, a chanfyddiadau adolygiadau gwerthuso mewnol ac effaith/adborth;
- Arolwg ffôn o gynrychiolwyr allweddol o fewn sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid grant (cenedlaethol) gan GwirVol;
- Grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda sampl o saith ymgynghorydd gwirfoddoli ieuenctid;
- Holiadur adborth cyfyngedig ar y we ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc (16-25 oed) sydd wedi ymwneud â gwirfoddoli o leiaf yn rhannol fel canlyniad i raglen GwirVol;
- Defnyddio cyfweliadau wyneb i wyneb lled-strwythuredig gyda 11 rhanddeiliad allweddol, yn benodol:
    - Cynrychiolwyr Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cymru;
    - Rheolwr GwirVol CGGC fel swyddog arweiniol gweithredol y rhaglen;
    - Cynrychiolwyr panel ieuenctid GwirForce;

- Aelodau eraill o Fwrdd Partneriaeth GwirVol yn cynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Bydd y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau yn eu trafodaethau ar drefniadau cyllid posibl ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiad graddfa fach. Nid oedd cwmpas yr ymchwil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygiad desg helaeth o'r cyd-destun polisi neu ddull gweithredu mewn rhannau arall o'r Deyrnas Unedig mewn ymateb i argymhellion Comisiwn Russell. Ymhellach, roedd yr adnoddau oedd ar gael yn golygu mai sylw cyfyngedig a roddwyd i gasglu data eilaidd gan randdeiliaid rhaglen allweddol ac yn arbennig gyfranogwyr sydd wedi mynd ati i wirfoddoli fel canlyniad i raglen GwirVol. Gyda hyn mewn golwg, gwnaed peth defnydd o ddata eilaidd ar ffurf adborth, gwerthusiadau ac adolygiadau a gynhaliwyd gan WVCA fel corff gweinyddol rhaglen GwirVol.

### 1.4 Strwythur yr Adroddiad

Yng ngweddill yr adroddiad, rhoddwn wybodaeth gefndir ar raglen GwirVol a threfniadau cyflenwi cysylltiedig **(Adran 2).** Rydym wedyn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad o ddata monitro GwirVol **(Adran 3).** Yn nesaf cyflwynwn y canfyddiadau o'r gwaith maes yn cynnwys arolygon ar y ffôn ac ar y we a chyfweliadau wyneb i wyneb **(Adran 4).** Yn olaf, cyflwynwn ein casgliadau ac argymhellion **(Adran 5).**

## 2. GWIRVOL: CEFNDIR A CHYD-DESTUN

### 2.1 Cefndir

Bu cefnogaeth a ariannwyd yn gyhoeddus ar gyfer gwirfoddoli ieuenctid yn fater a ddatganolwyd i Gymru ers Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Fodd bynnag, datblygodd llawer o'r hyn a welir fel y dulliau presennol o weithredu mewn ymateb i gyd-destun polisi ehangach y Deyrnas Unedig. Yn neilltuol, roedd canfyddiadau Comisiwn Russell (2005) yn arloesol nid yn unig wrth sefydlu pwysigrwydd gwirfoddoli ieuenctid a chyfleoedd o fewn hynny, ond hefyd wrth lunio ymatebion strategol ar draws cyrff llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Sefydlwyd Comisiwn Russell ym mis Mai 2004 gan yr Ysgrifennydd Cartref a Changhellor y Trysorlys ar y pryd i ddatblygu fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu ieuenctid. Yn ei adroddiad terfynol[1], a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005, nododd y Comisiwn 16 argymhelliad (a gyflwynir yn Atodiad 1) ar gyfer sicrhau newid sylfaenol yn lefelau cyfranogiad cymunedol gan bobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig.

Roedd gweithredu argymhellion Comisiwn Russell yn fater wedi'i ddatganoli.[2] Yn Lloegr, cafodd ei weithredu ar ffurf 'V', cwmni elusennol newydd a lansiwyd ym mis Mai 2006, a chafodd y dasg o ddod â grwpiau rhanddeiliaid at ei gilydd drwy ddiben cyffredin: '*to make volunteering opportunities so diverse, compelling and easy to get involved with that giving up your time to help others becomes a natural lifestyle choice for 16 to 25 year olds in England*.'[3]

Yn yr Alban, roedd trefniadau eisoes yn eu lle ar gyfer 'Project Scotland', sefydliad elusennol a sefydlwyd yn 2005 sy'n helpu pobl ifanc i gael mynediad i gyfleoedd gwirfoddoli.[4] Yn ymarferol, roedd (a mae) llawer o debygrwydd rhwng y dulliau

[1] Adroddiad Comisiwn Russell a gadeiriwyd gan Ian M Russell (2005) *A National Framework for Youth Action and Engagement*, Norwich: HMSO
[2] Er nid ar gyfer Gogledd Iwerddon
[3] www.vinspired.com
[4] http://www.projectscotland.co.uk/aboutus/Pages/AboutProjectScotland.aspx

gweithredu yn yr Alban a Lloegr: roedd V a Project Scotland ill dau yn gyrff newydd a sefydlwyd yn benodol i ddatblygu gwirfoddoli ieuenctid ac mae'r ddau wedi defnyddio dulliau cynllun 'US Americorps' a fu ar waith yn yr Unol Daleithiau ers 1993. [5]

Yng Nghymru, roedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a sefydlodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi rhoi dyletswydd statudol ar y Cynulliad (ac wedyn Lywodraeth Cymru) i hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol wrth weithredu ei holl swyddogaethau. Y Cynllun Sector Gwirfoddol oedd prif ddull strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi'r sector, er yn ymarferol bod nifer o raglenni ariannu allweddol yn ganolog.

Rhwng 2006 a 2009 darparodd Llywodraeth Cymru gyllid Comisiwn Russell i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol unigol ar wedd grantiau ffocws ieuenctid yn gyfanswm o tua £1 miliwn y flwyddyn. Ymddengys i ddefnydd grantiau gael ei seilio'n gyntaf ar yr angen i ddefnyddio cyllid Russell a ddarparwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac yn ail i weithredu math o gefnogaeth penodol gwirfoddoli ieuenctid tra'n rhoi amser i ddatblygu ymateb mwy ystyriol.

Arweiniwyd yr ymateb ystyriol hwnnw gan Judith Bevan, oedd ar secondiad i Uned Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd, a gafodd y dasg gan Lywodraeth Cymru o ddatblygu ymateb neilltuol i Gymru i Argymhellion Russell. Rhwng 2006 a 2006 gwnaethpwyd gwaith ar ddatblygu egwyddorion sylfaenol (h.y. beth yw ystyr 'ffocws ar ieuenctid' a 'dan arweiniad pobl ifanc' yng nghyd-destun Cymru), ymgynghori ar ddulliau gweithredu posibl, deall y risgiau, cyfleoedd, factorau sy'n llesteirio ac yn galluogi, ac adolygu sut mae'r cynlluniau gwirfoddoli yng Nghymru yn gweithio a'i effeithiau (yn cynnwys grantiau gwirfoddoli ieuenctid a ariannwyd drwy gyllid Russell).[6]

[5] Er bod gwreiddiau cynllun US Americorps ei hunan yn y rhaglen Volunteers in Service to America (ymysg eraill) a grewyd gan yr Arlywydd Lyndon Johnson yn 1964. (http://www.americorps.gov)
[6] Ffynhonnell: Cyfweliadau gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth yma

## 2.2 GwirVol

Fel canlyniad i'r broses hon yn 2008 sefydlodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth rhwng y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, dan arweiniad pobl ifanc, i weithredu ar argymhellion Comisiwn Russell.[7] Roedd (a mae) aelodaeth o'r Bartneriaeth ar sail wirfoddol.

Yn dilyn cystadleuaeth 'enwi' a gynhaliwyd yn Eisteddfod 2008[8], lansiwyd y bartneriaeth yn ffurfiol fel 'GwirVol' ar 6 Ebril 2009 gyda'r targedau strategol dilynol:

- 'Sefydlu GwirVol fel menter a gaiff yn wirioneddol ei harwain gan bobl ifanc a'r corff arweiniol ar gyfer gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru;
- Gweithredu ar argymhellion Comisiwn Russell drwy roi fframwaith i sicrhau newid sylfaenol yn nifer ac amrywiaeth gwirfoddolwyr ifanc;
- Cynyddu nifer y cyfleoedd gwirfoddoli o safon drwy hyrwyddo, gwybodaeth, cyngor a chyllid grant;
- Gwobrwyo a chydnabod ansawdd cyfleoedd gwirfoddoli ieuenctid a hefyd wirfoddolwyr ifanc.' [9]

Roedd y dull gweithredu yng Nghymru yn amlwg wahanol mewn o leiaf un agwedd bwysig i'r dull yn Lloegr a'r Alban: yn hytrach na sefydlu corff newydd i wirfoddolwyr ifanc, penderfynodd Llywodraeth Cymru sicrhau cefnogaeth weinyddol ar gyfer cynllun GwirVol o'r strwythur prsennol cefnogi gwirfoddolwyr.  Dyfarnwyd contract yn 2009 yng nghyswllt hyn i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

---

[7] http://www.gwirvol.org/cy/amdanom/

[8] Gwahoddwyd pobl ifanc yn yr Eisteddfod i gyflwyno cynigion ar gyfer enw newydd ar gyfer rhaglen cefnogi gwirfoddolwyr pobl ifanc. Yr enillydd oedd GwirVol.

[9] Yn ymarferol, mae dogfennau ar-lein a phapur y rhaglen yn cyflwyno'r nodau, yn fwy syml, fel 'rhoi gwirfoddoli ieuenctid "ar y map"' a 'gwneud gwirfoddoli yn weithgaredd naturiol i bobl ifanc', drwy sicrhau ei fod yn 'fuddiol, gwerth chweil a hygyrch'.

*2.2.1 Trefniadau Gweinyddu*

Mae CGGC yn gweinyddu cynllun GwirVol (yn cynllwyn cyllid y cynllun) ar ran Llywodraeth Cymru. Mae CGGC yn adrodd, ac yn rhoi cefnogaeth weinyddol i fwrdd partneriaeth GwirVol. Mae CGGC hefyd yn cefnogi'r panel asesu grantiau (cenedlaethol) a gwahanol weithgorau a sefydlwyd i ddatblygu materion strategol a gweithredol allweddol (e.e. grŵp meistr gwefan, grŵp gwerthuso, grŵp marchnata a hyrwyddo ac yn y blaen). Mae'r ddau grŵp a'r panel asesu grantiau yn cynnwys aelodau o Fwrdd y Bartneriaeth.

I gyflawni amcanion y cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid yn gyfanswm o £3,183,627 dros y tair blynedd 2009/10 i 2011/12, yn cynnwys 3% ar gyfer chwyddiant blynyddol, fel sy'n dilyn:

*Tabl 2.1: Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer GwirVol*

| **Blwyddyn** | **Swm** |
|---|---:|
| 2009/2010 | £1,030,000 |
| 2010/2011 | £1,060,900 |
| 2011/2012 | £1,092,727 |
| **Cyfanswm** | **£3,183,627** |

Ffynhonnell: CGGC

*2.2.2 Ymyriadau GwirVol*

Yn ymarferol mae 'GwirVol' yn cynnwys nifer o ymyriadau a gweithredoedd ar lefel genedlaethol a lefel leol. Mae hyn yn cynnwys y rhaglenni grant cenedlaethol a lleol, gwaith cynghorwyr gwirfoddolwyr ymhlith pobl ifanc, panel ieuenctid GwirForce, gwefan GwirVol (a gwybodaeth a gweithgaredd hyrwyddo arall) a gweithgareddau eraill.

<u>Rhaglenni Grant Cenedlaethol</u>

Aiff tua 50% o gyllid prosiect GwirVol i ddarparu grantiau ar lefel genedlaethol a lefel leol.

Aiff elfen fwyaf y cyllid grant tuag at y rhaglenni grant cenedlaethol; grantiau i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyflenwi prosiectau neu weithgareddau sy'n annog a chefnogi gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru.  Mae pump grant o'r fath, sef:

- **Creu Cyfleoedd:** Ar gyfer mudiadau sydd am greu prosiectau gwirfoddoli newydd ar gyfer pobl ifanc, swyddogaethau gwirfoddoli newydd ar gyfer pobl ifanc, neu recriwtio mwy o bobl ifanc i swyddogaethau gwirfoddoli sydd eisoes yn bodoli. Gall ceisiadau grant Creu Cyfleoedd fod am uchafswm o £10,000. Wedi'i sefydlu ym mis Ebrill 2009[10] mae dau gylch ariannu bob blwyddyn.

- **Hyrwyddo:** Ar gyfer mudiadau sydd am hyrwyddo buddion neu herio'r farn am wirfoddoli ar gyfer pobl ifanc neu ynghylch pobl ifanc, yn eu cymunedau lleol. Gall ceisiadau grant fod am uchafswm o £3,000. Eto, dechreuodd y rhaglen ym mis Ebrill 2009 ac mae dau gylch ariannu ar gael bob blwyddyn. Mae'r rhaglen Hyrwyddo yn canolbwyntio ar dargedau gwahanol i Creu Cyfleoedd.

- **StreetGames:** Ar gyfer mudiadau sy'n dymuno datblygu cyfleoedd gwirfoddoli mewn 'chwaraeon carreg drws' mewn ardaloedd amddifadus. Gall ceisiadau am grantiau StreetGames fod hyd at uchafswm o £2,000.

- **Rhyngwladol:** Ar gyfer mudiadau sydd am ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli dramor, sydd o fudd i bobl ifanc a'u cymunedau yng Nghymru hefyd. Gall ceisiadau grant Rhyngwladol fod am uchafswm o £30,000. Dim ond un cylch ariannu a gynhelir bob blwyddyn (Ebrill i Fehefin).

- **Gwirfoddolwyr y Mileniwm:** Cyflwynwyd yng Nghymru fel rhaglen ar wahân ers 1999. Fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth Cymru integreiddio Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn GwirVol o Ebrill 2011. O fewn GwirVol mae rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn parhau'n ffordd y gall sefydliadau gydnabod

[10] Lansiwyd cylch cyntaf y grantiau Creu Cyfleoedd a Hyrwodd yn Ebrill 2009 a chau ar 30 Mehefin 2009.

ymrwymiad pobl ifanc i wirfoddoli drwy gynnig gwobrau rhagoriaeth 50, 100 a 200 awr. Yn y cyswllt hwn, mae integreiddio Gwirfoddolwyr y Mileniwm wedi rhoi rhaglen seiliedig ar wobrau i GwirVol.[11]

Fodd bynnag, mewn sefyllfa o grebachu cyllideb yn y trydydd sector (yn dilyn y dirwasgiad), a gan roi ystyriaeth i argymhellion gwerthusiad annibynnol blaenorol,[12] nid oedd unrhyw gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwirfoddolwyr y Mileniwm o fis Ebrill 2011 ymlaen. Yn lle hynny, gwnaethpwyd dyfarniadau grant Gwirfoddolwyr y Mileniwm - a all fod am hyd at uchafswm o £10,000 - o gyllideb bresennol GwirVol. Yn ymarferol, mae rhai sefydliadau wedi ceisio cefnogaeth gan dîm GwirVol CGGC i'w helpu i weithredu systemau a dyfarniadau Gwirfoddolwyr y Mileniwm heb wneud cais am gyllid grant.

Gall darpar ymgeiswyr gael gwybodaeth am y cyfleoedd grant cenedlaethol drwy wefan GwirVol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru neu ffynonellau eraill.

Yn ei rôl weinyddol, mae CGGC yn lledaenu ffurflenni cais a chanllawiau. Caiff y ffurflenni a ddychwelir eu hasesu i ddechrau gan staff GwirVol CGGC. Ar y cam hwn mae tîm GwirVol CGGC yn asesu'r cais a gall ofyn am fwy o wybodaeth lle dynodir bylchau.  Caiff canlyniadau asesiad dechreuol CGGC wedyn eu hanfon at y panel ymgynghori grantiau cenedlaethol (a ffurfiwyd o aelodau'r bwrdd partneriaeth) i'w hadolygu a'u hasesu'n derfynol. Mae'r panel asesu grantiau cenedlaethol yn rhoi adroddiad i fwrdd partneriaeth GwirVol.

Datblygiad diweddar yn y rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm fu cyflwyno cynllun Chwaraeon GM50. Roedd y syniad yn cynnig ffordd o adnabod y gwirfoddoli yr oedd pobl eisoes yn ei wneud o fewn yr amgylchedd chwaraeon e.e. hyfforddiant tîm, gweinyddu neu baratoi. Mae'r dull yma'n cydnabod yr amser yma hyd at wobr 50 awr Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

[11] Nododd Argymhelliad 11 Comisiwn Russell ei bod yn bwysig nodi cyfraniad gwirfoddolwyr ifanc.
[12] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) 'Gwerthusiad o Raglen Grantiau Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru' paratowyd gan Old Bell 3 Cyf.

Caiff pump cynllun arall GM50 eu cyflwyno neu eu trafod ar hyn o bryd:

- Gwirfoddoli Tramor (cysylltiedig gyda Rhyngwladol, ac yn trin y ffaith nad yw Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn cydnabod gwirfoddoli tramor yn ei wobrau);
- Ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed;
- Gwirfoddoli cyflogeion h.y. annog busnesau a sefydliadau i gefnogi eu cyflogeion 16-25 oed i ymgymryd â gwirfoddoli (e.e. ar ôl gwaith);
- Gwirfoddoli achrededig yn gysylltiedig gyda chredydau OCN;
- Gwirfoddoli ysgolion (syniad a fenthycwyd o Ogledd Iwerddon lle cydnabyddir gwirfoddoli gan rai 16-18 oed ac yn yr ysgol).

Soniwyd am raglenni erail GM50 hefyd (e.e. gwirfoddoli mewn iwnifform - ar gyfer yr heddlu, iechyd, sgowtiaid/geidiaid ac ati - a gwirfoddoli digwyddiadau).

GwirForce

Mae'n ganolog i argymhellion Russell y dylai ymyriadau gwirfoddoli ieuenctid gael eu 'harwain gan bobl ifanc'. Mewn ymateb, mae GwirVol wedi sicrhau ymgyfraniad pobl ifanc drwy weithredu 'GwirForce': panel o bobl ifanc sy'n gweithredu fel canolbwynt neu lais gwirfoddolwyr ifanc ar draws Cymru.

Gall GwirForce olrhain ei wreiddiau'n ôl i ddigwyddiad a gynhaliwyd ym mis Hydref 2007 lle gwahoddwyd pobl ifanc o bob rhan o Gymru i ddysgu mwy am ddatblygiad gwirfoddoli pobl ifanc. O'r digwyddiad hwn cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd preswyl - a ariannwyd drwy gyllid Comisiwn Russell - i ddatblygu syniadau ymhellach. Arweiniodd hyn at ffurfio GwirForce yn 2009.

Mae codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ymysg pobl ifanc yng Nghymru yn amcan allweddol gan GwirForce. Amcan allweddol arall yw cyflawni'r rôl fel 'llais' gwirfoddolwyr ifanc. Mae hyn yn cynnwys mesur barn pobl ifanc i helpu i lunio GwirVol fel bod y cynllun yn parhau'n berthnasol i anghenion a diddordebau'r bobl ifanc hynny. O'r herwydd, mae aelodau o GwirForce yn eistedd ar fwrdd partneriaeth GwirVol.

Cydnabuwyd hefyd fod cydymffurfio gyda dull 'dan arweiniad pobl ifanc' yn golygu y byddai angen i GwirForce gael statws cyfartal ar bartneriaeth ehangach GwirVol a lefel o annibyniaeth a fyddai'n dileu risg unrhyw ddylanwad gormodol gan y bartneriaeth honno.

I'r diben olaf hwn, ceisiwyd contractwyr annibynnol i roi rheolaeth a chefnogaeth i banel GwirForce e.e. eu helpu i drefnu lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau. Comisiynwyd cefnogaeth ar gyfer GwirForce a dyfarnwyd y contract i Rathbone Cymru rhwng 1 Gorffennaf 2009 a Mawrth 2012. Caiff y contract ei reoli gan CGGC a chynhelir cyfarfodydd misol gyda chynrychiolwyr Rathbone Cymru.

Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid

Mae GwirVol hefyd yn ariannu 22 o swyddi rhan-amser Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid (CGI) yn y canolfannau gwirfoddol ym mhob sir yng Nghymru.[13] Eu nodau yw:

- Cynyddu nifer ac amrywiaeth y bobl ifanc sy'n ymwneud â gwirfoddoli;
- Cynyddu nifer ac ansawdd cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.[14]

Mae eu rôl yn canoli ar:

- Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc a recriwtio a lleoli pobl ifanc mewn cyfleoedd;
- Rhoi cyflwyniadau (mewn ysgolion a cholegau), mynychu ffeiriau gleision mewn prifysgolion a chodi ymwybyddiaeth arall e.e. sefydlu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol lleol / cynhyrchu cyhoeddusrwydd;
- Cynnig cyngor a gwybodaeth i sefydliadau am sut i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli cyfeillgar i bobl ifanc;
- Rhoi cyfleoedd newydd ar wefan gwirfoddoli Cymru;

[13] Yn benodol mae 21 o Gynghorwyr yn gwasanaethu'r 22 sir yng Nghymru (mae un Cynghorydd yn gweithio ar draws siroedd Casnewydd a Sir Fynwy). Mae cyllid GwirVol yn ariannu swyddi rhan-amser rhwng 15 a 18.5 awr yr wythnos. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, mae arian cyfatebol neu gyllid a drosolwyd yn galluogi rôl y Cynghorwyr i fod yn un llawn-amser (er nid o reidrwydd yn llawn-amser i gynllun GwirVol).

[14] http://www.gwirvol/cy/amdanom/cynghorwyr

- Cefnogi paneli rhoi grantiau lleol dan arweiniad pobl ifanc yn cynnwys recriwtio aelodau, cyflwyno hyfforddiant i aelodau newydd, mynychu cyfarfodydd panel a darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r panel, cefnogi ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau ar gyfer cronfeydd ieuenctid lleol, a gweithgaredd parhaus yn gysylltiedig â cheisiadau llwyddiannus;
- Ymgymryd â threfniadau ariannol a monitro o'r grantiau ieuenctid lleol yn y rhan fwyaf o ardaloedd.

<u>Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc</u>

Daw elfen bellach o'r dull gweithredu 'dan arweiniad pobl ifanc' drwy raglen Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc. Mae'r CGI wedi sefydlu paneli grantiau dan arweiniad pobl ifanc ym mhob sir yng Nghymru.[15] Mae'r rhain yn grwpiau o bobl ifanc o'r ardal leol y dyrennir hyd at £5,000 y flwyddyn iddynt (drwy'r canolfannau gwirfoddoli perthnasol) i'w dosbarthu drwy grantiau i weithgareddau gwirfoddoli lleol dan arweiniad pobl ifanc. Mae'r paneli'n penderfynu ar y meini prawf ar gyfer y grantiau, y grwpiau blaenoriaeth a'r broses gais. Y nod yw sicrhau y caiff pob gweithgaredd ym mhob ardal ei arwain gan syniadau ac anghenion pobl ifanc.

Mae Rheolwr Rhaglen CGGC yn goruchwylio'r grantiau lleol dan arweiniad pobl ifanc. Bu tua £110,000 ar gael bob blwyddyn ar draws y 22 sir a medrir cyflwyno ceisiadau trwy gydol y flwyddyn yn ôl dyddiad cau pob cynllun. Disgwylir i bob prosiect cael ei gyflawni a'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn h.y. 31 Mawrth.

<u>Gwefan a Hyrwyddiadau</u>

Mae gwefan GwirVol yn ganolbwynt pwysig i'r cynllun - codi ymwybyddiaeth, lledaenu gwybodaeth am GwirVol a gwirfoddoli yng Nghymru, gan rhoi man ar gyfer cyrchu gwybodaeth am grantiau, arweiniad a ffurflenni cais a helpu i adeiladu adnabyddiaeth o 'frand' GwirVol ymysg rhanddeiliaid.[16]

---

[15] Cyfunodd pedair sir - Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Blaenau Gwent - eu cyllid a chael un panel grantiau (panel grantiau 'Gwent').

[16] Datblygwyd gwefan ddechreuol yn defnyddio (cyn Ebrill 2009) gyllid Comisiwn Russell. Fodd bynnag cafodd y wefan ei hailddylunio yn 2010 oherwydd pryderon am ansawdd y wefan bresennol a chost parhau ei defnyddio. Mae contract ar wahân ar gyfer cynnal a chadw'r safle yn cynnwys dolenni i safleoedd cyfryngau cymdeithasol GwirVol.

Yn ogystal â gwaith hyrwyddo arall ar-lein, mae staff CGGC, aelodau GwirForce a CGI hefyd wedi rhoi nifer fawr o gyflwyniadau i grwpiau eraill a rhanddeiliaid â diddordeb mewn gwahanol leoliadau (e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Sioe Frenhinol Cymru ac i rwydweithiau rheolwyr gwirfoddol lleol). Mae CGGC hefyd wedi cynnal presenoldeb ar y cyfryngau traddodiadol ar gyfer cynllun GwirVol drwy ddatganiadau i'r wasg, cyfraniadau i gylchgronau/cyfnodolion y sector, dosbarthu taflenni ac ati.

## 2.3 Cyd-destun Polisi

Dylid nodi y gweithredwyd GwirVol i ddechrau mewn sefyllfa o berfformiad cyffredinol gryf mewn gwirfoddoli (pob grŵp oedran) yng Nghymru. Erbyn 2008 credid fod mwy na 1.5 miliwn o wirfoddolwyr yng Nghymru (pob grŵp oedran) yn cyfrannu cynifer o oriau â 90,000 o weithwyr llawn-amser bob blwyddyn. Yn yr un modd, roedd isadeiledd gwirfoddoli sylweddol hefyd yn ei le: erbyn 2008 roedd o leiaf 30,000 o sefydliadau trydydd sector yn gweithredu yng Nghymru a chredid fod gan bron 90% ohonynt gwmpas lleol ac yn dibynnu'n llwyr ar wirfoddolwyr.[17]

Serch hynny, er ei bod yn glir y cyflawnwyd llawer mewn gwirfoddoli yng Nghymru, roedd Llywodraeth Cymru'n cydnabod y medrid gwneud mwy. Ym mis Ionawr 2008 roedd *Y Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol* yn nodi ‘gweledigaeth, strategaeth a rhaglen weithredu Llywodraeth y Cynulliad fydd yn sail i'w chefnogaeth i'r sector'.[18] Dynododd y Trydydd Dimensiwn y materion allweddol yn wynebu'r sector gwirfoddoli, yn cynnwys yr angen i gynyddu nifer yr oriau gwirfoddoli (yn hytrach na dim ond nifer y gwirfoddolwyr) drwy 'well hyrwyddo a chefnogaeth'.

---

[17] Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ionawr 2008) Y Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol

[18] Tudalen 9

Cafodd y nodau hyn eu hailgadarnhau yn fras yn fframwaith polisi trosfwaol Cymru'n Un (2008) a wnaeth, er enghraifft, ymrwymo Llywodraeth Cymru i 'ymchwilio ffyrdd o gydnabod a gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc'.[19]

Yn nhermau'r cyd-destun polisi parhaus yng Nghymru, dengys adolygiad cyflym o Faniffesto Llafur[20] ar gyfer 2011 a'r Rhaglen Llywodraethu ddilynol (a lansiwyd ar 27 Medi 2011) fwy neu lai fod yr egwyddorion oedd yn sylfaen i'r Trydydd Dimensiwn (ac yn benodol gefnogaeth ar gyfer gwirfoddoli) yn debyg o gael eu cadw dan y weinyddiaeth bresennol, er gyda chyfleoedd newydd mewn rhai sectorau - er enghraifft mewn gofal cymdeithasol lle mae ymrwymiad i 'gefnogi ac annog y sector gwirfoddol a di-elw i ddarparu'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu gweithredu er mwyn elw ar hyn o bryd trwy hyrwyddo bondiau buddsoddi cymdeithasol, 'bancio amser' a chymorth wedi ei gryfhau ar gyfer mentrau cymdeithasol.'[21]

Wrth gwrs mae'r argymhellion ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yng Nghomisiwn Russell yn parhau'n sylfaen polisi allweddol ac mae llywodraeth glymbleidiol y DU - drwy ei hagenda Cymdeithas Fawr - wedi cadw ymrwymiad cryf i wirfoddoli ymysg pobl ifanc.[22] Mae annog mwy o bobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymuned, er enghraifft, yn elfen ganolog o'u gweledigaeth ar gyfer cymdeithas gadarnhaol ar gyfer pobl ifanc .[23] Yn y cyswllt hwn mae'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol - rhaglen ddatblygu personol a chymdeithasol wirfoddol ar gyfer rhai 16 oed - yn cael ei dreialu ar hyn o bryd fel ffordd bosibl o ymgysylltu nifer fwy o bobl ifanc.[24]

---

[19] Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru: Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol (27 Mehefin 2007), t.24

[20] Ffurfiwyd llywodraeth Lafur yng Nghymru yn dilyn etholiadau 2011 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

[21] Llywodraeth Cymru (Medi 2011) Rhaglen Lywodraethu Pennod 5 Atodiad Rhaglen Gyflenwi Ymrwymiadau Maniffesto, Ymrwymiad 5/004

[22] Adran Addysg (2011b) Papurau trafod Positive for Youth 'Young people's role in society'

[23] Adran Addysg (2011a) Papurau trafod 'Positive for Youth: 'A vision for society that is 'Positive for Youth''.

[24] Adran Addysg (2011c) Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol [ar-lein] (diweddarwyd ddiwethaf 3 Mai 2011). Gweler: http://www.education.gov.uk/childrenandyoungpeople/youngpeople/nationalcitizenservice/a0075357/national-citizen-service

Fodd bynnag, mae'r wasgfa ar gredyd yn 2008 a'r dirwasgiad dilynol wedi cael (ac yn debyg o barhau i fod ag) effaith amlwg ar gyllid o fewn trydydd sector y DU. Er y gall yr ewyllys fod yno, mae'r modd yn ymddangos yn llai sicr, o leiaf ar y lefelau presennol o gefnogaeth neu'n defnyddio'r dulliau presennol.

Yn y sefyllfa yma gwyddom y gofynnwyd i CGGC baratoi a chyflwyno cynllun busnes i'r Gweinidog am barhau i gyflwyno rôl weinyddol GwirVol. Gwyddom hefyd y paratowyd drafft gynllun yn cwmpasu'r cyfnod o bedair blynedd 2012 i 2016. O fewn y cynllun hwn, cafodd y lefel ariannu arfaethedig ar gyfer 2012/13 ei gosod ar gyfradd debyg i'r tair blynedd ddilynol er fod blynyddoedd dilynol i 2016 yn dangos gostyngiad amlwg, gan adlewyrchu effeithiau'r hinsawdd economaidd a gwariant cyhoeddus ehangach.

## 3. ADOLYGIAD O'R DATA MONITRO, ADRODDIADAU AC ALLBWN YMCHWIL MEWNOL

### 3.1 Trosolwg

Gosodwyd nifer o dargedau perfformiad ar gyfer rhaglen GwirVol am y cyfnod 2009-2012. Drwy ei rôl weinyddol mae CGGC yn casglu ac yn dadansoddi data monitro yng nghyswllt y targedau hyn a mesurau eraill. Caiff y data wedyn ei gyflwyno i Bartneriaeth GwirVol a Llywodraeth Cymru ar ffurf adroddiadau hanner blwyddyn a diwedd blwyddyn.

Yn ogystal â'r data monitro ac adroddiadau, yn 2011 cynhaliodd CGGC werthusiad (mewnol) o gynllun GwirVol. Defnyddiodd y gwerthusiad ddata o nifer o ffynonellau'n cynnwys: data monitro perfformiad, adroddiadau monitro a gwybodaeth atodol ynghyd ag arolygon, grwpiau ffocws ac astudiaethau achos o bobl ifanc (yn cynnwys gwaith gan ymgynghorwyr allanol) gyda'r diben o ddysgu mwy am effaith cynllun GwirVol.[25] Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad dechreuol mewn adroddiad gwerthuso dyddiedig Mehefin 2011 a roddwyd i'r tîm ymchwil.

Yn yr Adran yma defnyddiwn y data monitro, adroddiadau a gwerthusiad mewnol i ystyried y cynnydd a wnaed yng nghyswllt y targedau perfformiad a mesurau eraill a gytunwyd ar gyfer GwirVol. Caiff pob un o brif elfennau prosiect GwirVol eu hystyried yn eu tro. Dylid nodi fod y data monitro oedd yn sylfaen i'r canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gafwyd gan CGGC. Ni chafodd ei ddilysu'n annibynnol gan y tîm ymchwil.

---

25 Mesurwyd yr effaith ar bobl ifanc yn defnyddio astudiaethau achos (cynhaliodd y CGI 32 o gyfweliadau a chwblhau astudiaethau achos hyd at fis Mehefin 2011), cynnal arolygon (e.e. pobl ifanc yn mynychu Eisteddfod yr Urdd) a chomisiynu Dynamix Cyf i gynnal cyfres o grwpiau ffocws (ac arolygon) gyda gwirfoddolwyr ifanc yng Nghymru, gyda ffocws arbennig ar y 'grwpiau blaenoriaeth' h.y. rhai o gefndiroedd du a lleiafrif ethnig, rhai heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, pobl ifanc gydag anawsterau ffisegol neu ddysgu a - grŵp blaenoriaeth ar gyfer 2009-2011 yn unig - pobl ifanc 16-18 oed.

### 3.2 Rhaglen Grantiau Cenedlaethol

Mae'r rhai sy'n derbyn grantiau cenedlaethol GwirVol yn rhoi gwybodaeth i CGGC ar y gwirfoddoli (a'r gwirfoddolwyr) a gefnogwyd gan y cyllid. Cyflwynir data i CGGC ar ffurf adroddiadau safonol hanner ffordd drwy'r prosiect a wedyn ar ddiwedd y prosiect.

Dylid nodi na roddir adroddiad ar y grantiau a ddyfarnwyd mewn un flwyddyn ariannol hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Hynny yw, roedd angen i'r prosiectau y dyfarnwyd cyllid iddynt yn y flwyddyn gyntaf (2009-2010) roi data adrodd ym mis Ebrill 2011. Y diben yw rhoi digon o amser i brosiectau (yn benodol rhwng 12 a 18 mis) i weithredu'r gweithgareddau a ariannwyd cyn bod angen iddynt roi adroddiad ar y mesurau a gytunwyd. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu mai dim ond yng nghyswllt y rhai a dderbyniodd grantiau 2009/10 y mae data ymchwil ar gael.[26]

*3.2.1 Cyllid*

Mae cyllid ar gyfer y rhaglenni grant cenedlaethol yn cyfrif am tua 40% o holl gyllid GwirVol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd data gwariant ar gael am y cyfnod Ebrill 2009 i Mawrth 2011. Dros y cyfnod hwn roedd y gyllideb ddangosol ar gyfer y rhaglenni grant cenedlaethol yn £815,450 er y bu ychydig o danwariant (gweler Tabl 3.1).[27] [28] Mae adborth gan CGGC yn awgrymu y byddant erbyn Mawrth 2012 yn disgwyl y bydd gwariant ar grantiau cenedlaethol yn cydfynd â'r gyllideb ddangosol, mewn geiriau eraill y caiff y tanwariant o flynyddoedd blaenorol ei amsugno yn 2001/2012.

Mae Tabl 3.1 hefyd yn dangos y gwariwyd tua dau-draean o'r cyllid grant cenedlaethol yn y rhaglen Creu Cyfleoedd. Aeth pumed ran y cyllid i brosiectau

26 Nid oedd data ar gynnydd ar dargedau perfformiad ar gael ar gyfer StreetGames (a ddechreuodd yn 2010/11) neu Wirfoddolwyr y Mileniwm (a ddechreuodd yn 2011/12).

27 Nid y data gwariant yn Ffigur 3.1 yw'r cyfanswm cyllid a dderbyniwyd gan y rhaglenni cenedlaethol oherwydd defnyddiwyd cyllid GwirVol gan sefydiadau a dderbyniodd grantiau (a CGGC yn achos StreetGames h.y. gan y Co-operative) i roi arian cyfatebol.

28 Dechreuodd cyllid StreetGames yn 2010/11 ac roedd data ar wariant ar gael ar gyfer y flwyddyn honno. Yn yr un modd daeth Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn rhan o GwirVol yn Ebrill 2011. Nid oes data ar gael hyd yma ar y gyllideb a'r gwariant ar gyfer Gwirfoddolwyr y Mileniwm ar gyfer 2011/12.

Rhyngwladol. Defnyddiwyd ychydig dros ddegfed rhan y cyllid grant cenedlaethol ar gyfer grantiau Hyrwyddo.

*Tabl 3.1: Cyllid rhaglenni grant cenedlaethol (Ebrill 2009 i Mawrth 2011)*

| Ymyriad | Gwariant (o gyllideb GwirVol) |
|---|---|
| Creu cyfleoedd | £531,727 |
| Hyrwyddiadau | £86,709 |
| Rhyngwladol | £163,064 |
| StreetGames | £10,844 |
| Gwirfoddolwyr Mileniwm | d/b |
| CYFANSWM | £792,344 |

*Ffynhonnell: Data gan CGGC*

### *3.2.2 Ceisiadau a Dyfarniadau*

Mae data gan CGGC yn awgrymu y dyfarnwyd 92 grant ar draws y pum rhaglen grant cenedlaethol yn nwy flynedd gyntaf rhaglen bresennol GwirVol. Mae Tabl 3.2 yn rhoi dadansoddiad.

O'r 92 dyfarniad, roedd 60 (65%) wedi derbyn grant Creu Cyfle, 20 (22%) wedi derbyn grant Hyrwyddiadau, chwech (6.5%) wedi derbyn grant Rhyngwladol a chwech (6.5%) wedi derbyn grant StreetGames.[29]

O'r 92 grant, roedd wyth sefydliad wedi derbyn dau grant (mewn pedwar o'r achosion hyn cafodd yr un math o grant ei ddyfarnu ond gwnaed ar gael ddwywaith mewn blynyddoedd olynol) ac roedd un wedi derbyn tri grant dan gynllun GwirVol (gan felly ostwng nifer y sefydliadau a gefnogwyd i 82).

Dengys Tabl 3.2 ddiddordeb iach yn y rhaglenni grant cenedlaethol. Hyd yma derbyniwyd tua 346 cais am grant ar gyfer y pum rhaglen (tua 80% ar gyfer y rhaglen Creu Cyfleoedd a Hyrwyddiadau): nid oedd tua dau-draean y ceisiadau hyn a wnaed yn 2009/10 a 2010/11 yn llwyddiannus (gyda cheisiadau am grant Rhyngwladol yn arbennig o debygol o fod yn aflwyddiannus).

[29] Dylid nodi hefyd i 2 brosiect ddychwelyd eu cyllid.

*Table 3.2: Nifer ceisiadau a dyfarniadau yn ôl grant*

| **Rhaglen Grant Cenedlaethol** | **Nifer Ceisiadau** | | | **Nifer Dyfarniadau** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **09 / 10** | **10 / 11** | **11 / 12** | **09 / 10** | **10 / 11** | **11 / 12** |
| Creu Cyfleoedd | 89 | 82 | 39 | 24 | 36 | 23 dan ystyriaeth |
| Hyrwyddiadau | 35 | 25 | 5 | 11 | 9 | 2 dan ystyriaeth |
| Rhyngwladol | 12 | 23 | 6 | 2 | 4 | 3 dan ystyriaeth |
| StreetGames | n/a | 12 | 2 | n/a | 6 | 0 dan ystyriaeth |
| Gwirfoddolwyr Mileniwm | n/a | n/a | 13 | n/a | **n/a** | 8 dan ystyriaeth |
| **Cyfanswm** | **136** | **142** | **65** | **37** | **55** | **36 dan ystyriaeth** |

*Ffynhonnell: Data monitro GwirVol, CGGC*

Dylid nodi fod adroddiadau monitro CGGC yn datgelu bod pryder am safon ceisiadau ym mlwyddyn gyntaf y cyllid (2009/10). Fel canlyniad, cafodd y rôl o ddarparu cefnogaeth i ymgeiswyr grant cenedlaethol ei ddynodi'n bennaf i dîm gweinyddol CGGC (cyn y penderfyniad hwn, roedd y Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid hefyd wedi rhoi cefnogaeth o fewn eu cylch gorchwyl).[30] Dengys adolygiad o adroddiadau monitro GwirVol y cafodd y symudiad hwn effaith cadarnhaol; adroddwyd fod safon ceisiadau wedi gwella dros gyfnod.

Yn dilyn pob cylch cyllid grant mae CGGC hefyd wedi cynnal adolygiad gofodol o leoliad ymgeiswyr a dyfarniadau grant. Mae'r data'n dengys gwasgariad cyffredinol da ar draws Cymru a chymysgedd o brosiectau Cymru-gyfan, rhanbarthol a mwy lleol (e.e. roedd tua 10% o'r ceisiadau a'r dyfarniadau ar gyfer prosiectau Cymru-gyfan). Mae'r adroddiadau hefyd yn gwneud yn glir y defnyddiwyd yr wybodaeth ofodol i roi gwybodaeth ar gyfer gwaith hyrwyddo/codi ymwybyddiaeth ar gyfer cylchoedd cyllid yn y dyfodol.

### *3.2.3 Perfformiad ar y Targedau a Gytunwyd*

Cytunodd Llywodraeth Cymru, bwrdd partneriaeth GwirVol a CGGC ar nifer o brif dargedau ar gyfer y rhaglen grantiau cenedlaethol adeg sefydlu'r prosiect. Roedd data ar y targedau hyn a'r perfformiad hyd yma ar gael i'r tîm ymchwil ac fe'i cyflwynir yn Nhabl 3.3.

[30]Yn wir, fel mesur ychwanegol, derbyniodd y CGI hefyd hyfforddiant ychwanegol gan dîm gweinyddol CGGC yng nghyswllt ceisiadau am grant.

Mae'r data yn Nhabl 3.3 yn cyfeirio at y rhaglen Creu Cyfleoedd a rhaglenni grant Rhyngwladol yn unig; ystyriwyd gwahanol fesurau - yn seiliedig ar gyflawni gweithgareddau a/neu gerrig milltir - ar gyfer y rhaglen Hyrwyddiadau.[31]

Dengys y canfyddiadau na wnaeth y rhaglenni grantiau cenedlaethol yn gyffredinol gyflawni eu prif darged ar gyfer blwyddyn gyntaf GwirVol (2009/10).

*Tabl 3.3: Perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer y rhaglen grantiau cenedlaethol*

| Targed | Targed Blynyddol | 2009/10 | 20010/11 | Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer gwirfoddolwyr ifanc a gefnogwyd gan grantiau cenedlaethol | 1,500 | 957 | d/g | 543 (-36%) |

*Ffynhonnell: Data monitro GwirVol, CGGC*

Mae rhai a dderbyniodd grantiau hefyd yn rhoi gwybodaeth ystadegol sy'n datgelu amrywiaeth y gwirfoddolwyr. O'r 957 o wirfoddolwyr ifanc a gefnogwyd, daeth 441 (46%) o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Daeth 91 (10%) o gefndir du neu leiafrif ethnig ac roedd gan 85 (9%) anawsterau gorfforol neu ddysgu. Roedd 47 (5%) o'r gwirfoddolwyr ifanc rhwng 16 a 18 oed. Mae'r mesurau hyn yn dangos lefelau da o ymgysylltu GwirVol gyda rhai o ardaloedd amddifadus, grwpiau du a lleiafrif ethnig, a rhai gydag anawsterau corfforol neu ddysgu.

Cytunwyd ar dargedau eilaidd eraill hefyd ar gyfer y rhaglenni grant cenedlaethol. Cyflwynir y rhain yn Nhabl 3.4. Eto, roedd perfformiad ar gyfer blwyddyn cyllid 2009/10 yn is na'r targed.

[31] Nid oedd data ar gael ar gyfer StreetGames (dim yn weithredol) a Gwirfoddolwyr y Mileniwm (dim yn rhan o GwirVol ar y pryd) am flwyddyn gyntaf (2009/10) y cynllun.

*Tabl 3.4: Mesurau perfformiad ychwanegol – rhaglenni grant cenedlaethol*

| Mesur | Targed 2009/10 | Cyflawniad 2009/10 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer oriau gwirfoddoli | 79,832 | 59,492 (-25%) |
| Cyfanswm nifer cyfleoedd newydd a grëwyd | 515 | 451 (-12%) |

*Ffynhonnell: Data monitro GwirVol, CGGC*

Yn gyffredinol, am flwyddyn gyntaf GwirVol methodd y rhaglenni grant cenedlaethol i gyflawni eu targedau ar draws nifer o fesurau perfformiad. Dywed adroddiad gwerthuso CGGC fod hyn oherwydd bod sefydliadau a wnaeth geisiadau wedi gosod targedau rhy uchelgeisiol, ac o'r herwydd, gallai bod angen canllawiau ychwanegol yn y dyfodol ar osod targedau realistig a chyraeddadwy.[32]

Mae gwerthusiad mewnol CGGC o GwirVol hefyd yn cynnwys arolwg ar y we o sefydliadau cenedlaethol derbyn grant. Derbyniwyd 37 ymateb (o 68). Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Dywedodd 80% o sefydliadau fod GwirVol wedi'u helpu i wella eu strwythur ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr (yn arbennig drwy ddefnyddio hyfforddiant);
- Dynododd ymatebwyr ystod o effeithiau cadarnhaol ar gymunedau (e.e. annog ymgysylltu cymunedol, codi hunandyb a balchder yn y gymuned leol, canlyniadau cadarnhaol mewn iechyd a lles, addysg a sgiliau);
- Barn gadarnhaol iawn ar weinyddiaeth CGGC o GwirVol.

### 3.3 Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid (CGI)

Dengys data cyllideb a gwariant y gwariwyd tua traean cyllideb flynyddol GwirVol ar y CGI. Mae crynodeb yn Nhabl 3.5.

[32] Er y gallai'r casgliad hunan gael ei ymestyn i gynnwys pob ffactor Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol (CAMPUS).

*Tabl 3.5: Cyllideb/gwariant blynyddol cynghorwyr gwirfoddoli ieuenctid*

| **Ymyriad** | **Cyllideb/Gwariant (£)** |
|---|---:|
| 2009/10 | 350,000 |
| 2010/11 | 340,000 |
| 2011/12 | 340,000 |
| **Cyfanswm** | **1,030,000** |

*Ffynhonnell: Data monitro GwirVol, CGGC*

Ar gam chwech a 12 mis y flwyddyn ariannol, mae'r CGI yn rhoi gwybodaeth ystadegol i CGGC ar eu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad perthnasol. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth ar grantiau dan arweiniad pobl ifanc, nifer y prosiectau a ariannwyd, y cyfleoedd a gafodd eu creu, y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd ac amrywiaeth y gwirfoddolwyr ac yn y blaen.

*3.3.1 Perfformiad o gymharu â thargedau a gytunwyd*

Mae Tabl 3.6 yn cyflwyno'r mesurau, targedau a pherfformiad a gytunwyd ar gyfer gwaith y CGI dros y cyfnod Ebrill 2009 i Mawrth 2011. Mae'r tabl yn dangos perfformiad cryf ar nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a ddynodwyd a nifer y bobl ifanc a gynghorwyd, er fod nifer y bobl ifanc a leolwyd rywfaint yn is na'r targed.

Mae tystiolaeth o werthusiad mewnol CGGC hefyd yn awgrymu:

- Mai merched yw tua dau-draen y gwirfoddolwyr ifanc a recriwtiwyd gan y CGI;
- Bod yr unigolion a recriwtiwyd gan y CGI yn tueddu i ostwng gydag oedran y person ifanc (h.y. mae CGI yn recriwtio mwy o rai 16-18 oed nag o rai 22-24 oed);
- Mae tua hanner y bobl ifanc a recriwtir gan y CGI yn yr ysgol neu goleg, mae mwy na chwarter heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac mae tua un mewn deg yn gyflogedig;
- Mae tua 10% yn anabl neu gyda phroblemau iechyd, gyda chyfran ychydig yn uwch o wirfoddolwyr du neu leiafrif ethnig a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg;
- Gwneir y rhan fwyaf o leoliadau i gyfleoedd gwirfoddoli mewn sectorau gwaith ieuenctid; plant a theuluoedd; gwaith cymunedol; chwaraeon a hamdden ac amgylchedd;

- Ychydig o leoliadau a wneir ar gyfer gweithgareddau ymgyrchu; gyrru; rhywedd a rhywioldeb; ieithoedd ac ymddiriedolwyr;
- Mae 85% o'r cyfleoedd gwirfoddoli yn y trydydd sector/sector gwirfoddol.

Tabl *3.6: Perfformiad o gymharu â thargedau ar gyfer Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid*

| **Targed** | **2009/10** | **20010/11** | **Cyflawniad 2009 i 2011** | **Targed 2009 i 2011** | **Amrywiad** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cyfleoedd gwirfoddoli newydd a ddynodwyd gan y CGI | 1,033 | 1,069 | 2,102 | 666 | 1,436 (+216%) |
| Nifer pobl ifanc a gynghorwyd gan y CGI [33] | 8,523 | 8,587 | 17,110 | 8,000 | 9,110 (+114%) |
| Nifer gwirfoddolwyr ifanc a leolwyd gan y CGI | 1,985 | 1,970 | 3,955 | 4,400 | 445 (-10%) |

*Ffynhonnell: Data monitro GwirVol, CGGC*

Mae canfyddiadau ychwanegol yn y gwerthusiad mewnol hefyd yn awgrymu lefelau da o weithgaredd CGI: rhwng 2009 a 2011 rhoddodd CGI gyflwyniad mewn ysgolion, clybiau ieuenctid ac ati ac maent wedi sicrhau cysylltiadau gyda phartneriaethau a rhwydweithiau ieuenctid ledled Cymru, er enghraifft.

### 3.4 Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc

Bu £110,000 y flwyddyn ar gael ar gyfer Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc. Mae'r data monitro yn dangos tanwariant cyffredinol ar grantiau lleol dan arweiniad pobl ifanc erbyn Mawrth 2011 o £37,780. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y cymerwyd mwy o amser nag a ddisgwylid i ddatblygu/sefydlu paneli ieuenctid ledled Cymru yn 2009/10.[34]

[33] Y ffigur hwn yw'r nifer o ymholiadau a dderbyniodd CGI gan bobl ifanc yn ystod y flwyddyn.
[34] Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn GwirVol 2010/11

Fodd bynnag, mae Tabl 3.7 yn dangos perfformiad cryf o gymharu â'r targedau a gytunwyd ar gyfer y Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc. Roedd 'nifer y gwirfoddolwyr ifanc a gefnogwyd' bron bedair gwaith y ffigur targed am y cyfnod 2009 i 2011. Mae'r perfformiad hefyd yn ymddangos yn sylweddol uwch na'r hyn a gyflawnwyd gyda'r grantiau cenedlaethol er bod y rhaglen grant cenedlaethol wedi derbyn tua pedair gwaith cyllideb y rhaglen grant lleol.

*Tabl 3.7: Perfformiad o gymharu â thargedau ar gyfer y Grantiau Lleol dan Arweiniad Ieuenctid*

| **Targed** | **2009/10** | **20010/11** | **Cyfanswm 2009 i 2011** | **Targed 2009 i 2011** | **Amrywiad** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer gwirfoddolwyr ifanc a gefnogwyd gan grantiau lleol dan arweiniad ieuenctid | 1,079 | 2,792 | 3,871 | 800 | 3,071 (+384%) |

*Ffynhonnell: Data monitro GwirVol, CGGC*

Mae dadansoddiad o ddata 2010/11 a gyflwynir yn yr adroddiad gwerthuso mewnol yn dangos fod chwarter y rhai a gefnogwyd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf; roedd gan 10% anawsterau corfforol neu ddysgu a roedd 3% o'r rhai a gefnogwyd o gefndiroedd du neu leiafrif ethnig. Mae'r canrannau hyn yn sylweddol is nag ar gyfer y rhaglenni grant cenedlaethol gan awgrymu fod llawer mwy o dargedu o grwpiau 'difreintiedig' o fewn rhagleni grant cenedlaethol, ac felly'n cyfrif am gostau cymharol uwch y rhaglenni hynny.

Ymhellach, mae data monitro yn awgrymu y datblygwyd dros 1,000 o gyfleoedd gwirfoddoli newydd drwy'r grantiau lleol.

Mae'n galonogol fod tîm CGGC yn adrodd fod rhai a dderbyniodd Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc wedi dechrau edrych ar y grantiau cenedlaethol fel y cam nesaf i ddatblygu eu prosiectau.

Yn nhermau dadansoddiad gofodol, mae data gan CGGC am y cyfnod Ebrill 2009 i fis Mawrth 2011 yn dangos amrywiad sylweddol ar draws siroedd Cymru yn nifer y prosiectau a ariannwyd (e.e. dyfarnwyd cyllid lleol dan arweiniad ieuenctid i 66 prosiect yng Ngwynedd o gymharu gyda phedwar yng Ngheredigion). I ryw raddau mae hyn yn adlewyrchu penderfyniadau ar y lefel leol i wneud dyfarniadau llai ar gyfartaledd (gan felly ledaenu'r cyllid yn ehangach), er i rai ardaloedd fethu gwario eu dyraniad 2009/10 (gan arwain at danwariant cyffredinol yn y flwyddyn gyntaf).

### 3.5 Gwefan a Hyrwyddiadau

Dengys data monitro CGGC fod y gwariant presennol ar gyfer y wefan yn cydfynd â'r gyllideb (£65,000 ar gyfer 2009 i 2012; £45,000 ar gyfer 2009 i 2011).

#### *3.5.1 Perfformiad o gymharu â thargedau*

Cyflwynwyd perfformiad o gymharu â thargedau cysylltiedig â'r wefan yn Nhabl 3.8. Mae'r perfformiad yn gymysg yn gyffredinol: mae GwirVol yn gorgyflawni ar 'nifer trawiadau porth' ond yn tangyflawni ar 'nifer defnyddwyr unigryw porth'. Fodd bynnag, mae aelodau gweinyddol a bwrdd y bartneriaeth wedi gofyn cwestiynau am ddilysrwydd y targed 'nifer defnyddwyr unigryw porth' gan nad yw'r ffigurau a gofnodwyd ond yn cyfeirio at gyfeiriadau darparydd rhyngrwyd (IP) penodol. Yn ymarferol, gall llawer o bobl gyrchu gwefan o un cyfeiriad IP - yn arbennig o safle sefydliad - ac o'r herwydd byddai'n synhwyrol tybio fod y ffigurau a gofnodwyd yn is na'r gwir nifer, a fyddai o leiaf yn rhannol yn esbonio'r amrywiad negyddol sylweddol o'r targed.

Dylid nodi hefyd fodd bynnag fod canfyddiadau'r gwaith maes wedi datgelu pryderon am ansawdd y wefan ddechreuol. Gall hyn hefyd fod wedi cael effaith ar berfformiad cynnar. Yn wir, ymddengys bod y ffigurau - yn arbennig 'nifer y trawiadau porth' yn 2011 - yn cefnogi'r penderfyniad i newid y wefan (drwy ddefnyddio ymgynghoriaeth gwefan arbenigol). Roedd 'cyfanswm trawiadau porth' tua 7% yn uwch na'r targed yn gyffredinol.

*Tabl 3.8: Perfformiad o gymharu â thargedau ar gyfer gwefan GwirVol a chyfleoedd gwirfoddoli*

| Targed | Targed Blynyddol | Cyfanswm Cyflawniad 2009 i 2011 | Cyfanswm Targed 2009 i 2011 | Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer ymwelwyr unigryw porth [35] | 60,000 | 16,312 | 70,000 | -53,688 |
| Nifer trawiadau porth[36] | 650,000 | 809,166 | 758,333 | 50,833 |
| Cyfanswm nifer cyfleoedd gwirfoddoli ieuenctid a ddynodwyd ar www.gwirfoddoli-cymru.net | 5,000 | 6,630 | 10,000 | -3,370 |

*Ffynhonnell: Data monitro GwirVol, CGGC*

Mae 'cyfanswm nifer y cyfleoedd gwirfoddoli ieuenctid a ddynodwyd ar www.gwirfoddoli-cymru.net' yn cyfeirio at y cyfleoedd sydd ar gael ar y safle ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Unwaith eto dangosodd cyfweliadau gwaith maes beth pryder am ddilysrwydd y mesur hwn. Ni fyddai'r cyfleoedd a ddodwyd rhwng darlleniadau dilynol (31 Mawrth) - yn arbennig cyfleoedd tymor-byr - yn ymddangos yn y ffigurau gan na chawsant eu hysbysebu'n benodol ar 31 Mawrth a gall trefniadau monitro'r dyfodol ddymuno gosod targed ar gyfer y newid neu dueddiad mewn niferoedd cyfleoedd gwirfoddoli yn hytrach na nifer y cyfleoedd. Yn gyffredinol fodd bynnag, fel y saif y mesurau mae'r perfformiad yn is na'r targed.

Mae cyflawniadau eraill a adroddwyd gan CGGC o fewn adroddiadau monitro a gwerthuso'n cynnwys:

- Cynnydd yn nifer y trawiadau ar y wefan mewn cyfnodau diweddar (yn arbennig yn gysylltiedig â lansiad Os Rhowch Fe Gewch[37]);
- Cynnydd yn faint o amser y mae bobl yn ei dreulio ar wefan GwirVol (o 2 funud 20 munud i 2 funud 50 eiliad).

[35] Roedd y wefan yn weithredol o ddiwedd Ionawr 2010. Mae'r targed cyffredinol a'r cyflawniad hyd Mawrth 2011 yn cyfeirio at berfformiad 14 mis
[36] ibid
[37] GwirVol (2011) *Os Rhowch Fe Gewch: Canllaw i gydnabod ac achredu gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc*

### 3.6 GwirForce

Mae'r adroddiadau monitro hefyd yn sôn am nifer o gyfraniadau cadarnhaol a wnaed gan GwirForce, yn cynnwys:

- Creu Siarter Gwirfoddolwyr Ifanc i Gymru i gydnabod rôl a chyfraniadau gwirfoddolwyr ifanc wrth gymryd rhan mewn perthynas gadarnhaol, creu cydlyniaeth gymunedol a datbygu sgiliau newydd a gaiff eu cydnabod, gwerthfawrogi a throsglwyddo i bob maes o'u bywydau. Cyflwynir y Siarter i Brif Weinidog Cymru ym mis Medi 2011;
- Arddangos GwirForce a gwirfoddoli ieuenctid yn fwy cyffredinol yng nghynadleddau CGGC a digwyddiadau eraill yng Nghymru a thu hwnt;
- Datblygu deunyddiau hyrwyddo a hybu delwedd brand GwirVol yn cynnwys safleoedd cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter, Flickr, YouTube);
- Helpu i lunio rhaglen GwirVol drwy gyfrannu at 'lais ieuenctid' yng nghyfarfodydd partneriaeth GwirVol;
- Gwneud paratoadau dechreuol ar gyfer cynhadledd i'w chynnal (yng Nghaerdydd mae'n debyg) ym mis Mawrth 2012.

### 3.7 Effaith Cyffredinol

Dengys canfyddiadau o'r arolwg dan arweiniad CGGC o bobl ifanc mai 'helpu pobl eraill' oedd y cymhelliant cryfaf dros i bobl ifanc, gyda 'gwella fy CV/ennill profiad/sgiliau' yn dilyn. Fodd bynnag roedd llai na hanner y gwirfoddolwyr hynny a ymatebodd i'r arolwg wedi clywed am GwirVol.

Yn gyffredinol serch hynny, er i bobl ifanc ddweud eu bod yn teimlo fod ganddynt gefnogaeth dda yn eu lleoliadau gwirfoddoli (e.e. yn yr arolwg dywedodd bron bawb bod y gefnogaeth a gawsant yn 'dda' neu'n 'ardderchog').

Dywedodd 87% o'r rhai a arolygwyd eu bod wedi ennill sgiliau drwy'r gwirfoddoli.

‘Diffyg amser' a 'dim yn cael fy nhalu' oedd y prif bethau oedd yn rhwystro pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn gwirfoddoli.

Dengys y data hefyd y medrid rhoi mwy o sylw i sicrhau bod:

- pobl ifanc yn integreiddio'n gyflym i'r amgylchedd gwirfoddoli (dywedodd canran cymharol uchel o bobl ifanc eu bod yn teimlo'n chwithig i ddechrau);
- gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi bob amser;
- cymorth cyfoedion drwy gynnwys nifer dda o bobl ifanc mewn prosiectau gwirfoddoli (h.y. peidio gosod person ifanc mewn grŵp ehangach yn cynnwys gwirfoddolwyr hŷn yn unig).

Dangosodd y grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda phobl ifanc:[38]

- Lefel isel o ymwybyddiaeth o GwirVol a GwirForce;
- Ymddengys mai prif gymhelliant gwirfoddolwyr yw'r cyfle i helpu pobl eraill;
- Nifer o rwystrau i wirfoddolwyr yn cynnwys pethau eraill yn galw am amser pobl ifanc (e.e. treulio amser gyda teulu, ffrindiau, astudio), diffyg gwybodaeth a stigma/delwedd negyddol yn gysylltiedig gyda gwirfoddoli.

### 3.8 Gwariant a Gwerth am Arian

Mae data a gafwyd gan CGGC yn awgrymu fod y gwariant cyffredinol ar gyfer GwirVol ychydig yn is na'r gyllideb (gan tua 3%) am y cyfnod 2009-2011, er bod CGGC yn disgwyl i'r gwariant fod ar y gyllideb erbyn mis Mawrth 2012.

Yn nhermau gwerth am arian mae Tabl 3.9 yn cymharu'r gost fesul gwirfoddolydd a recriwtiwyd/leolwyd ar gyfer gwahanol raglenni grant a gweithgaredd CGI. Dengys y canfyddiadau hyn gostau cymharol uchel fesul gwirfoddolydd yn gysylltiedig gyda'r rhaglenni Rhyngwladol a chostau cymharol isel yn gysylltiedig gyda'r Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc. Yn yr un modd ymddengys fod cost ymyriadau lleol yn gyffredinol - y CGI a Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc - yn is fesul gwirfoddolwr na'r rhaglenni grant cenedlaethol.

[38] Cynhaliwyd gan Dynamix Cyf (2011)

Pwysleisiwn fodd bynnag mai dangosol yn unig yw'r canfyddiadau: ni fedrir cymharu'r gwahanol ymyriadau yn fanwl oherwydd, er enghraifft, fod mewnbwn y CGI hefyd yn mynd i gynhyrchu cyfleoedd gwirfoddoli a chynghori pobl ifanc.[39] Yn yr un modd mae'n aneglur i ba raddau y defnyddir adnoddau un ymyriad i gefnogi un arall, er enghraifft, faint o amser mae CGI yn ei dreulio ar gefnogi rhaglenni grantiau lleol dan arweiniad pobl ifanc neu godi ymwybyddiaeth o'r rhaglenni grant cenedlaethol neu yn yr un modd i ba raddau y dylai cost tîm rheoli CGGC gael ei briodoli i bob un o'r rhaglenni yn Nhabl 3.9. Ymhellach, dylid pwysleisio er bod prosiectau Rhyngwladol yn gymharol ddrutach am bob gwirfoddolwr a recriwtir, roedd cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli rhyngwladol yn argymhelliad penodol gan Gomisiwn Russell.

*Tabl 3.9: Cymariaethau Dangosol Effeithiolrwydd Cost*

| **Rhaglen** | **Gwariant 2009/10 (£)** | **Gwariant 2010/11 (£)** | **Cyfanswm Gwariant (data ar gael) (£)** | **Gwirfoddolwyr a Recriwtiwyd (cyfnod cysylltiedig)** | **Cost fesul Gwirfoddolydd a recriwtiwyd/ leolwyd (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Creu Cyfleoedd | 213,495 | d/b | 213,495 | 902 | 236 |
| Rhyngwladol | 55,950 | d/b | 55,950 | 55 | 1,017 |
| Rhaglenni Grant Cenedlaethol[40] | 269,445 | n/a | 269,445 | 957 | 282 |
| Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid | 350,000 | 340,000 | 690,000 | 3,955[41] | 174 |
| Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc | 89,736 | 121,720 | 211,456 | 3,871 | 55 |
| Pob Gweithgaredd Lleol[42] | 410,500 | 461,720 | 872,220 | 7,826 | 111 |

Ffynhonnell: seiliedig ar ddata a gafwyd gan CGGC

Mae data a gafwyd gan CGGC yn awgrymu y bu GwirVol yn llwyddiannus wrth drosoli cronfeydd eraill sylweddol. Roedd dyfarniadau GwirVol rhwng Ebrill 2009 a

[39] Byddai cymariaethau tebyg am debyg rhwng yr ymyriadau yn golygu bod angen amcangyfrif o'r adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer pob mesur e.e. amcangyfrif o faint o amser bob wythnos y mae CGI fel arfer yn ei dreulio ar leoli pobl ifanc
[40] Rhaglenni Creu Cyfleoedd a Rhyngwladol yn unig
[41] Nifer gwirfoddolwyr a leolwyd
[42] CGI a Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc wedi'u cyfuno

Mawrth 2011 ar gyfer y rhaglenni Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc, Rhyngwladol, Cyfleoedd a Hyrwyddiadau a StreetGames yn gyfanswm o tua £1,060,093.[43] Roedd arian cyfatebol ychwanegol o brosiectau a ariannwyd, cyrff statudol ac ati ar gyfer y cyfnod hwn yn £681,834. Hynny yw, £0.64 ychwanegol am bob £1 a fuddsoddwyd yn GwirVol. Yn olaf, wrth gymharu'r data ar y nifer o oriau gwirfoddoli (Tabl 3.4) gyda'r gwariant ar raglenni grant cenedlaethol (Tabl 3.9), byddai'r gwariant fesul awr wirfoddolwr yn £4.53. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r ffigurau cymharu priodol ar gyfer cost cyfle gwirfoddolwyr ifanc fel yr isafswm cyflog, sydd ar hyn o bryd yn £5.93 ar gyfer rhai 21 oed a throsodd, £4.92 ar gyfer rhai rhwng 18 a 20 (er yn llai ffafriol ar gyfer rhai 16 a 17 oed lle mae'r isafswm cyflog yn £3.64).

Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu adenilliad da ar y cronfeydd a fuddsoddir yn GwirVol. Fodd bynnag mae angen gofal mawr wrth ddod i gasgliadau pendant oherwydd er enghraifft:

- Mae'r canfyddiad yn canolbwyntio ar un elfen o raglen GwirVol. Yn arbennig, byddai'n ddefnyddiol pe bai data monitro yn medru cynnwys - efallai drwy samplo astudiaethau achos - amcangyfrifon ar gyfer yr oriau gwirfoddoli yn gysylltiedig gydag elfennau eraill o'r cynllun, fel sy'n addas;
- Byddai model budd cost llawn hefyd yn dymuno amcangyfrif effeithiau gydol oes ymyriad h.y. lle bu gan GwirVoil rôl bwysig mewn person ifanc yn ymwneud â gwirfoddoli dros lawer o flynyddoedd yn y dyfodol (o bosibl gydol oes) yna byddai cyfanswm 'budd' GwirVol yn cynyddu;
- Mae llawer o fuddion ehangach i'r ymyriadau yn cynnwys effeithiau ar y sefydliadau a dderbyniodd y grantiau a'r cymunedau lle mae'r gwirfoddoli'n digwydd (e.e. faint o bobl sy'n teimlo'n llai ynysig oherwydd bod ganddynt gwmni/cefnogaeth gwirfoddolwyr, faint o bobl sy'n cael eu rhyddhau ynghynt o ysbyty ac yn y blaen). Byddai hyn yn cynnwys yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus lleol h.y. arbedion cost o ddarpariaeth gwasanaeth gwirfoddolwyr mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a sectorau erail (yn awr ac i'r dyfodol); mae'n nod gan GwirVol effeithio ar agweddau pobl ifanc at wirfoddoli

[43] Nodyn: nodir arian cyfatebol yn defnyddio symiau a ddyfarnwyd (nid symiau a wariwyd). Mae'r ffigur o £1,060,093 yn cyfeirio at ddyfarniadau GwirVol yn hytrach na gwariant. Roedd y gwariant yn is na'r dyfarniad oherwydd tanwario yn y gwahanol ymyriadau.

yng Nghymru a gall bod gwasgariad buddion lle mai gwirfoddolwyr ifanc yn annog eu cyfoedion (a rhai o grwpiau oedran eraill) hefyd i ddechrau gwirfoddoli;

- Mae angen amlinellu ffactorau mewnbwn eraill e.e. effaith p'un a fyddai'r person ifanc wedi gwirfoddoli beth bynnag (difuddiant), p'un a oedd priodoliad o 100% h.y. a dderbyniodd y person ifanc gefnogaeth gan sefydliadau/asiantaethau eraill (ac yn arbennig i ba raddau y cafodd y gefnogaeth honno ei hariannu'n gyhoeddus) ac a roddodd y sefydliadau hyn adnoddau ychwanegol o fath arall;
- Mae nifer o faterion mwy astrus yn cynnwys y ffaith nad yw'r adenilliad ariannol i'r trethdalwr ond yn swyddogaeth yr incwm a enillwyd (mae treth incwm er enghraifft yn ganran o enillion pobl sy'n ei dalu, er bod y trethdalwr hefyd yn gweld adenilliad drwy TAW a ffynonellau treth eraill);
- Dros gyfnod gall gwneuthurwyr penderfyniadau fod â diddordeb mewn newidiadau yn y 'map' o gymorth gwirfoddoli pobl ifanc a ariennir yn gyhoeddus ledled Cymru ac yn neilltuol os yw GwirVol wedi arwain at arbedion cost cyffredinol mewn darpariaeth a ariannir yn gyhoeddus h.y. drwy arbedion maint, gostwng dyblygu, synergedd ac ati;
- Nid yw ffigurau cost budd yn pennu gwerth ar gynnydd unigolyn o ran canlyniadau meddalach er enghraifft: hyder, hunan-dyb, a hunan-effeithiolrwydd, agwedd, uchelgais a gwahanol sgiliau generig fel cyfathrebu, dibynadwyedd, prydlondeb a gwasanaeth cwsmeriaid. Yn yr un modd byddai casglu data ar i ba raddau y mae pobl ifanc yn teimlo wedi'u grymuso, yn teimlo perchnogaeth a chyfrifoldeb/ rheolaeth am eu prosiectau yn ddefnyddiol wrth benderfynu ymrwymiad tymor hwy, yn ogystal â monitro eu hagwedd gyffredinol at wirfoddoli parhaus;
- Mae'r cynllun ei hunan wedi ychwanegu gwerth na fedrir ei feintioli yn y ffordd y mae'n dod â sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ynghyd, lledaenu arfer da, a sicrhau safonau gwirfoddoli ac yn y blaen.

Yn olaf, mae'n werth dweud fod gan raglen GwirVol eisoes systemau monitro cadarn. Er fod manteision amlwg i ddatblygu dull mwy manwl a thrwyadl o fonitro - yn arbennig o amgylch effaith a gwerth am arian - mae'n anochel y byddai hyn yn golygu costau ychwanegol, a byddai'n rhaid cydbwyso gwerth newid o'r fath gyda'r buddion tebygol o ddefnyddiau posibl eraill o'r cyllid o fewn GwirVol.

## ADRAN 4: CANFYDDIADAU O'R GWAITH MAES

### 4.1 Trosolwg

Yn yr adran hon cyflwynwn ganfyddiadau o'n gwaith maes ymchwil, yn cynnwys:

- Yr arolwg ffôn o sefydliadau cenedlaethol a dderbyniodd grant;
- Arolwg cyfyngedig ar y we o wirfoddolwyr a fu â pheth ymwneud gyda GwirVol;
- Grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda saith CGI; a
- Cyfweliadau lled-strwythuredig wyneb-i-wyneb gyda rhanddeiliaid allweddol GwirVol.

Cyn dadansoddi'r canfyddiadau o'r gwahanol ffynonellau hyn, rhoddwn adroddiad byr ar y cyfraddau ymateb a nodweddion ymatebwyr i'r ddau arolwg.

*4.1.1 Proffil sefydliadau derbyn grant a arolygwyd*

Roedd cronfa ddata o 92 derbynnydd grant ar gael i Old Bell 3 ar gyfer cynnal arolwg ffôn.

O'r rhain, roedd 60 (65%) wedi derbyn grant Creu Cyfleoedd, 20 (22%) wedi derbyn y grant Hyrwyddiadau, chwech (6.5%) wedi derbyn y grant Rhyngwladol, a chwech (6.5%) wedi derbyn grant StreetGames. Nid oedd neb ohonynt wedi derbyn grant Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Fel y nodwyd yn Adran 3, roedd nifer o sefydliadau wedi derbyn sawl grant, gan ostwng nifer y sefydliadau ar gael i'w cyfweld i 82. Ymhellach, nid oedd manylion cyswllt ar gyfer un sefydliad.

Cwblhawyd 45 grant gyda'r sefydliadau derbyn grant - 56% o'r holl sefydliadau yr oedd manylion cyswllt ar eu cyfer.

Yn gyffredinol:

- Roedd y sefydliadau a arolygwyd yn cynnwys ystod eang o wahanol feysydd thematig o ddiddordeb. Canfuwyd mai'r sectorau mwyaf cyffredin oedd gwirfoddoli a'r gymuned - roedd 13 (29%) o'r rhai a arolygwyd yn sefydliadau seiliedig ar wirfoddoli a naw (20%) yn sefydliadau cymunedol. Ymhellach, roedd pedwar (9%) yn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, pedwar (9%) yn sefydliadau ieuenctid, tri (7%) yn sefydliadau i'r anabl a thri arall (7%) yn sefydliadau amgylcheddol. Dywedodd sefydliadau eraill eu bod yn gweithredu ar draws sectorau megis lleiafrifoedd ethnig, cyfiawnder cymunedol a'r celfyddydau - ond ni wnaeth mwy nag un sefydliad nodi pob un o'r sectorau hyn.

- Disgrifiodd bron hanner y sefydliadau a arolygwyd (22 sefydliad neu 49%) eu hunain fel sefydliad annibynnol gyda ardal o ddiddordeb lleol. Dywedodd chwech (13%) eu bod yn sefydliad annibynnol gydag ardal o ddiddordeb rhanbarthol, naw (20%) yn sefydliad annibynnol gyda diddordeb Cymru-gyfan a'r wyth arall (18%) yn gangen leol neu ranbarthol sefydliad ehangach ar draws y Deyrnas Unedig.

- Roedd mwyafrif y sefydliadau a arolygwyd wedi sefydlu'n weddol dda (gyda 29 neu 64%) wedi eu sefydlu ers 1995 neu'n gynharach a dim ond 15 (33%) wedi eu sefydlu ers 2000[44]. Mae'r canfyddiad hwn yn codi rhai cwestiynau am allu GwirVol i'w farchnata ei hunan i sefydliadau mwy newydd o gofio am ddiffyg sefydliadau newydd o fewn y sampl a arolygwyd.

- Roedd trosiant y sefydliadau yn eang - roedd gan 13 (29%) drosiant bach o hyd at £50,000 (yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11), roedd gan 17 arall (38%) drosiant o rhwng £50,000 a £250,000 a 11 (24%) a throsiant dros £250,000[45].

- Roedd mwyafrif y sefydliadau a arolygwyd yn fach o ran nifer y cyflogeion yng Nghymru adeg gwneud cais am gyllid GwirVol. Nid oedd gan wyth (18%)

[44] Ni wyddai un o'r sefydliadau a arolygwyd pryd y cafodd ei sefydlu.
[45] Ni wyddai pedwar o'r sefydliadau a arolygwyd beth oedd eu trosiant.

unrhyw gyflogeion, roedd dros hanner (25 neu 56%) yn cyflogi rhwng un a deg, pedwar (9%) yn cyflogi rhwng 11 a 50 a'r saith arall (16%) yn cyflogi dros 60[46].

- Roedd nifer y gwirfoddolwyr yn ymwneud gyda'r sefydliadau a arolygwyd yn tueddu i fod yn eang - dim ond un sefydliad oedd heb unrhyw wirfoddolwyr yn cymryd rhan cyn cyrchu GwirVol, roedd gan saith (16%) hyd at ddeg gwirfoddolydd, 24 (53%) â rhwng 11 a 50 o wirfoddolwyr a 12 (27%) â mwy na 50 o wirfoddolwyr.

Roedd y sefydliadau a gyfwelwyd a dderbyniodd grant wedi derbyn y cronfeydd dilynol gan GwirVol, yn bennaf yn unol gyda'r gronfa ddata gyffredinol (er y cyfwelwyd nifer ychydig yn uwch o dderbynwyr grant Creu Cyfleoedd a nifer ychydig yn is o dderbynwyr grant Rhyngwladol)[47]:


- 32 (71%) wedi derbyn grant Creu Cyfleoedd;
- Wyth (18%) wedi derbyn grant Hyrwyddiadau;
- Tri (7%) wedi derbyn grant StreetGames;
- Dau (4%) wedi derbyn grant Rhyngwladol.

Mae Ffigur 4.1 yn cyflwyno cyfanswm gwerth grant(iau) GwirVol a ddyfarnwyd i'w sefydliad sy'n dangos fod ychydig dros hanner (26 sefydliad neu 58%) wedi derbyn rhwng £5,000 a £10,000. Dim ond nifer fach dderbyniodd dros £10,000 (pum sefydliad i gyd); er gan mai dim ond grantiau Rhyngwladol a all fod yn fwy na £10,000, mae hyn yn adlewyrchu effaith sefydliadau sydd â nifer o grantiau.

[46] Gofynnwyd i'r sefydliadau a arolygwyd am nifer eu staff cyfwerth â llawn-amser

[47] Er y byddai nifer fach iawn o'r sefydliadau hyn wedi derbyn mwy nag un grant, dywedwyd wrth ymchwilwyr i ofyn cwestiynau am un cynllun grant penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion golygai hyn y gofynnwyd yn benodol i sefydliadau a dderbyniodd dau grant yn olynol am y grant 2010/11 a dderbyniwyd.

*Ffigur 4.1: Cyfanswm gwerth grant(iau) GwirVol a ddyfarnwyd i sefydliadau*




Ffynhonnell: Arolwg ffôn o 45 sefydliad a dderbyniodd grant cenedlaethol GwirVol

Roedd dau-draean (30 sefydliad neu 67%) wedi hawlio holl grant cenedlaethol GwirVol a ddyfarnwyd i'w sefydliad tra bod traean (15 sefydliad neu 33%) heb wneud hynny. O'r 15 sefydliad hyn, roedd tri (20%) heb hawlio cyfran fach o'r grant (hyd at 20%) hyd yma, naw (60%) heb hawlio rhwng 21% a 50% hyd yma tra mai dim ond dau (13%) oedd heb hawlio rhwng 51% a 75% hyd yma [48]. Y prif reswm a roddwyd gan y sefydliadau a arolygwyd dros beidio hawlio'r holl grant a ddyfarnwyd oedd bod y prosiect yn dal i fynd rhagddo (nodwyd gan 14 o'r 15 sefydliad). Nododd tri sefydliad eu bod wedi wynebu materion cyflenwi - dywedodd un ohonynt yn benodol iddynt gael anawsterau'n cyflogi staff prosiect i weithio gyda phobl ifanc oherwydd gofynion megis gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

*4.1.2 Proffil buddiolwyr GwirVol a arolygwyd*

Datblygwyd holiadur byr ar y we a'i ddosbarthu drwy e-bost ar gais CGGC i'r sefydliadau a dderbyniodd grant. Derbyniwyd 25 ymateb gan wirfoddolwyr ifanc oedd wedi cymryd rhan mewn lleoliad a ariannwyd gan GwirVol. Mae angen gofal mawr wrth ddehongli canfyddiadau'r arolwg yma gan nad oedd gan yr ymchwilwyr unrhyw reolaeth dros ddosbarthiad yr arolwg ac nid yw'r sampl yn adlewyrchu'r holl wirfoddolwyr a gymerodd ran yn y cynllun. Yn hytrach mae'r data'n rhoi ciplun cyflym

[48] Ni allai un ymatebydd ateb y cwestiwn yma.

o brofiadau gwirfoddolwyr a  dylid ei ystyried mewn modd tebyg i'r data astudiaeth achos. Fodd bynnag, o ran nodweddion y rhai a ymatebodd:

- Roedd gwirfoddolwyr a ymatebodd yn gyffredinol wedi clywed am gynllun GwirVol drwy eu Cyngor Gwirfoddoli Sirol lleol neu sefydliad yr oeddent yn gwirfoddoli ynddo;
- Roedd cryn amrywiaeth yn nhermau swydd bresennol - gyda rhai o blith y sawl a arolygwyd yn yr ysgol, coleg/prifysgol, ar gynllun hyfforddiant llywodraeth, mewn gwaith neu'n edrych am waith;
- Dywedodd  yr holl ymatebwyr fod eu profiad o wirfoddoli drwy gynllun GwirVol un ai'n rhagorol neu'n dda;
- Awgrymodd ychydig dan hanner y gwirfoddolwyr ifanc a ymatebodd i'r arolwg fod angen gwella agweddau o gynllun GwirVol yn y dyfodol, sef:
    - Gallai gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli fod ar gael yn rhwyddach i bobl ifanc;
    - Medrid gwella'r gydnabyddiaeth a roddir i waith gwirfoddoli (e.e. digwyddiadau dathlu);
    - Medrid cynyddu nifer y cyfleoedd i wirfoddoli.

**4.2 Y rhesymeg ddechreuol a'r rhesymeg gyfredol dros GwirVol**

Yng nghyswllt canfyddiadau ein gwaith maes gyda rhanddeiliaid allweddol, sefydliadau a ariannir, CGI a phobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg ar y we, rydym yn gyntaf yn ystyried sylwadau am y rhesymeg am GwirVol ac am brosiectau unigol a ariennir ganddo, y 'ffit' rhwng GwirVol a pholisi ehangach a pherthnasedd parhaus GwirVol yng ngoleuni datblygiadau diweddar.

*4.2.1 Rhesymeg Ddechreuol*

Dywedodd y rhanddeiliaid allweddol a gyfwelwyd fod GwirVol wedi ei sefydlu o fewn cyd-destun polisi cefnogol iawn yng Nghymru. Cyn ei sefydlu, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud ei ymrwymiad yn glir i gefnogi cyfraniad y sector gwirfoddol yng Nghymru a gweithio gyda'r sector i gynyddu maint cyfraniad gwirfoddolwyr.

Yn wir dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd: 'roedd eisoes lawer yn mynd ymlaen yng Nghymru adeg argymhellion Russell.'

Gwyddai'r holl randdeiliaid allweddol am argymhellion Russell: er bod adborth gan y rhai a fedrodd roi sylwadau yn awgrymu nad oedd erioed deimlad y byddai GwirVol yn bodloni holl argymhellion Russell. Yr hyn oedd yn glir oedd bod newid sylfaenol mewn gwirfoddoli pobl ifanc, a ystyriai rhanddeiliaid allweddol ei fod yn brif amcan, er bod y rhan fwyaf yn credu nad oedd hyn yn ymwneud yn unig â nifer y gwirfoddolwyr newydd ond hefyd yn cynnwys newid agweddau pobl ifanc at wirfoddoli.

Ymhellach, roedd rhanddeiliaid yn glir gydag argymhellion Russell fel 'man cychwyn', y byddai unrhyw ymyriadau y bwriedid iddynt gefnogi gwirfoddoli yng Nghymru angen 'gogwydd' unigryw Gymreig.[49]

Ystyriwyd fod y penderfyniad i symud i raglen benodol ar gyfer gwirfoddoli pobl ifanc (GwirVol) yn cyd-fynd yn dda â natur neilltuedig Comisiwn Russell:

> ‘Nid oedd erioed yn fwriad i GwirVol 'bropio lan' cynlluniau presennol. Roedd yn ddull ar gyfer gweithredu argymhellion Comisiwn Russell, ond mewn cyd-destun Cymreig.'

Yn yr un modd, dywedodd pobl eraill a gyfwelwyd fod GwirVol yn ffordd o 'ddod ynghyd â gwirfoddoli ar gyfer rhai 16-25 oed i ffurfio 'canolbwynt' ac 'arweinyddiaeth'.

Soniodd rhanddeiliaid am y ffordd y gallai GwirVol - fel cynllun newydd - gynnig dull newydd i hyrwyddo gwirfoddoli ac yn neilltuol ehangu hyrwyddiad ac apêl gwirfoddoli:

---


[49] Nid yw hynny i ddweud fod y datblygiadau tuag at GwirVol yn hollol annibynnol o fewnbwn ehangach. Dylid cofio y darparwyd Comisiwn Russell gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'r gweinyddiaethau datganoledig. Nododd rhanddeiliaid allweddol bod bob amser gysylltiadau da yn y blynyddoedd cynnar drwy grŵp llywio canolog ar lefel y Deyrnas Unedig a ddaeth ynghyd â rhai yn Lloegr ac ar draws y gweinyddiaethau datganoledig oedd â'r dasg o hybu argymhellion Russell. Nododd rhanddeiliaid allweddol hefyd fod y cysylltiadau hyn wedi gostwng yn sylweddol mewn blynyddoedd diweddar, er nid gydag effaith amlwg neu hyd yn oed golli cyfle.

> ‘Roedd yn golygu newid agweddau at wirfoddoli. Roedd yn golygu ehangu'r sylfaen gwirfoddolwyr ifanc tu hwnt i'r hyn y medrid ei weld fel math o berson ifanc wedi'i ddiffinio'n bendant y byddech fel arfer yn ei ganfod yn gwirfoddoli.'

Consensws cyffredinol y CGI oedd bod GwirVol ynglŷn ag annog a chefnogi pobl ifanc i wirfoddoli. Ymhellach, roedd hyn yn galw am elfen o gefnogaeth ragweithiol (dynodi cyfleoedd gwirfoddoli) ac ymatebol (delio gydag ymholiadau ac atgyfeiriadau) ar y lefel leol. Yn gyffredinol, teimlai'r CGI fod nodau ac amcanion y CGI yn ategu nodau GwirVol.

Yn nhermau rhesymeg ar lefel prosiect, dengys yr arolwg o sefydliadau a dderbyniodd grant cenedlaethol GwirVol fod gan y prosiectau a ariannwyd ystod eang o amcanion, fel y dangosir yn Ffigur 4.2. Fodd bynnag, yr amcan pwysicaf (a nodwyd gan 39 sefydliad neu 87%) oedd recriwtio gwirfoddolwyr newydd, a dilynwyd hynny gan greu cyfleoedd gwirfoddoli newydd a hyfforddi a chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr ifanc (nodwyd pob un gan 36 sefydliad neu 80%). Fel y disgwylid o gofio mai dim ond dau sefydliad a dderbyniodd gyllid drwy'r grant gwirfoddoli Rhyngwladol, dywedodd nifer lai eu bod yn gobeithio datblygu cyfleoedd gwirfoddoli tramor.

*Ffigur 4.2: Amcanion prosiectau a ariannir gan GwirVol*




Ffynhonnell: Arolwg ffôn o 45 o sefydliadau a dderbyniodd grant cenedlaethol GwirVol

Pan ofynnwyd am nod penodol y prosiect a ariannwyd drwy GwirVol, cafwyd ystod o ymatebion, yn debyg iawn i'r amcanion a amlinellir uchod. Roedd rhai cyfleoedd gwirfoddoli diddorol wedi eu creu ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys:

- Cyfleoedd cysylltiedig â'r cyfryngau megis cynhyrchu ffilmiau byr a chylchgronau ieuenctid;
- Cyfleoedd seiliedig ar y celfyddydau - yn arbennig brosiectau celf gymunedol;
- Cyfleoedd seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth megis creu gwefan a chyfryngau cymdeithasol;
- Amgylcheddol, amaethyddol, ffensio a choedwigaeth;
- Cyfleoedd cysylltiedig â chwaraeon megis hyfforddiant ar gyfer gwaith giard bywyd;
- Gwirfoddoli dramor fel yng ngogledd India a Belarus.

*4.2.2 Ffit gyda chyd-destun ehangach polisi ac ymyriad*

Yn fwy cyffredinol, dynododd rhanddeiliaid allweddol bwysigrwydd GwirVol yn sicrhau ffit parhaus gyda'r cyd-destun polisi a chyfeiriad ehangach. Ni theimlai pawb a gyfwelwyd eu bod mewn lle da i roi sylwadau ar gyd-destun polisi a chysylltiadau. Teimlai'r rhai a wnâi hynny fod GwirVol ar hyn o bryd yn 'ffitio' yn dda gydag agendâu polisi Cymru (a'r Deyrnas Unedig) a bod GwirVol yn gweithredu mewn modd synergaidd wrth gefnogi'r trydydd sector a chyhoeddus yn ehangach ac (yn fwy anuniongyrchol) y sector preifat. Er enghraifft, soniodd un o'r rhai a gyfwelwyd y bu'r pwyslais ers adroddiad Beecham ar 'economi cymysg o ddarpariaeth' - nifer fawr o asiantaethau a darparwyr yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau. Ystyrid bod wirfoddoli yn elfen o'r 'cymysgedd' hwnnw.

Soniodd tri o'r rhai a gyfwelwyd fod GwirVol wedi helpu i symleiddio cymhlethdod y tirlun gwirfoddoli. Dywedodd un nad oedd 'llawer o gydlynu' ar gymorth gwirfoddoli ieuenctid cyn Ebrill 2009. Yn y cyswllt hwn, 'Mae GwirVol yn rhoi ffocws ar gyfer y gweithgaredd cefnogi yma.' Soniodd rhanddeiliaid allweddol arall am adroddiad diweddar ‘Os Rhowch Fe Gewch[50] fel enghraifft o sut mae rhaglen GwirVol yn

[50] GwirVol (2011) Os Rhowch Fe Gewch

cefnogi dealltwriaeth o gyfleoedd gwirfoddoli yn ehangach - ac yn yr achos hwn gyfleoedd achredu - ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

Dywedodd y CGI yn gyffredinol fod GwirVol yn ategu gweithgareddau Cynghorau Gwirfoddol Sirol, yn arbennig gan fod y rhan fwyaf o CGI yn cael eu cyflogi gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol ac mewn llawer o ardaloedd yn gwneud swyddi eraill yn y sefydliad oedd yn eu cyflogi hefyd.

Yn nhermau'r potensial ar gyfer dyblygu rhwng GwirVol ac ymyriadau eraill, er bod rhanddeiliaid allweddol yn gwybod y medrid defnyddio grantiau gan y Loteri Fawr, er enghraifft, i gefnogi gwirfoddoli pobl ifanc, fe wnaethant bwysleisio fod GwirVol yn wahanol gan ei fod yn gynllun amlagweddog:

> ‘Mae GwirVol ynglŷn â chefnogaeth gyffredinol ar gyfer gwirfoddoli ieuenctid. Yn draddodiadol byddai cefnogaeth ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc o fewn genre penodol fel gwirfoddoli cymorth cyntaf neu wirfoddoli chwaraeon. Ond mae GwirVol fel cynllun yn llawer ehangach.'

Ni ddywedodd dim o'r rhanddeiliaid allweddol fod dyblygu yn broblem:

> ‘Nid oedd erioed yn fygythiad i waith cefnogi presennol oherwydd y bwriedid iddo fod yn gynhwysol, drwy wneud grantiau ar gael, er enghraifft. Mewn gwirionedd mae sefydliadau'n defnyddio cyllid GwirVol fel arian cyfatebol.'

> ‘Yn sicr ni fu dyblygu yn broblem ers 2009 oherwydd ein bod wedi gweld cwtogi difrifol ar gyfleoedd cyllid grant ers hynny ac eto mae'r galw'n dal i fod am gefnogaeth.'

> ‘Mae gan CGI ran bwysig yn y cyswllt hwnnw; gallant ddynodi os oes dyblygu ar y lefel leol.'

> ‘CGGC yw'r corff gweinyddol ac mae ganddo drosolwg gwych o'r sector yng Nghymru. Fe ddywedwn i eu bod mewn sefyllfa dda i weld os oedd dyblygu.'

Fodd bynnag roedd cydnabyddiaeth glir, er bod GwirVol yn rhan o'r tirlun gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru, nad dyma'r tirlun cyfan: 'Byddai pethau fel Gwobr Dug Caeredin yn digwydd bob bynnag. Ond yr hyn mae GwirVol yn ei wneud yw arwain ar gyfer y sector. Drwy wneud hynny, fe fyddwn i'n dweud ei fod yn cefnogi'r cynlluniau eraill yma.'

Yn nhermau datblygiadau'r dyfodol, dywedodd dau ymatebydd y medrid rhoi mwy o ffocws i gefnogi blaenoriaethau polisi presennol fel yr agenda tlodi plant yng Nghymru ac yn neilltuol sut y gellid annog gwirfoddolwyr ifanc i wirfoddoli yn y maes yma'n fwy penodol.

Yn yr un modd, dywedodd tri ymatebydd y gallai Bagloriaeth Cymru - sydd ag elfen gwasanaeth cymunedol - hefyd gynnig cyfleoedd ar gyfer y dyfodol:

> ‘Mae'n rhywbeth y gallai GwirVol gysylltu ag ef, nid yn gymaint yn yr ystyr o sut mae GwirVol yn cefnogi Bac Cymru - oherwydd bod gwaith cymunedol yn orfodol ar gyfer Bac Cymru - ond p'un ai all GwirVol roi etifeddiaeth neu ddilyn ymlaen ar gyfer y rhai sy'n cwblhau Bac Cymru.'

Yn yr un ffordd nododd un ymatebydd hefyd y medrai agenda Gwasanaeth Cenedlaethol Dinasyddion yn deillio o lywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig hefyd gyflwyno cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Ar y llaw arall, dynododd y CGI fod bygythiad yn y dyfodol gan fod y Banc Ieuenctid ar lefel y Deyrnas Unedig wedi dod i ben: roedd hyn yn golygu'n neilltuol y daeth canfod arian cyfatebol ar gyfer y cynllun grant ieuenctid lleol yn gynyddol anodd. Fodd bynnag, medrid dilyn cyfleoedd eraill e.e. cyllid O2 Think Big.

Nododd dau randdeiliad allweddol, er datblygiadau diweddar (e.e. gwefan volunteeringopportunities.net), y gellid gwneud mwy i fapio cefnogaeth ar gyfer gwirfoddoli ieuenctid yn cynnwys cyfraniad cynlluniau gwirfoddoli generig i wirfoddoli ieuenctid. Byddai hyn yn helpu i sicrhau, ymysg pethau eraill, fod y potensial ar gyfer

dyblygu mewn gwasanaethau cefnogaeth ar gyfer gwirfoddoli ieuenctid yn cael ei ostwng i'r eithaf.

Credid bod yr heriau i 'ffit' parhaus yn cynnwys y cyd-destun economaidd ehangach ac yn benodol y toriadau presennol i gyllid o fewn y sector cyhoeddus, oedd yn golygu y medrai gwirfoddolwyr gael eu gweld fel dull yn lle talu i gyflogeion. Fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd:

> ‘Mae'r trydydd sector bob amser wedi cefnogi'r sector cyhoeddus ond yng nghyd-destun y wasgfa ar gyllid cyhoeddus a phobl yn poeni am eu swyddi, mae rhywfaint o densiwn yno nawr. Nid peth gwirfoddoli'n benodol ydyw ond mae ganddo oblygiadau.'

Yn y cyswllt hwn, credid bod 'diffiniad clir o rolau' yn hollbwysig wrth osgoi gorgyffwrdd a thensiynau posibl.

Nododd lleiafrif ymatebwyr fod cwmpas GwirVol yn cynnwys (yn bennaf) yr adrannau trydydd sector (Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol) a'r Gwasanaeth Ieuenctid (Addysg a Sgiliau) o fewn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel y dywedodd un ymatebydd, 'Nid yw'n ymddangos fod yr adrannau hyn bob amser yn siarad gyda'i gilydd'. Yn arbennig, credai ymatebwyr ei bod yn bwysig fod GwirVol yn rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau yn y strategaeth gwasanaeth iechyd, a lle'n bosibl yn cysylltu ei hunan gyda hwy. Dywedwyd y byddai'n 'gysur' gwybod bod gwaith ieuenctid 'addysg' a gwirfoddol ieuenctid 'trydydd sector' yn ymwybodol o gyfeiriad strategol ei gilydd a bod rhywbeth o 'groesffrwythloni' syniadau ac arferion da.

*4.2.3 Rhesymeg parhaus a ffit*

Yn olaf yng nghyswllt y rhesymeg barhaus a 'ffit' GwirVol gyda pholisi, dadleuodd rhanddeiliaid allweddol fod angen parhaus a 'galw cudd' am gefnogaeth gwirfoddoli ieuenctid y gallai (ac yn wir y dylai) GwirVol ei gyflawni.

Ymhellach, roedd consensws yn gyfffedinol er bod argymhellion Russell yn dal i fod yn berthnasol, fod y 'cyd-destun wedi symud ymlaen'. Yn neilltuol, mewn sefyllfa o

gynnydd mewn diweithdra ieuenctid ('Mae pobl ifanc yn gorfod cario pwysau llawer o'r problemau economaidd presennol') ac 'agenda ar gyfer dinasyddiaeth dda' (a ddangosir yn neilltuol gan y terfysgoedd diweddar yn Lloegr), roedd y rhanddeiliaid allweddol a'r CGI'n credu'n gryf iawn fod y rhesymeg am gael GwirVol yn parhau; yn wir, dadleuodd y rhan fwyaf fod y rhesymeg yn gryfach yn awr nag yn 2009.

### 4.3 Cyflenwi GwirVol

Yn yr adran hon ystyriwn wahanol agweddau cyflenwi GwirVol ac edrych ar ei effeitholrwydd yn cefnogi gwirfoddolwyr ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro yn bwrw goleuni ar y cwestiwn os yw'n cynrychioli'r dull mwyaf effeithiol o gefnogi gwirfoddoli ieuenctid. Yn ei dro, ystyriwn:

- Priodoldeb dyluniad GwirVol;
- Priodoldeb hyrwyddiad y cynllun;
- Effeithlonrwydd y rhaglenni grant cenedlaethol;
- Effeithlonrwydd y cynghorwyr gwirfoddol ieuenctid;
- Effeithlonrwydd y grantiau lleol dan arweiniad pobl ifanc;
- Effeithlonrwydd GwirForce;
- Effeithlonrwydd y trefniadau rheoli.

#### *4.3.1 Priodoldeb dyluniad GwirVoll*

Roedd yr holl ymatebwyr yn gadarnhaol am ddyluniad cynllun GwirVol. Ychydig o argymhellion a wnaed ar gyfer ei wella. Lle gwnaed awgrymiadau, roedd hynny ar gyfer datblygiadau esblygol yn hytrach na newidiadau strwythurol mawr.

Yn sylfaenol, cydnabu rhanddeiliaid allweddol y bu datblygu GwirVol yn broses gynhwysfawr: 'Edrychwyd yn eithaf trylwyr ar y modelau eraill o strwythur.'

Roedd hefyd yn glir fod y dyluniad wedi'i lunio'n helaeth gan y dymuniad i gynyddu effaith y cyllid oedd ar gael. Dywedodd rhanddeiliaid allweddol fod y rhai oedd â'r dasg o ddatblygu syniadau ar gyfer y cynllun (a alwyd wedyn yn GwirVol) yn ymwybodol iawn na fyddai £1 miliwn o gyllid wedi'i ledaenu ar draws 22 awdurdod

lleol 'yn mynd ymhell'. Awgrymodd hynny'r angen i dargedu'r cyllid yn effeithiol a hefyd ddefnyddio cyllid GwirVol i gynhyrchu neu dynnu cyllid arall i mewn.

Mae hefyd yn dangos yr angen i ddefnyddio'r seilwaith cefnogaeth gwirfoddolwyr presennol lle bynnag sy'n bosibl. Fel y dywedodd un ymatebydd:

> ‘Yn Lloegr roedden nhw'n medru fforddio sefydlu corff newydd o'r enw V. Ond fe wnaethon nhw elwa yno o lawer mwy o gyllid a medrent ddefnyddio arbedion maint.'

Ymhellach, dywedodd rhanddeiliaid allweddol fod llyw clir gan Lywodraeth Cymru ar y pryd y dylai cymaint o gyllid ag sy'n bosibl fod ar gael ar ffurf grantiau. Yn y pen draw dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhaid darparu isafswm o 50% drwy grantiau. Cadarnhaodd mwyafrif y rhanddeiliaid (wrth edrych yn ôl) fod y ffigur o 50% yn addas, er yr awgrymodd lleiafrif y dylid rhoi ystyriaeth yn y dyfodol i ailgydbwyso grantiau tuag at grantiau lleol, oherwydd yn bennaf, berfformiad cymharol cryf (o gymharu â thargedi) y dull grant lleol dan arweiniad pobl ifanc. Fodd bynnag, dywedodd rhai rhanddeiliaid allwedol y gallai ailgydbwyso cyllid yn y ffordd hon 'beryglu colli prosiectau da o'r rhaglen grantiau cenedlaethol'.

Yn nodedig hefyd oedd y cysondeb y nododd yr ymatebwyr y ffordd synergistaidd yr oedd gwahanol elfennau'n cefnogi ei gilydd. Er enghraifft, tanlinellodd pob ymatebydd bwysigrwydd mewnbwn pobl ifanc i GwirVol (drwy GwirForce, y wefan ac yn anuniongyrchol drwy'r CGI ac yn y blaen). Yn sylfaenol, 'bu hyn yn fwy na thic yn y blwch i Argymhellion Russell' ond yn hytrach, ystyriwyd fod ganddo rôl hollbwysig wrth lunio penderfyniadau Partneriaeth GwirVol a CGGC a sicrhau fod eu gwaith yn parhau'n berthnasol i anghenion a diddordebau'r grŵp targed. Fel y dywedodd un ymatebydd:

> ‘Mae cael y cysylltiad hwnnw'n hollol hanfodol i ni [bwrdd y bartneriaeth] ac nid gormodedd yw dweud iddo effeithio ar ein holl benderfyniadau.’

Dywedodd pedwar ymatebydd yn benodol fod GwirVol yn wahanol (i gynlluniau, rhaglenni a rhwydweithiau eraill) drwy fod yn cynnig sylfaen eang ar gyfer sefydliadau sy'n cymryd rhan:

> ‘Mae'n dod â sefydliadau ynghyd o bob un o'r tair sector, sy'n wahanol i ddechrau arni. Mae'n debyg ei bod yn mynd allan â ni o'n hardal gysur mewn ffordd. Ac oherwydd hynny, ac oherwydd eich bod yn dod â set amrywiol o sefydliadau at ei gilydd, rydych yn cael gwahanol safbwyntiau ar yr un broblem. Rydych hefyd yn cynhyrchu llawer o syniadau newydd.'

Ymhellach, ystyriwyd fod ariannu CGI ar draws 22 sir Cymru yn 'symudiad craff' oherwydd yn ogystal â sicrhau gorchudd Cymru-gyfan, roedd hefyd yn sicrhau cefnogaeth y gwahanol Gynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru.

Er i randdeiliaid allweddol bwysleisio y cynlluniwyd GwirVol fel cynllun cydlynol (e.e. gydag ymyriadau ar lefel genedlaethol a lefel leol), dywedodd llawer hefyd ei bod yn bwysig fod y cynllun yn esblygu i fanteisio ar gyfleoedd newydd:

> ‘Esblygu oedd yr allwedd bob amser; i ddysgu o'n profiadau. Mae'r wefan yn enghraifft. Fe wnaethom newid y wefan yn llwyr oherwydd y teimlem nad oedd yr un gyntaf yn gweithio. Nawr mae'n llawer gwell ac yn derbyn llawer mwy o drawiadau.'

Yn yr un modd:

> ‘Yr hyn fu'n hollbwysig yw'r profiad sy'n dod i'r amlwg. Bu GwirVol yn dda am hynny, am ddynodi cyfleoedd newydd. Mae rhaglen GM50 yn enghraifft dda.’

Roedd hefyd gytundeb cyffredinol ymysg rhanddeiliaid allweddol fod integreiddio Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn GwirVol yn symudiad cadarnhaol. Yn neilltuol, credid fod GwirVol yn hanfodol i sicrhau dyfodol tymor hirach Gwirfoddolwyr y Mileniwm ar ôl iddi golli ei gyllid, er bod Gwirfoddolwyr y Mileniwm wedi rhoi cwmpas ehangach i GwirVol, yn neilltuol, drwy gynnig rhaglen seiliedig ar wobrau. Tu hwnt i hynny,

dywedodd rhanddeiliaid allweddol y bu'r symudiad yn 'un da i'r sector statudol' a fedrai'n flaenorol gynnal Gwirfoddolwyr y Mileniwm ond na allai wneud cais am gyllid ond yn awr, oherwydd bod Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn GwirVol, yn medru gwneud cais am gyllid i agor prosiect gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc. Ymhellach, ystyriwyd fod Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn dal i fod yn rhaglen boblogaidd ('mae sefydliadau'n cysylltu â ni i gael cefnogaeth gyda Gwirfoddolwyr y Mileniwm hyd yn oed heb gyllid').

Yr un cafeat yma, fodd bynnag, oedd bod rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol iawn fod integreiddio Gwirfoddolwyr y Mileniwm o fewn GwirVol wedi rhoi pwysau ar yr adnoddau presennol - yn wir, arweiniodd yr integreiddio at golli rôl gweinyddydd rhan-amser Gwirfoddolwyr y Mileniwm - ac yn hollbwysig, nid oedd fawr neu ddim capasiti dros ben yng ngweithrediadau cyflenwi presennol GwirVol. O'r herwydd bu'n hanfodol yn ystod cyfnodau prysur fod tîm CGGC wedi medru sicrhau cefnogaeth arall (yn cynnwys swydd dros dro a ariannwyd drwy Gronfa Swyddi'r Dyfodol).

Roedd y CGI hefyd yn gadarnhaol am gynllun cyffredinol GwirVol. Yn neilltuol credent ei fod yn becyn cymorth gweddol gydlynol. Er enghraifft, cyfeirir ymholiadau am y grantiau cenedlaethol at CGGC er bod CGI yn ymwybodol o'r hyn a gynigient a medrent hysbysu sefydliadau fel oedd yn briodol. Mewn un achos nododd un CGI eu bod wedi helpu un sefydliad i gyflwyno eu cais am gyllid, wedi rhoi llythyr cefnogaeth i'r prosiect ac wedi cadw mewn cysylltiad yn ystod ei gam cyflenwi.


*4.3.2. Priodoldeb ac effeithiolrwydd hyrwyddiad y cynllun*

Mae adborth o'r sefydliadau a arolygwyd yn awgrymu fod hyrwyddiad presennol y cynllun yn gyffredinol effeithiol.

Roedd sefydliadau a arolygwyd wedi clywed am raglen grant cenedlaethol GwirVol mewn amrywiaeth o ffyrdd er bod dros chwarter y rhai a arolygwyd (13 sefydliad neu 29%) wedi ymwneud yn flaenorol â CGGC. Roedd yr un gyfran wedi canfod am GwirVol ar wefan CGGC/Llywodraeth Cymru a nifer ychydig yn llai (naw sefydliad

neu 20%) wedi clywed am GwirVol drwy eu cyngor gwirfoddol sirol neu CGI lleol.[51] Roedd dulliau eraill yn llai cyffredin, fel y dangosir yn Ffigur 4.3 islaw.

*Ffigur 4.3: Dulliau clywed am GwirVol*




Ffynhohnnell: Arolwg ffôn o 45 o sefydliadau a dderbyniodd grant cenedlaethol GwirVol

Credai'r holl sefydliadau a arolygwyd ei bod yn rhwydd cael gwybodaeth am GwirVol: credai 28 sefydliad neu 62% ei bod yn rhwydd iawn a chredai 15 sefydliad neu 33% ei fod yn weddol rwydd[52].

Dim ond tri o'r sefydliadau a arolygwyd a wnaeth rai awgrymiadau am sut y gallai gwybodaeth am gynllun GwirVol fod wedi bod ar gael yn rhwyddach, sydd ynddo'i hun yn awgrymu fod y dulliau a fabwysiedir ar hyn o bryd yn addas i raddau helaeth. Awgrymodd dau y dylai GwirVol gael ei hyrwyddo'n well drwy sefydliadau eraill megis 'grwpiau ieuenctid cymunedol' neu'r 'biwrô gwirfoddolwyr' (er y deallwn fod CGGC eisoes yn defnyddio'r dulliau hyn). Dywedodd un nad oedd yr wybodaeth oedd ar gael iddynt ar y dechrau yn ddigon manwl ac awgrymwyd y 'byddai wedi bod yn braf siarad gyda rhywun oedd yn gwybod mwy am y pwnc.'

51 Gallai'r ymatebwyr a arolygwyd ddewis mwy nag un ymateb.
52 Ni wnaeth dau sefydliad ymateb i'r cwestiwn yma.

Roedd y CGI hefyd yn gadarnhaol am lwyddiant GwirVol yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymysg grwpiau rhanddeiliaid. Dywedasant fod sefydliadau partner, sydd fel arfer yn cefnogi pobl ifanc i waith neu'n ôl i addysg, erbyn hyn yn ymwybodol iawn o GwirVol a dangoswyd hyn gan y nifer cynyddol o atgyfeiriadau i GwirVol).[53]

Cafodd y farn yma ei hail-gadarnhau gan gyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol a nododd 'gymysgedd dda o ddulliau gweithredu' yn cynnwys y wefan, cyfryngau cymdeithasol, hyrwyddiadau digwyddiad, deunyddiau hyrwyddo (er enghraifft beiros) ac argymhelliad personol.

Wrth gwrs, yn ogystal ag adeiladu 'ymwybyddiaeth enw' o'r cynllun, roedd hyrwyddo gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru yn gyffredinol yn rôl ganolog ar gyfer GwirVol. Yn wir, gyda GwirVol yn anelu i gymryd lle canolog mewn arweinyddiaeth ar gyfer gwirfoddoli gan bobl ifanc yng Nghymru, ystyriai rhanddeiliaid fod y cysyniad allweddol yr un mater i raddau helaeth.

Roedd cytundeb cyffredinol y gwnaed llawer i godi ymwybyddiaeth o wirfoddoli ieuenctid a GwirVol ymysg grwpiau rhanddeiliaid yng Nghymru. Yn neilltuol, ystyriwyd bod ddefnyddio dull gweithredu Partneriaeth, safle CGGC yng Nghymru (e.e. yn ganolbwynt y rhwydwaith Cynghorau Gwirfoddoli Sirol) a bod â rhaglen benodol hyrwyddo grant yn ffactorau galluogi allweddol. Dywedodd tri o'r rhai a gyfwelwyd y bu GwirVol yn bwysig wrth gysylltu'r sector cyhoeddus mewn gwirfoddoli pobl ifanc ac roedd cefnogaeth unfrydol hefyd i'r ymgyrch Os Rhowch Fe Gewch a gyhoeddwyd yn ddiweddar oedd, yn ogystal â bod yn rhoi gwybodaeth, hefyd yn ddefnyddiol wrth godi ymwybyddiaeth o GwirVol a gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru yn gyffredinol.

Dywedodd rhanddeiliaid allweddol hefyd fod tîm gweinyddol CGGC wedi 'taro'n uwch na'i bwysau' yng nghyswllt gwaith hyrwyddo. Fodd bynnag, roedd

[53] Fel mater cysylltiedig yma, mae'r ffaith fod asiantaethau partner yn cysylltu ac yn atgyfeirio 'gwirfoddolwyr GwirVol' wrth gwrs yn cadarnhau bod y bobl ifanc yma'n derbyn cefnogaeth tu hwnt i gynllun GwirVol ac o'r herwydd byddai unrhyw ddadansoddiad manwl o effaith yn cael ei gymhlethu gan fater priodoliad h.y. i ba raddau y cafodd mewnbwn tu allan i GwirVol effaith ar benderfyniad person ifanc i wirfoddoli a buddion (neu gostau) dilynol y profiad gwirfoddoli hwnnw.

cydnabyddiaeth eang fod maint y tîm a'r galw ar eu hamser' o elfennau eraill y cynllun yn golygu y byddai bob amser yn anodd dod o hyd i amser i wneud gwaith hyrwyddo.

Ar nodyn mwy negyddol, dadleuodd lleiafrif y rhanddeiliaid allweddol nad oedd yn hawdd i bobl ifanc a siaradai Saesneg yn unig i ddeall (na chofio) enw'r cynllun, er y dywedodd pob un na fyddent yn argymell newid yr enw.

Ar ôl dweud hynny, teimlai'r rhan fwyaf o randdeiliaid allweddol fod hyrwyddo'n parhau'n ffocws allweddol i GwirVol wrth symud ymlaen. Er bod derbyniad cyffredinol fod 'amser' yn anochel yn ffactor (e.e. 'mwy o bobl yn gwybod am Gwirfoddolwyr y Mileniwm oherwydd iddo fod o amgylch am lawer hirach') credai rhanddeiliaid allweddol fod mwy o hyrwyddo ar effeithiau gwirfoddoli yn un opsiwn effeithiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth. Credid mai opsiwn arall oedd i GwirForce arwain wrth hyrwyddo GwirVol a hefyd wirfoddoli ieuenctid.

*4.3.3 Effeithlonrwydd y rhaglenni grant cenedlaethol*

<u>Cwmpas a ffit y rhaglen</u>

Credai rhanddeiliaid allweddol fod y cymysgedd o raglenni grant cenedlaethol yn addas, gyda phob rhaglen yn amlwg wahanol. Fe wnaethant hefyd ddweud fod y 'ffit rhwng y rhaglenni'n dda gyda'r pum cynllun rhyngddynt yn cynnwys pecyn 'cynhwysol'. Yn bwysig, credai ymatebwyr hefyd nad oedd unrhyw fylchau amlwg mewn darpariaeth/gorchudd grantiau presennol.

Dywedodd lleiafrif yr ymatebwyr i brosiectau rhyngwladol dderbyn yn sylweddol fwy fesul dyfarniad na phrosiectau mewn rhaglenni cenedlaethol eraill.[54] Fodd bynnag, cydnabuwyd bod hyn yn adlewyrchu natur prosiectau rhyngwladol a'r farn gyffredinol oedd y dylai'r rhaglen grant yma barhau oherwydd yn gyntaf, bod yr adborth - yn arbennig o astudiaethau achos - yn gadarnhaol tu hwnt, yn ail, oherwydd (fel y

[54] Nodwyd fod y rhaglenni Rhyngwladol yn derbyn llai o geisiadau na Hyrwyddiadau er eu bod yn dyfarnu bron ddwywaith gymaint o gyllid. Hefyd roedd y cymunedau oedd yn elw o amser y gwirfoddolwyr y tu allan i Gymru.

nodwyd gan leiafrif o ymatebwyr) bod y rhaglen grant Rhyngwladol yn unigryw yn y Deyrnas Unedig ac yn drydydd, oherwydd bod gwirfoddoli rhyngwladol yn ffurfio un o argymhellion Russell. Ar ôl dweud hynny, dywedodd lleiafrif o randdeiliaid allweddol y gallai opsiynau'r dyfodol gynnwys, lle'n bosibl, elfen o godi arian 'personol' i gefnogi cyllid GwirVol ar gyfer cyfleoedd rhyngwladol.

Ystyriwyd hefyd bod y rhaglenni grant cenedlaethol yn ymatebol ac yn gallu addasu i'r cyd-destun sy'n datblygu. O fewn Gwirfoddolwyr y Mileniwm, datblygwyd rhaglen GM50 er enghraifft i ddal 'yr hyn mae pobl yn ei wneud beth bynnag' mewn gwirfoddoli yn eu hamser hamdden, gan felly godi ymwybyddiaeth a phroffil gwirfoddoli.

> ‘Mae'n rhwydd i bobl beidio cydnabod eu bod mewn gwirionedd yn gwirfoddoli. Mae Chwaraeon GM50 yn ffordd o wneud hyn. Drwy gydnabod a gwobrwyo gwirfoddoli presennol, caiff pobl ifanc ar y rhaglenni GM50 eu hannog i barhau i wirfoddoli ar gyfer gwobrau 100awr a 200awr (a thu hwnt) Gwirfoddolwyr y Mileniwm'.

Dangosodd ein harolwg o sefydliadau a dderbyniodd grantiau cenedlaethol orchudd daearyddol da y prosiectau. Roedd gan 20% (naw) o'r prosiectau a ariannwyd drwy GwirVol gylch gorchwyl Cymru gyfan tra dangosodd y prosiectau eraill wasgariad daearyddol da - er enghraifft roedd deuddeg prosiect (27%) yn seiliedig yn un o'r chwe sir yng ngogledd Cymru[55]. Dywedodd un ymatebydd fod pob un o siroedd Cymru wedi derbyn o leiaf un grant (heblaw am Gastell-nedd Port Talbot) er bod rhai (yn arbennig Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe) wedi derbyn nifer fwy o grantiau GwirVol. Roedd y nifer isel o sefydliadau derbyn grant yn dod o Gaerdydd (dau) a Casnewydd (un) efallai'n syndod.

Awgrymodd ymatebwyr yr arolwg hefyd fod prosiectau'n targedu amrywiaeth o grwpiau penodol o ddarpar wirfoddolwyr ifanc, yn cynnwys:

- Aelodau a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog nad oedd mewn cyflogaeth/addysg ac yn ei chael yn anodd ffitio mewn i'r gymuned;
- Pobl ifanc nad oedd yn gwneud dim yn y gymdeithas;

[55] Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam neu Sir y Fflint

- Cadetiaid gwirfoddol ifanc 16-18 oed.

Cynhyrchwyd peth deunydd hyrwyddo penodol fel canlyniad i rai prosiectau (yn bennaf dan y grant Hyrwyddiadau) ac roedd y rhain wedi arwain at gynhyrchu a dosbarthu fideo/DVD ieuenctid i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ieuenctid.

<u>Y broses gais</u>

Credai mwyafrif helaeth y sefydliadau a arolygwyd y bu proses cais am grant GwirVol yn dderbyniol. Er enghraifft:

- Credai 39 o ymatebwyr (87%) fod CGGC wedi delio gyda'u hymholiadau un ai'n dda neu'n dda iawn;
- Credai 39 ymatebydd (87%) fod pa mor gyflym y cafodd y cais ei gymeradwyo un ai'n dda neu'n dda iawn;
- Credai 37 ymatebydd (82%) fod y broses o hysbysu canlyniad y cais am grant un ai wedi bod yn dda neu'n dda iawn - fodd bynnag credai nifer fach o ymatebwyr (6 neu 13%) y bu'r broses hysbysu'n wael neu'n wael iawn[56].

Ymhellach roedd ychydig dros ddau draean y sefydliadau a arolygwyd (31 sefydliad neu 69%) wedi cael y ffurflenni cais am grant un ai'n rhwydd iawn neu'n weddol rwydd eu llenwi. Fodd bynnag roedd bron un mewn tri wedi cael anawsterau - dywedodd naw sefydliad neu 20% fod y ffurflen gais yn weddol anodd ac roedd pedwar arall (98%) wedi'i chael yn anodd iawn[57]. Roedd pobl o sefydliadau llai yn fwy tebygol o ddweud iddynt gael y ffurflen gais yn anodd ei llenwi - gyda 12 o'r 13 a gredai fod y ffurflen yn anodd yn dod o sefydliadau'n cyflogi deg neu lai o staff. Roedd y rhesymau a roddwyd am yr anawsterau hyn yn cynnwys y dilynol - nodwyd y tri cyntaf gan y rhan fwyaf o'r rhai a wynebodd anawsterau:

- Roedd y ffurflenni cais yn tueddu i ofyn am ormod o fanylion;
- Roedd y ffurflen gais a'r canllawiau yn rhy gymhleth: 'dim yn syml' a 'cwestiynau ddim yn glir;

[56] Ni wnaeth dau ymatebydd ymateb i'r cwestiwn gan nad oeddent wedi cymryd rhan yn y broses gais.
[57] Ni wnaeth un ymatebydd ymateb i'r cwestiwn yma gan nad oeddent wedi bod ynglŷn â'r broses gais.

- Tueddai'r ffurflen gais i fod yn ailadroddus, 'rydych yn dweud yr un peth lawer o weithiau' ac yn 'hirwyntog iawn'. Dywedodd un ei fod yn 'llawer o waith am £2,000';
- Roedd y ffurflen gais yn anodd ei llenwi'n ymarferol a bu'n 'anodd iawn' i un sefydliad gael y gwahanol lofnodion oedd eu hangen;
- Anawsterau wrth gadw at derfyn nifer y geiriau (nodwyd gan un sefydliad);
- Anawsterau wrth ragweld costau - a'r diffyg hyblygrwydd yn dilyn i drosglwyddo cyllidebau pan na aeth pethau yn ôl y cynllun.

Roedd yn dilyn fod y rhan fwyaf o'r awgrymiadau a wnaed i wella'r ffurflen gais am grant yn troi o amgylch yr angen i drin lefel y manylion, cymhlethdod a natur ailadroddus y ffurflen bresennol. Ymysg y gwelliannau a nodwyd amlaf oedd:

- Gostwng natur ailadroddus y ffurflen gais - ei gwneud yn fyrrach, llai manwl a chymryd llai o amser i'w llenwi;
- Symleiddio'r ffurflen e.e. symleiddio'r iaith a chyfeirio agweddau penodol megis cyfrif nifer oriau gwirfoddolwyr a nifer oriau o fudd;
- Sicrhau fod y manylion a faint o wybodaeth y gofynnid amdani yn adlewyrchu'r swm cyllid y gwnaed cais amdano;
- Patrwm o ffurflen gais wedi'i llenwi ar gael i ddarpar ymgeiswyr;
- Gwasanaeth darllen proflen ar gael cyn cyflwyno cais;
- Cyflwyno holiadur cyn-cymhwyso, gan felly ostwng faint o wybodaeth a ailgyflwynid yn flynyddol;
- Darparu atodiad o dermau a ddefnyddir mewn ffurflenni cais a chanllawiau.

Yn ogystal â'r awgrymiadau a wnaed ar wella'r ffurflen gais ei hunan, awgrymodd tua 15 o ymatebwyr hefyd ffyrdd o wella'r broses gais a chymeradwyo. Y gwelliannau a nodwyd amlaf oedd:

- Trin camgymeriadau a gwallau o fewn ffurflenni cais yn fwy cyflym ac yn fwy effeithiol; yn achos un sefydliad, 'mae llenwi'r ffurflenni hyn yn anghywir yn golygu eich bod yn gwastraffu amser, mae'n gohirio'r broses - fe gymerodd dri chynnig iddo gael ei gymeradwyo';

- Cyflymu'r broses gymeradwyo a chadw at yr amserlen a osodwyd ar gyfer gwneud penderfyniadau a hysbysu sefydliadau. Yn y cyswllt hwn awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid defnyddio cyfathrebu e-bost a ffôn yn hytrach na chyfathrebu drwy'r post: 'dylid cadw at yr amserlen a byddai'n well i ganfod dros y ffôn os buom yn llwyddiannus gan fod y post yn cymryd llawer mwy o amser';
- Gwella cyfathrebu i sefydliadau llwyddiannus ar agweddau ariannu (e.e. 'fe ddylen nhw fod wedi anfon e-bost aton ni i gadarnhau fod arian wedi'i drosglwyddo i'n cyfrif') ac ar ofynion arian cyfatebol - 'doedden ni ddim wedi derbyn yr arian am nad oedden ni wedi dweud wrthyn nhw am yr arian cyfatebol - doedden ni ddim wedi sylweddoli fod angen i ni ddweud wrthyn nhw.'

Er ei bod yn amlwg y credai lleiafrif y rhai a dderbyniodd grantiau y gellid gwella'r broses gais ac asesu, dywedodd rhanddeiliaid allweddol fod y broses gais ar gyfer y rhaglenni grant cenedlaethol yn gweithio’n dda yn gyffredinol. Disgrifiodd rhanddeiliaid allweddol y broses fel 'trwyadl' a bod hyn yn rhoi 'integriti' i'r rhaglenni.

Yn neilltuol, dywedodd rhanddeiliaid allweddol fod yr hyfforddiant asesu ar gyfer tîm CGGC a'r ffordd y cefnogodd tîm CGGC ymgeiswyr am grant yn ddwy elfen bwysig. Er ei fod yn cymryd llawer o amser i'w weinyddu, dywedodd rhanddeiliaid allweddol fod y buddsoddiad mewn cefnogi sefydliadau i gyflwyno ceisiadau ansawdd uchel yn werth chweil o ran bod angen llai o amser ar y cam asesu ac yn y pen draw fod prosiectau gwell yn cael eu cyflenwi wedyn. Nodwyd hefyd fod ansawdd y ceisiadau wedi gwella dros gyfnod.

Tanlinellodd rhanddeiliaid allweddol y gwnaed ymdrechion i sicrhau fod y broses gais yn gynhwysol, yn arbennig ar gyfer y sefydliadau hynny heb fawr ddim profiad (na sgil) mewn ysgrifennu cynigion:

> ‘Mae sefydliadau sydd â syniadau da am brosiectau ond nad ydynt yn arbennig o dda am ysgrifennu cynigion. Nawr, allwn ni ddim ysgrifennu'r cynigion drostyn nhw ond rydych chi eisiau gadael i'r panel asesu fedru

> gwerthuso pa mor dda yw'r syniad am brosiect, ac nid pa mor dda ydyn nhw am ysgrifennu cais.'

Fel y dywedodd un arall: 'mae ynglŷn â mynd i wraidd y syniad sy'n cael ei gyflwyno'. Rhoddodd y panel asesu grantiau cenedlaethol hefyd adborth i'r CGGC ar berfformiad y prosiectau y gwnaethant ddyfarnu cyllid iddynt. Credai rhanddeiliaid allweddol fod hyn yn enghraifft o arfer da: 'Mae gwybod sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio - p'un ai ydyn nhw wedi gwneud yr hyn y bydden nhw'n ei wneud, wedi targedu'r rhai y gwnaethon nhw ddweud y bydden nhw'n eu targedu - yn ein helpu yn asesiadau'r dyfodol.'

Yn nhermau gwelliannau posibl, dywedodd dau randdeiliad allweddol bod y ffurflenni gais fod yn 'amleiriog mewn rhannau'. Mae'n werth nodi y credai dau CGI hefyd fod y ffurflenni cais am grant cenedlaethol yn gymhleth iawn ac efallai yn anghymesur. Fodd bynnag, eu dadl oedd bod hyn yn ffafrio'r sefydliadau hynny oedd â'r capasiti (ac yn arbennig gapasiti cyflogedig) i roi'r amser oedd eu hangen i'w llenwi. Estyniad o'r syniad hwn oedd bod sefydliadau llai nad oedd yn cyflogi neb yn 'syrthio' rhwng y rhaglenni grant cenedlaethol a'r rhaglenni grant lleol.

Roedd lleiafrif o randdeiliaid allweddol hefyd yn anesmwyth am dderbyn ceisiadau mynych. Dywedwyd na ddylai sefydliadau ddod yn ddibynnol ar GwirVol. Yn hytrach, dylai GwirVol danlinellu ei gefnogaeth ar gyfer syniadau am brosiectau newydd.

Ychydig o welliannau posibl a ddynodwyd mewn mannau eraill. Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd yr hoffai weld mwy o sylw'n cael ei roi i geisiadau oedd 'wedi eu costio'n dda': 'Rwyf bob amser braidd yn amheus pan mae ceisiadau'n dod mewn symiau crwn, yn arbennig pan maent ar yr uchafswm'. Tybiai rhanddeiliaid allweddol arall os medrid ystyried amserlen dreigl fel ffordd o annog mwy o gynigion - er gan gydnabod baich ychwanegol hyn ar dîm rheoli CGGC ac aelodau'r panel asesu.

Mathau o bobl ifanc yn gwirfoddoli drwy gefnogaeth rhaglen grant cenedlaethol

O ran y mathau o bobl ifanc sy’n gwirfoddoli, credai rhanddeiliaid allweddol ei bod yn nerth yn rhaglenni grantiau cenedlaethol GwirVol eu bod yn cefnogi ystod eang o

bobl ifanc o bob grŵp economaidd-gymdeithasol. Roedd cydnabyddiaeth glir fod GwirVol yn arwain mewn llawer o ffyrdd wrth gysylltu â'r rhai o gymunedau mwyaf amddifadus a cefndiroedd difreintiedig (a dieithredig) e.e. wrth ddyfarnu pwyntiau wrth sgorio ceisiadau ar gyfer gwaith arfaethedig mewn cysylltu â grwpiau gyda chynrychiolaeth isel yn draddodiadol mewn gwirfoddoli (e.e. grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau anabl).

Ar ôl dweud hynny roedd rhanddeiliaid allweddol yn credu'n gryf y dylai GwirVol fod yn gynhwysol i bob grŵp.

> ‘Ni ddylai GwirVol eithrio unrhyw un sydd â diddordeb neu a allai fod â diddordeb mewn gwirfoddoli.'
>
> 'Dwi ddim yn siŵr os dylai fyth fod yn darged [h.y. niferoedd o grwpiau heb fod yn draddodiadol], ond mae hynny'n rhywbeth ddylai barhau i gael ei fonitro.

*4.3.4 Effeithiolrwydd Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid*

Roedd adborth gan y CGI eu hunain yn awgrymu lefelau da o brofiad mewn cefnogaeth gwirfoddoli - roedd y rhan fwyaf wedi bod yn ymwneud â darpariaeth cymorth gwirfoddoli am nifer o flynyddoedd. Ystyrid hefyd bod cyfathrebu rhwng cynghorwyr yn dda.

Dangosodd adborth hefyd er bod GwirVol yn ariannu swyddi rhan-amser, mewn gwirionedd bod swyddi CGI yn gyffredinol yn rhai llawn-amser[58] gyda'r cyllid ychwanegol yn cael ei sicrhau ar y lefel leol (e.e. o'r Cyngor Gwirfoddoli Sirol perthnasol, cyllid 14-19 a gwasanaeth ieuenctid).

Roedd yn gyffredinol yn well gan CGI gael rôl 'dwylo ymlaen'; mewn un achos roedd gweinyddu Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc yn cael ei wneud ar wahân gan Weinyddydd Grantiau - ond er bod hyn yn llacio'r baich ar y CGI, nid dyma o reidrwydd y model mwyaf effeithiol o gyflenwi, gan ei fod yn gostwng yr ymwybyddiaeth o'r hyn y dymunai grwpiau unigol ei wneud.

[58] Roedd un o'r saith ymatebydd yn gweithio'n rhan-amser

Credid fod rôl y CGI yn hollbwysig, hyd yn oed yn absenoldeb unrhyw gynllun grant lleol; fe wnaethant bwysleisio nad oedd eu gwaith ar y paneli ifanc ond yn rhan o'u cylch gorchwyl oedd hefyd yn cynnwys ymdrechion i godi ymwybyddiaeth, dynodi cyfleoedd, cefnogi pobl ifanc i wirfoddoli ac ati.

Yn ddealladwy, efallai, dadleuodd CGI y buont yn effeithiol iawn wrth annog pobl ifanc i gymryd cyfleoedd gwirfoddoli ac y gwnaed hyn i raddau helaeth drwy hyrwyddo gwirfoddoli mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yn ogystal â darparu sesiynau galw heibio mewn gwahanol leoliadau ar draws eu hawdurdod. Yn yr un modd bu'r gwaith yn dynodi sefydliadau a allai o bosibl ddarparu gwaith gwirfoddol yr un mor effeithiol, er y cydnabuwyd fod y gwaith hwn hefyd yn cael ei wneud gan gydweithwyr eraill o fewn y Cynghorau Gwirfoddoli Sirol.

Dywedodd CGI y bu’n gymharol rwydd ymgysylltu gwirfoddolwyr ifanc - bu'r galw gan ddarpar wirfoddolwyr ifanc yn dda a gwelodd y Cynghorwyr gynnydd mewn atgyfeiriadau gan sefydliadau partner. Bu cynnydd mewn gwirfoddoli ieuenctid oherwydd gofynion 'gwirfoddoli gorfodol' Bagloriaeth Cymru, ond hyd yn oed pan anwybyddid hynny, roedd y CGI yn cytuno na fu ysgogi diddordeb yn broblem. Soniodd nifer am ffactorau allanol megis diweithdra uchel ymhlith pobl ifanc a diffyg cyfleoedd cyflogaeth fel ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd hwn ond nododd rhai hefyd fod llawer mwy o wybodaeth yn awr ar gael ar wirfoddoli (yn arbennig drwy GwirVol) sydd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o hynny.

Bu canfod lleoedd gwirfoddoli addas i bobl ifanc yn fwy o her i'r CGI fodd bynnag, nid yn lleiaf oherwydd y pwysau ar eu hamser i'w neilltuol i natur ragweithiol y gwaith hwn (h.y. canfod sefydliadau a chyfleoedd newydd). Ar ôl dweud hynny, serch hynny, pwysleisiodd rhai CGI fod gan eu Cyngor Gwirfoddoli Sirol eisoes gronfa ddata dda iawn o gyfleoedd gwirfoddoli - a'u bod fel arfer yn gallu dod o hyd i rywbeth ar gyfer y person ifanc dan sylw - ac os na fedrent, roedd hynny yn arwain at ystyriaeth p'un a fedrai grant ieuenctid lleol greu cyfleoedd gwirfoddoli addas.

O ran yr hyn oedd yn fwy anodd o fewn eu rôl, barn unfrydol y CGI mai 'diffyg amser' oedd hyn. Ystyriwyd bod gweithio ar sail ran-amser ar gynllun GwirVol yn rhwystredig iawn o gofio am y potensial i sicrhau hyd yn oed fwy o allbynnau - dywedodd un: 'Fe fyddwn i'n hoffi gwneud y swydd yn llawn-amser'. Roedd y galw am gyfleoedd gwirfoddoli ymysg pobl ifanc wedi cynyddu'n sylweddol iawn fel canlyniad i'r dirywiad economaidd a'r cynnydd mewn diweithdra ieuenctid.

Dywedwyd fod peth o'r ddadl am gynyddu eu horiau gwaith oherwydd y ffaith fod rôl CGI wedi ehangu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn neilltuol, roedd CGI wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan sefydliadau partner - yn aml fel canlyniad i ddiffyg cyfleoedd swyddi ar gael ar gyfer rhai allan o waith.

Ymhellach dywedwyd bod ysgolion a cholegau yn cysylltu'n uniongyrchol â hwy i siarad am wirfoddoli fel canlyniad i gyflwyno cwricwlwm gwirfoddoli Bagloriaeth Cymru. Cafwyd trafodaeth lle cydnabu'r CGI nad oedd y gwaith gydag ysgolion a cholegau (oedd yn canolbwyntio ar Fagloriaeth Cymru) yn help uniongyrchol iddynt gyflawni eu targedau (ni roddir adroddiad ar hyn i CGGC fel rhan o'u contract) ond fe'i gwelid fel bod yn adeiladu perthynas gadarnhaol gydag ysgolion a cholegau a hefyd i gefnogi'r amcan ehangach o annog mwy o bobl ifanc i wirfoddoli. Nododd un fod ysgolion wedi dechrau cysylltu â hi'n ddiweddar i ofyn os medrai roi cyflwyniad i ddisgyblion Blwyddyn 9: er na fyddai'r disgyblion hyn yn ffitio i gategori oedran GwirVol, teimlai y byddai gwneud hynny er budd y prosiect a gwirfoddoli'n gyffredinol. Mae'n amlwg fod tensiwn yma rhwng canolbwyntio ar amcanion GwirVol a darparu gwasanaeth estynedig i sefydliadau partner.

Nododd y CGI eu bod yn aml yn cael eu 'llusgo i faterion eraill' gan eu Cyngor Gwirfoddoli Sirol e.e. mynychu digwyddiadau a dargedwyd at y cyhoedd yn gyffredinol, nid dim ond pobl ifanc, canlyniad yn rhannol i'r ffaith bod y Cynghorau Gwirfoddoli Sirol yn aml yn rhoi rhan o'u cyllid ar gyfer swyddi CGI unigol.

Credai'r CGI mai'r brif ffactor a'u helpodd i gyflawni eu nod oedd y cynnydd yn yr atgyfeiriadau gan sefydliadau partner - mewn ffordd yn gynnydd yn y galw am wirfoddoli fel llwybr ar gyfer cleientiaid i symud ymlaen - yn cynnwys Canolfan Byd

Gwaith, Gyrfa Cymru, prosiectau a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac ati oedd yn gynyddol yn gweld GwirVol fel prif ffynhonnell cyngor a chefnogaeth ar wirfoddoli ieuenctid. Ymhellach ystyrid bod y cynnydd mewn atgyfeiriadau a welwyd mewn cyfnodau diweddar yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y sefydliadau partner sy'n gweithio gyda chleientiaid di-waith/anweithgar e.e. prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Fodd bynnag, mae cydweithrediad sydd hefyd yn awgrymu cydnabyddiaeth fod GwirVol yn ychwanegu at yr isadeiledd cefnogaeth bresennol neu isadeiledd arall. Fel yr awgrymodd un CGI, daeth y sefydliadau eraill hyn i sylweddoli nad oedd ganddynt arbenigedd mewn cyngor ac arweiniad gwirfoddoli.

Dywedodd CGI y câi ymholiadau eu trin drwy sesiynau galw heibio (e.e. unwaith yr wythnos) neu drwy system apwyntiadau.

Pan ofynnwyd iddynt am brofi gwirfoddolwyr, dywedodd CGI y byddai gwirfoddolwyr ifanc ar y dechrau wedi bod yn fyfyrwyr nodweddiadol Lefel A ond eu bod mewn blynyddoedd diweddar wedi gweld ystod ehangach o unigolion yn cael eu cefnogi e.e. roedd sefydliadau partner yn awr yn cyfeirio mwy o bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a rhai o ardaloedd difreintiedig.

Roedd rhanddeiliaid allweddol yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am waith y CGI. Yn neilltuol, ystyriwyd fod eu rôl yn cryfhau cyflenwi lleol ac yn cyd-fynd yn dda ag agenda 'arweiniad pobl ifanc' GwirVol.

Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn adleisio pryderon y CGI eu hunain am p'un ai oedd ganddynt adnoddau addas:

> ‘Mae eu rôl yn hollbwysig ond rwy'n teimlo mai dim ond mwy neu lai ymdopi â'r gwaith sy'n dod i mewn drwy'r drws y maen nhw. Mae hyn yn golygu nad ydyn nhw'n treulio cymaint o'u hamser ag yr hoffem yn ceisio gwirfoddolwyr datblygu'r sylfaen rhanddeiliaid gwirfoddoli yn ehangach ... cysylltu â'r sector preifat neu'r sector iechyd ar y lefel leol.'

Yn y cyswllt hwn, cydnabu rhanddeiliaid allweddol y manteision lle gall CGI weithio'n llawn-amser drwy arian cyfatebol a gafwyd ar y lefel leol. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r risg o greu ymyriad dwy-haen lle'r oedd rhai ardaloedd yn derbyn mewnbwn rhan-amser gan CGI tra bod ardaloedd eraill yn mwynhau mewnbwn llawn-amser.

*4.3.5 Effeithlonrwydd Grantiau Lleol dan Arweiniad Ieuenctid*

Yn ogystal â darparu cefnogaeth a chyngor yn unongyrchol i bobl leol ac i sefydliadau'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, roedd CGI hefyd yn ymwneud â rheoli’r Paneli Ieuenctid Lleol a rheoli (neu ran-reoli) Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc.

Fel y nodwyd eisoes, mae GwirVol yn darparu £5,000 i bob Panel ar sail flynyddol. Sicrhawyd arian cyfatebol mewn rhai ardaloedd drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid, Banc Ieuenctid ac ati'n codi'r arian cyfatebol sydd ar gael yn sylweddol mewn rhai ardaloedd (e.e. Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot).

Dywedodd y CGI a gyfwelwyd y bu mwy o alw nag o arian ar gael yn y Rhaglen Grant Ieuenctid Lleol yn eu holl ardaloedd ac y penderfynwyd gostwng lefel uchaf y dyfarniadau grant i sicrhau fod pob cais da/haeddiannol yn derbyn o leiaf beth arian.

Cadarnhaodd y CGI i CGGC yn y flwyddyn ariannol flaenorol ddarparu peth cyllid ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Grant Lleol Pobl Ifanc, oherwydd peth tanwariant yn y prosiect.

Mae Panel Ieuenctid yn byw ym mhob ardal, er bod y brandio'n amrywio: mewn rhai ardaloedd mae'r Paneli wedi llunio eu henwau eu hunain (e.e. Dish Out Dosh yn y Fro a Vol Factor yn Rhondda Cynon Taf) tra caiff ei alw yn Banel Ieuenctid GwirVol mewn ardaloedd eraill (e.e. yr holl ardaloedd y mae GAVO yn gweithredu ynddynt).

Credai'r CGI y bu'r panel yn gweithio’n effeithiol iawn hyd yma yn nhermau trin ceisiadau a gwneud penderfyniadau ar ba brosiectau i'w hariannu. Dywedodd un

CGI bod y Panel wedi dangos nodweddion neilltuol o aeddfed megis cwestiynu gwerth am arian rhai ceisiadau, holi'r angen am eraill a rhesymeg ceisiadau eraill. Mae pob Panel yn gyfrifol am osod eu meini prawf cyllido eu hunain ac ystyriwyd bod hyn yn gryfder gan eu bod yn ymateb i amgylchiadau ac anghenion lleol.

Dywedodd y CGI y dyfarnwyd cyllid i ystod eang o brosiectau - yn cynnwys rhai prosiectau cymdeithasol ac amgylcheddol. Teimlid yn gyffredinol fod prosiectau a dderbyniodd gyllid wedi rhoi cyfleoedd gwirfoddoli da: un enghraifft a roddwyd oedd clwb criced lleol a dderbyniodd grant ieuenctid lleol i ddod â rhieni a chwaraewyr ynghyd i ddysgu criced i blant.

Credid fod aelodaeth pob Panel yn agwedd hollbwysig o'i lwyddiant. Caiff aelodau newydd eu recriwtio yn flynyddol a nododd y CGI y bu rhai Paneli yn wannach oherwydd hyn ac y bu'n rhaid i'r CGI gymryd mwy o ddyletswyddau a chyfrifoldebau i wneud yn iawn am unrhyw ddiffygion. Mae CGI yn ei chael yn anodd recriwtio aelodau Panel newydd ond ymddengys fod arfer da yn y cyswllt hwn yn cynnwys recriwtio aelodau o brosiectau (llwyddiannus) a dderbyniodd grantiau lleol (dan arweiniad ieuenctid) yn flaenorol.

Yn nhermau datblygiad, er bod cylch gorchwyl y paneli ieuenctid yn canolbwyntio ar drin ceisiadau am gyllid, medrid rhoi ystyriaeth yn y dyfodol i sut y medrid cefnogi'r rôl i gynnwys (mwy) o waith hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth lleol.

Roedd y rhanddeiliaid yn unfrydol yn credu fod y Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc yn sicrhau canlyniadau da. Cododd hyn y cwestiwn os dylai'r ymyriad dderbyn cyfran fwy o'r cyllid er fel y dywedodd un rhanddeiliaid allweddol medrai hyn beryglu ymyriadau eraill GwirVol sydd gyda’i gilydd yn cyfrannu at gynllun cynhwysol. Ymhellach, dadleuwyd y dylai effaith a gwerth am arian cymharol y grantiau lleol (dan arweiniad ieuenctid)  roi ystyriaeth hefyd i fewnbwn amser y CGI i'r broses.

Fodd bynnag roedd rhanddeiliaid allweddol yn glir y dylai'r ffocws fod ar gysondeb darpariaeth ar draws y 22 ardal, yn neilltuol, wrth rannu arfer da a datblygu

cysylltiadau gyda sefydliadau cyhoeddus a phreifat (yn arbennig yng nghyswllt cynhyrchu cyllid ychwanegol wedi'i drosoli/arian cyfatebol).

Roedd un enghraifft o arfer da yn y cyswllt hwn yn Abertawe lle rhoddwyd cytundeb lefel gwasanaeth ar waith rhwng Cyngor Gwirfoddol Sir Abertawe a Gwasanaeth Ieuenctid Abertawe lle byddai'r Banc Ieuenctid presennol yn gweithredu fel panel pobl ifanc GwirVol. Golygai hyn nid yn unig y byddai'r panel pobl ifanc yn gyfrifol am ddyfarnu £5,000 o grant lleol GwirVol ond hefyd drwy gytundeb y byddai'r panel pobl ifanc yn cael mynediad i gyllid ychwanegol gan Wasanaeth Ieuenctid Abertawe (tua £6,000-£7,000). Felly, roedd cyfanswm o £11,000 £12,000 (yn hytrach na £5,000) ar gael mewn grantiau drwy banel lleol dan arweiniad pobl ifanc GwirVol.

Dywedodd rhanddeiliaid allweddol, er y medrai ymestyn y dull gweithredu yma a dulliau eraill fod yn ddymunol, bod yr hinsawdd o ansicrwydd o amgylch cyllid cyhoeddus - er enghraifft ddiddymu'r Grant Cyfalaf Ieuenctid gan Lywodraeth Cymru - yn gyfyngiad sylweddol.

*4.3.6 Effeithlonrwydd GwirForce*

Cydnabu'r holl randdeiliaid allweddol rôl GwirForce yn darparu ar gyfer cynllun dan arweiniad pobl ifanc. Yn arbennig, ystyriai y rhanddeiliaid allweddol fod rôl GwirForce yn bennaf yn ymwneud â 'chadw'r bartneriaeth a'r fenter mewn cysylltiad gyda phobl ifanc' (e.e. drwy gyfrannu at gyfarfod Bwrdd Partneriaeth) a 'chefnogi newid yn y canfyddiad o wirfoddoli ymysg pobl ifanc (e.e. drwy ddatblygu nwyddau a deunyddiau hyrwyddo, a chynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth).

Fodd bynnag roedd consensws cyffredinol fod GwirForce wedi cael dechrau araf a rywfaint yn anodd. Esboniodd un rhanddeiliaid allweddol fod GwirForce wedi 'cael problemau yn deall eu rôl, beth yr oeddem yn ei ddisgwyl ganddynt, a sut y byddent yn cefnogi GwirVol ond bod ar wahân i GwirVol'.

Credid bod cyflwyno cefnogaeth drwy gontract gweinyddu a chefnogaeth GwirForce (a ddyfarnwyd i Rathbone) wedi gwneud gwahaniaeth:

> ‘Roedd cefnogaeth i GwirForce yn bwysig; cafodd adnoddau eu gwneud ar gael ac ers hynny cafodd GwirForce fwy o effaith.'

Ymhellach cydnabu rhanddeiliaid allweddol y rôl mae Rathbone yn ei chwarae yn GwirForce yn gweithredu’n annibynnol o GwirVol a'r manteision a phrofiad a ddaeth sefydliad yn arbenigo mewn gwirfoddoli pobl ifanc i'r cynllun.
Fodd bynnag, ystyriai'r rhan fwyaf o randdeiliaid allweddol fod y gefnogaeth a roddwyd gan Rathbone ei hunan wedi ei wanhau i raddau oherwydd lefelau uchel o drosiant staff.

Credai rhanddeiliaid allweddol a'r CGI yn gyffredinol fod GwirForce wedi dangos arwyddion o hyder cynyddol. Yn arbennig ystyriwyd bod y Siarter ar gyfer Gwirfoddolwyr Ifanc yng Nghymru - sydd i'w chyflwyno i Brif Weinidog Cymru yn y Senedd ym mis Medi 2011 - yn ddeiliant allweddol ac yn garreg filltir; mewn ffordd y tro cyntaf i GwirForce gyfrannu o'i ran ei hunan. Mae cynhadledd ar y gweill ar gyfer Mawrth 2012 a ystyriwyd mewn modd tebyg, gyda'r ddau randdeiliaid allweddol (nad oeddent yn aelodau o GwirForce) yn dweud ei bod yn dystiolaeth fod GwirForce yn araf yn adeiladu 'hunaniaeth' ar wahân i GwirVol.

Roedd rhanddeiliaid allweddol hefyd yn glir y dylid gweld unrhyw feirniadaeth o effaith cyfyngedig GwirForce hyd yma o fewn cyd-destun yr adnoddau oedd ar gael. Mae GwirForce wedi ei ffurfio o wirfoddolwyr, ac mae eu gweithgareddau a'u cefnogaeth weinyddol yn ffurfio canrannau cymharol fach o gyfanswm cyllideb GwirVol. O'r herwydd cytunwyd yn gyffredinol 'mai dim ond hyn a hyn y gallant ei wneud'. Ymhellach, pwysleisiodd y rhan fwyaf o randdeiliaid allweddol fod GwirForce yn gysyniad cymharol newydd ac y byddai 'angen amser i ddatblygu.'

Roedd hefyd beth pryder am gyfansoddiad GwirForce ac yn arbennig os oedd GwirForce yn gynrychioladol o bobl ifanc yng Nghymru:

> ‘Ymddengys GwirForce yn grŵp bach o bobl ifanc frwdfrydig iawn. Ond rwy'n amau eu bod yn gyffredinol yn bobl a fyddai'n gwneud llawer beth bynnag ac

ar adegau mae'r cyfan yn teimlo ychydig ynysig yn y ffordd y mae'n gweithredu.

Fodd bynnag, dangosodd adborth eang ar aelodau GwirForce gymysgedd dda o gefndiroedd (e.e. roedd gwirfoddolwyr yn cynnwys rhai mewn addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd, rhai mewn cyflogaeth ar hyn o bryd ac eraill a oedd yn ddi-waith).

Roedd gwell hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth yn thema ganolog yn deillio o'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol. Er bod GwirForce wedi derbyn cyllid GwirVol ar gyfer gwaith hyrwyddo, dywedodd bron yr holl ymatebwyr (yn cynnwys ymatebwyr GwirForce) fod mwy o waith ar ôl i gael ei wneud. Roedd sicrhau adnoddau i'r gwaith yn bryder yn y cyswllt hwn; teimlai rhai ymatebwyr y byddai angen 'cymysgedd o'r hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd' (e.e. cynadleddau blynyddol a mynychu digwyddiadau cymunedol) a 'datrysiadau blaengar' (e.e. cynyddu 'adnabyddiaeth enw' drwy godi ymwybyddiaeth o fewn ysgolion - yn cynnwys rhai dan 16 oed - yn defnyddio posteri a gweithio gyda chynghorau ysgol).

Fodd bynnag, codwyd pryder fod rhywfaint o wrthddweud rhwng sicrhau lefelau da o gynrychiolaeth ac ymgysylltu gyda'r rhai 'anoddaf eu cyrraedd' gan y gall y rhai nad ydynt wedi ymgysylltu ar hyn o bryd fod yn llai brwdfrydig neu hyderus am gymryd rôl arweinyddiaeth o fewn GwirForce. Yn yr un modd, disgrifiwyd fod y 'teimlad o un teulu mawr' yn GwirForce yn bwysig wrth gadw aelodau.

Nodwyd yn y cyswllt yma i'r CGI ddynodi diffyg cysylltiadau rhwng GwirForce ac aelodau'r Panel Grantiau Lleol. Yn arbennig, nodwyd y gwahoddir aelodau Panel Grantiau Lleol i ymuno a chwrdd gyda GwirForce ond yn ymarferol ei bod yn anodd i aelodau Panel Grantiau Lleol i fynychu cyfarfodydd, ac mae'r nifer sy'n gwneud hynny'n isel.

Dynodwyd anawsterau eraill a risgiau yn y dyfodol yng nghyswllt:

- Datblygu presenoldeb i GwirForce yng ngogledd Cymru, yn neilltuol teimlwyd fod prinder cyllid ar gyfer talu am gostau teitho a deunyddiau i fynychu digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yng ngogledd Cymru;
- Dibyniaeth ar bedwar neu bum aelod allweddol o GwirForce i hybu GwirForce ymlaen ac yn arbennig y baich sy'n disgyn ar yr unigolion hynny (e.e. dywedwyd wrth ymchwilwyr y gall Cadeirydd GwirForce dderbyn hyd at 600 neges e-bost yr wythnos yng nghyswllt GwirForce);
- Sicrhau fod sylwadau GwirForce yn bwydo'n llawn i drafodaethau'r bwrdd partneriaeth; er y dywedwyd fod mewnbwn GwirForce wedi gwella'n ddiweddar, teimlid y medrai'r bwrdd partneriaeth godi ofn ar aelodau GwirForce. Mae syniadau ar gyfer osgoi'r broblem hon yn cynnwys Cadeirydd/cynrychiolydd GwirForce yn cynnal trafodaethau byr gyda rheolwr CGGC a Chadeirydd y bwrdd partneriaeth cyn y cyfarfod i sicrhau y caiff eu prif bwyntiau eu hystyried;[59]
- Sicrhau presenoldeb cyson gwirfoddolwyr mewn cyfarfodydd a digwyddiadau. Ar hyn o bryd mae 48 o bobl ifanc 'ar lyfrau GwirForce' er fel arfer rhwng 10 a 20 (a weithiau lawer llai) sy'n mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae'n werth nodi hefyd i randdeiliaid allweddol ddweud ei bod yn annhebyg y cyflawnid y targed presennol o gynyddu'r aelodaeth i 75 erbyn Mawrth 2012.

O ran y dyfodol, credai rhanddeiliaid ei bod yn hanfodol fod GwirForce yn glir am ei gylch gorchwyl parhaus; mae'n rhaid i wirfoddolwyr GwirForce fod yn glir am yr hyn mae GwirVol ei eisiau ganddo. Yn y cyswllt hwn, teimlai ymatebwyr yn gyffredinol fod Rathbone wedi helpu GwirForce i egluro ei hunaniaeth.

Teimlai'r rhan fwyaf o randdeiliaid y dylai GwirForce anelu i gael mwy o effaith yn y dyfodol. Roedd arafwch cynnydd wedi achosi rhwystredigaeth i leiafrif o randdeiliaid allweddol: 'Dwi ddim yn meddwl eu bod wedi ysbrydoli cynifer o bobl ifanc eraill ac y gobeithid.' Roedd hefyd anghytundeb clir rhwng y rhai a gredai y medrid sicrhau mwy o effaith a'r rhai oedd yn llawer llai hyderus.

[59] Byddai'r dull gweithredu yn cynnig hwb i'r dull presennol lle mae cynrychiolydd GwirForce yn tueddu i gwrdd gyda Rheolwr GwirVol CGGC cyn cyfarfodydd.

Er y gwahaniaethau hyn, credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid allweddol fod GwirForce yn sylfaenol er mwyn i GwirVol 'gael ei arwain gan bobl ifanc'. Tueddent i deimlo y byddai GwirForce yn dod hyd yn oed yn bwysicach dros amser ac yn cael rôl arweinyddiaeth gyda GwirVol. Teimlent hefyd fod y contract cymorth gweinyddol hefyd yn bwysig wrth gyflwyno elfen o atebolrwydd i waith GwirForce a'i bod yn rhy gynnar i dorri cysylltiadau rhwng GwirForce a chorff cefnogaeth weinyddol.

Teimlai rhanddeiliaid eraill (er nid mwyafrif) y dylid edrych eto ar gysyniad GwirForce ei hunan ac ystyried dulliau eraill o adeiladu mewnbwn ieuenctid (e.e. Panel Ymgynghori Cenedlaethol pobl ifanc yn adrodd i Lywodraeth Cymru); 'Gall fod mai camsyniad oedd GwirForce a bod angen i ni edrych ar ryw ddull arall.'

Roedd awgrymiadau ar gyfer cryfhau GwirForce yn cynnwys:

- Aelodau Bwrdd Partneriaeth GwirVol i ystyried ffyrdd y medrent roi mwy o gefnogaeth i wefan GwirForce (e.e. mae trafodaeth am ddatblygu gwefan ar wahân ar gyfer GwirForce a phe byddai hyn yn mynd yn ei flaen, yna efallai y medrai partneriaid ddymuno sicrhau fod gwefannau eu sefydliad yn rhoi dolen i wefan newydd GwirForce);
- Mwy o anogaeth ar gyfer cynrychiolwyr paneli lleol dan arweiniad pobl ifanc i weithio gyda/ymuno â GwirForce fel ffordd o wella cynrychiolaeth;
- Annog GwirForce i gael mwy o fewnbwn i'r Bwrdd Partneriaeth (e.e. roedd peth consyrn nad oedd GwirForce wedi ymwreiddio cymaint o fewn y bartneriaeth ag y gallai fod wedi gwneud - e.e. roedd Rathbone wedi mynychu rhai cyfarfodydd Bwrdd yn lle aelodau GwirForce - ac o'r herwydd efallai nad oedd llais neu safbwynt pobl ifanc wedi dod allan mor llawn ag y gallai);
- Ar amser addas, annog GwirForce i wneud cais am grant cenedlaethol eu hunain;
- Darparu adnoddau ychwanegol i GwirForce ar gyfer costau teithio a deunyddiau ar gyfer gwaith hyrwyddo ychwanegol (yn arbennig yng Ngogledd Cymru);
- Dod yn fwy ffurfiol drwy ddatblygu cyfansoddiad. Yn neilltuol awgrymwyd y medrai hyn maes o law alluogi GwirForce i wneud cais am gyllid grant tu allan i GwirVol, codi arian a hyd yn oed efallai gynnal gweithgareddau menter.

*4.3.7 Effeithlonrwydd Trefniadau Rheoli*

<u>CGGC</u>

Ystyriai rhanddeiliaid allweddol fod contractio CGGC i reoli cynllun GwirVol yn benderfyniad da. Cafodd y disgwyliadau y byddai'r sector yn ymateb yn gadarnhaol i CGGC fel gweinyddydd grantiau ac y medrid gwneud defnydd sylweddol o arbenigedd, gwybodaeth a dealltwriaeth CGGC o'r sector eu cyflawni'n gyffredinol.

Gwelai rhanddeiliaid allweddol fod nerth yn y ffaith fod prosesau a systemau GwirVol (e.e. ar gyfer y rhaglenni grant cenedlaethol) yn dibynnu'n helaeth ar ddulliau wedi'u profi a ddefnyddiwyd gan CGGC mewn rhaglenni presennol. Yn fyr, y teimlad oedd bod CGGC yn 'lle naturiol' ar gyfer gweinyddu GwirVol o gofio am y seilwaith presennol ac yn neilltuol gysylltiadau CGGC gyda chynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru.

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn gadarnhaol iawn am y ffordd yr oedd CGGC yn rheoli GwirVol: 'Mae ganddyn nhw dîm gwirioneddol dda', 'maen nhw'n rhagorol wrth gefnogi Bwrdd y Bartneriaeth' a 'rhagweithiol iawn, agos iawn atoch' oedd rhai o'r sylwadau a roddwyd mewn cyfweliadau.

Credai'r CGI fod GwirVol wedi'i reoli'n dda. Dywedwyd fod y cysylltiadau rhwng y Cynghorwyr a CGGC yn ardderchog. Eu profiad hwy oedd bod CGGC yn gefnogol iawn iddynt fel cynghorwyr a hefyd y prosiect: 'mae GwirVol mewn lle da o fewn CGGC'.

Ymhellach dywedodd y CGI iddynt dderbyn hyfforddiant dan gan CGGC a bod tîm CGGC yn mynychu cyfarfodydd y CGI yn rheolaidd a chredid bod hynny'n ddefnyddiol iawn. Eto, cryfder tîm CGGC oedd eu bod yn cael eu gweld fel brwdfrydig ac agos atynt.

O ran y trefniadau monitro dywedodd y CGI eu bod yn gyffredinol fodlon. Y cafeat yma oedd eu bod yn ymwybodol y gofynnwyd iddynt yn ddiweddar iawn i gynhyrchu adroddiadau misol, ac roeddent yn ansicr i ba raddau y byddai hyn yn cynyddu'r pwysau gwaith arnynt.

Wrth droi'n ôl at brofiad y sefydliadau a dderbyniodd grantiau cenedlaethol, credai 35 ymatebydd neu 78% fod y ffurflenni monitro'n rhwydd iawn neu'n weddol rwydd eu llenwi tra bod saith (15%) wedi cael rhai anawsterau gyda'r ffurflenni monitro[60].

Awgrymodd un ar ddeg o ymatebwyr ffyrdd y medrid gwella'r ffurflenni monitro ac roedd yr awgrymiadau a nodwyd amlaf yn cyfeirio at:

- Symleiddio'r ffurflenni ac yn neilltuol ostwng yr hyn a ystyriwyd yn gwestiynau ailadroddus gan felly olygu eu bod yn cymryd llai o amser i'w llenwi;
- Gwneud y ffurflenni ar gael ar-lein a chynnwys system wirio i sicrhau bod y data a fwydir yn gywir;
- Gofyn am ddata sy'n gymesur â swm y grant a dderbyniwyd: roedd rhai sylwadau a wnaed yn y cyswllt hwn yn cynnwys: 'roedd ychydig bach dros ben llestri o ystyried mai dim ond dwy wythnos o hyd oedd y cwrs' a 'mae darparwyr grantiau eraill yn rhoi symiau mwy o gyllid i ni ond mae ganddyn nhw ffurflenni llawer haws eu llenwi.'

Roedd yn syndod mai dim ond chwarter y sefydliadau a arolygwyd (12 ymatebydd neu 27%) oedd wedi derbyn ymweliad monitro gan asesydd grant CGGC. Roedd pob un o'r 12 ymatebydd wedi bod yn fodlon gyda'r ymweliad monitro a gawsant a dywedwyd fod yr ymweliad wedi cynnwys rhai o'r elfennau dilynol:

- Cyfarfodydd gyda rheolwr prosiect (neu uwch reolwr addas o fewn y sefydliad) a'r gwirfoddolwyr oedd yn cymryd rhan ac ymweliad safle os oedd yn addas;
- Adolygu prosesau trefniadol yn ymwneud â threfniadau ariannol a monitro;

[60] Ni allai tri ymateb i'r cwestiwn yma gan nad oedd ganddynt unrhyw brofiad uniongyrchol o lenwi'r ffurflenni - mewn un achos nid oedd yr ymatebydd hyd yma wedi llenwi'r ffurflenni monitro.

- Adolygu dogfennau'n gysylltiedig â'r prosiect yn cynnwys taenlenni a ffurflenni wedi eu llenwi.

Awgrymodd tri ymatebydd ffyrdd o wella ymweliadau monitro yn y dyfodol, sef:

- Derbyn rhestr ymlaen llaw o'r wybodaeth yr hoffai aseswr CGGC ei gweld er mwyn medru paratoi'n well;
- Cynnal ymweliadau monitro ar y dechrau cyntaf pan ddyfernir grant er mwyn sicrhau fod y prosesau a roddir ar waith yn rhai addas;
- Sicrhau fod pob ymweliad monitro'n cynnwys cyfle i gwrdd â gwirfoddolwyr a gweld y prosiect ar waith.

<u>Bwrdd y Bartneriaeth</u>

Nododd rhanddeiliaid allweddol y gwnaed cynnydd da wrth ddatblygu maint a chynrychiolaeth y Bartneriaeth. Mae tua 20 aelod partner ar hyn o bryd - bu aelodaeth yn gyson ar y lefel hon sydd, yn ôl rhai ymatebwyr, yn arddangos brwdfrydedd parhaus am, a chred, yn GwirVol.

Dywedwyd hefyd fod cysylltiadau da rhwng Bwrdd y Bartneriaeth, CGGC a Llywodraeth Cymru, er na fu unrhyw gyfathrebu ffurfiol rhwng Bwrdd y Bartneriaeth a'r CGI yn ddiweddar. Cafodd hyn ei ddatrys erbyn hyn ac mae dau o'r CGI yn aelodau o'r Bwrdd. Credir y bydd hyn yn gwella ymhellach y cysylltiadau rhwng ymyriadau lefel leol a gwaith cenedlaethol a strategol GwirVol.

Er y credai rhanddeiliaid allweddol fod Bwrdd y Bartneriaeth y gweithio'n dda, roedd cytundeb bron yn unfrydol y byddai'r Bwrdd (a'r is-grwpiau) yn manteisio o fwy o fewnbwn gan y sector preifat. Yn neilltuol, teimlid y gallai mewnbwn gan y sector preifat roi 'ymyl galetach' i'r trafodaethau a rhoi safbwynt ehangach am yn gyntaf y materion sy'n wynebu'r sector preifat wrth gynnig a/neu gefnogi gwirfoddoli, yn ail y ffordd orau o ddefnyddio gwirfoddoli i gefnogi i helpu pobl ifanc i ganfod gwaith ac yn drydydd sut y gallai GwirVol gysylltu'n ehangach ac adeiladu mwy o gefnogaeth yn y trydydd sector ar gyfer gwirfoddoli. Roedd yn galonogol i randdeiliaid allweddol ddweud fod pethau eisoes ar y gweill i annog mwy o gyswllt gyda'r sector preifat.

Ystyrid fod yr is-grwpiau eu hunain yn gryfder sylweddol:

> 'Mae'n eithaf bywiog ar adegau! Caiff pob barn ei chroesawu ac mae'r cwestiynau caled ac anodd yn cael eu gofyn.'

Fodd bynnag, dywedodd rhanddeiliaid allweddol fod dibynnu ar wirfoddolwyr yn golygu fod y presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r is-grŵp yn amrywiol. Am y rheswm yma, ac i ostwng y baich ar unigolion penodol a sicrhau cymysgedd eang o farn a syniadau, roedd angen cyffredinol i gynyddu nifer yr aelodau.

### 4.4 Cyfraniad GwirVol i gynyddu gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru

Yn yr Adran hon, ystyriwn effaith GwirVol yn nhermau cynyddu gwirfoddoli ieuenctid a symud ymlaen gydag argymhellion Comisiwn Russell.

Ystyriwn yn eu tro:

- Perfformiad o gymharu â thargedau a gytunwyd a'r effaith ar sefydliadau a gefnogir;
- Effaith GwirVol ar wirfoddolwyr ifanc;
- Materion ychwanegedd a difuddiant;
- Effeithlonrwydd cost.

#### *4.4.1 Perfformiad o gymharu â'r targedau a gytunwyd*

Roedd CGI yn fras gefnogol i fesurau perfformiad GwirVol er bod ymdeimlad cryf eu bod yn methu dangos canlyniadau ychwanegol eu gwaith e.e. gallai ymweliad ysgol arwain at gyswllt gyda thua 100 o bobl ifanc, a gallai canran ohonynt fod yn ymwneud â gwirfoddoli GwirVol, ond byddai'r cyfan wedi cael ymwybyddiaeth o GwirVol a chyfleoedd gwirfoddoli pobl ifanc. Yn yr un modd dywedodd y CGI fod gan eu gwaith GwirVol fanteision ehangach i eraill yn y cymunedau, ac na châi hyn ei fesur ar hyn o bryd.

Fodd bynnag roedd y CGI yn ystyried y gosodwyd y rhifau yn y targedau yn addas, a bod hyn yn seiliedig ar gynllunio realistig a seilio targedau ar brofiad blaenorol.[61]

Drwyddi draw, cadarnhaodd y Cynghorwyr a gadarnhawyd, fel y dangosir yn Nhabl 3.6 uchod, eu bod yn gyffredinol wedi cyflawni eu targedau perfformiad eu hunain hyd yma.

Awgrymodd rhai (er lleiafrif) y Cynghorwyr mai agwedd mwyaf effeithiol eu gwaith oedd cwrdd â phobl ifanc ar sail un i un a chael cyfleoedd gwirfoddoli iddynt. Mae hyn yn aml yn broses gymharol syml (sy'n cymryd tua hanner awr o'u hamser) sy'n golygu siarad am wirfoddoli, canfod beth sydd o ddiddordeb i'r person ifanc a rhoi manylion cyswllt iddynt am sefydliadau a chyfleoedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall pobl ifanc wedyn ddilyn y cyngor hwn eu hunain.

Dywedodd CGI hefyd fod rhaglenni Grant Ieuenctid Lleol wedi gweithio'n dda iawn ac yn darparu symiau bach o gyllid sy'n rhwydd i grwpiau o bobl ifanc gael mynediad iddynt. Credent y dylai mwy o gyllid GwirVol gael eu sianelu drwy'r paneli hyn.

Yn nhermau ffactorau yn llesteirio cyflawni targedau, soniodd y CGI am:

- Anawsterau wrth flaenoriaethu llwyth gwaith rhwng gweithgareddau sy'n cyfrannu’n uniongyrchol at allbynnau GwirVol a gweithgareddau sy'n cefnogi gwirfoddoli ymysg pobl ifanc yn gyffredinol. Daeth mwy o bwysau am hyn yn dilyn cyflwyno Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion/colegau;
- Diffyg adnoddau fesul awdurdod lleol i ddelio gyda'r cynnydd yn y galw gan bobl ifanc a sefydliadau cyfeirio: yn neilltuol dadleuwyd fod hyn yn golygu bod 'gwaith ymatebol' yn tueddu i gael blaenoriaeth dros 'waith rhagweithiol' ceisio cyfleoedd gwirfoddoli newydd (er y ffaith yr ystyriwyd bod creu gwirfoddoli newydd yn fwy o her);

---

[61] Gosodwyd targedau unigol fel canlyniad trafodaethau rhwng CGGC, y CGI a'r rheolwr llinell priodol yn eu Cyngor Gwirfoddoli Sirol. Byddai'r targedau hyn wedyn yn cael eu cynnwys yn y cytundebau cyllid blynyddol a roddir ar waith rhwng y CGGC a phob Cyngor Gwirfoddoli Sirol. Mae'r targedau cenedlaethol yn adlewyrchu cyfanswm y targedau a gytunwyd gyda'r CGI/Cyngor Gwirfoddol Sirol unigol.

- Anawsterau wrth roi'r amser/adnoddau gofynnol i gefnogi pobl ifanc gyda gofynion ychwanegol. Dywedodd CGI fod rhai 'cleientiaid' (e.e. cleientiaid anabl, rhai gyda phroblemau iechyd meddwl) angen cefnogaeth ychwanegol wrth gysylltu gyda sefydliad, mynd â hwy i gwrdd â hwy, cynnig cymorth i bontio i wirfoddoli ac ati. Dywedodd un CGI hefyd bod sefydliadau partner weithio'n atgyfeirio cleientiaid nad ydynt yn barod i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli oherwydd eu lefel uchel o ofynion. Nododd un arall nad yw CGI wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ac nad oes ganddynt unrhyw brofiad o ddelio gyda phobl ifanc gydag anghenion mor benodol;
- Gall gweinyddu'r Panel Ieuenctid fod yn drwm o ran adnoddau: dywedwyd bod yn aml angen mwy o waith nag a gredir i gynnal y Paneli hyn.

Yn nhermau derbynwyr grantiau cenedlaethol, gosodwyd tri tharged ar gyfer tri o'r cynlluniau ariannu dan GwirVol (Creu Cyfleoedd, StreetGames a phrosiectau Rhyngwladol). Y targedau hyn oedd:

- Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli newydd i bobl ifanc (16-25) i gael eu creu;
- Cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr ifanc newydd (16-25) yn cymryd rhan; a
- Cyfanswm nifer yr oriau a gwblhawyd gan yr holl wirfoddolwyr newydd.

Byddai'n ymddangos y bu'r targedau a osodwyd gan y sefydliadau a arolygwyd yn weddol gynnil. Roedd 32 sefydliad (neu 86%) wedi gosod targed o greu hyd at 30 o gyfleoedd gwirfoddoli a 29 sefydliad (neu 78%) wedi gosod targed o recriwtio hyd at 30 o wirfoddolwyr ifanc newydd. Er bod grantiau'n eithaf bach, wrth gwrs, mae'r cyfartaledd hwn yn is na'r hyn a awgrymir gan y targedau ar gyfer y cynllun: y cyfanswm targed fesul prosiect a ariennir ar gyfer 2009 i 2011 yw ar gyfer 3,000 o wirfoddolwyr ifanc newydd mewn 72 sefydliad h.y. 42 o wirfoddolwyr ifanc newydd fesul sefydliad ar gyfartaledd.

Roedd mwy o amrywiaeth yn nhermau cyfanswm nifer yr oriau y disgwylir i bob gwirfoddolydd newydd eu cwblhau er bod angen gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau gan na allai cryn nifer o'r ymatebwyr a arolygwyd (10 ymatebydd neu 27%) gofio gwerth y targed. Gosododd ychydig dan hanner (46% neu 17 sefydliad) darged o dros 500 awr i gael eu cwblhau gan bob gwirfoddolydd newydd, nid oedd gan ddau


(5%) unrhyw dargedau o'r fath ac roedd gan wyth sefydliad dargedau amrywiol iawn yn is na 500 awr.

Mae'r arolwg o sefydliadau a ariannwyd yn awgrymu y bu sefydliadau'n llwyddiannus wrth gyflawni neu ragori ar eu targedau a osodwyd ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli newydd a'r gwirfoddolwyr ifanc yn gysylltiedig (gweler Ffigur 4.4 islaw) tra adroddwyd lefelau is o lwyddiant yn erbyn cyfanswm nifer yr oriau y disgwylir i wirfoddolwyr newydd eu cwblhau. Er enghraifft, roedd 73% o'r rhai a arolygwyd (27 o 37 ymatebydd) wedi cyflawni neu ragori ar eu targed ar gyfer creu cyfleoedd gwirfoddoli gyda 24% arall (naw o 37 ymatebydd) yn credu y cyflawnid y targed pan fyddai'r prosiect wedi ei gwblhau. Yn wir dim ond un prosiect nad oedd wedi cyflawni'r ddau darged hyn - ariannwyd y prosiect neilltuol hwn drwy linyn StreetGames ac roedd wedi llwyddo i gyflawni hanner ei dargedau (h.y. naw o gyfleoedd a naw o wirfoddolwyr o darged o 18). Yn yr achos hwn, dywedwyd mai'r rheswm nas cyflawnwyd y targedau oedd anawsterau'n gysylltiedig gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a diffyg cyllid ar gyfer costau trafnidiaeth - felly methu cael pobl ifanc i gyrraedd y sefydliad.

Bu sefydliadau ychydig yn llai llwyddiannus wrth gyflawni eu targed oriau a gwblhawyd gan bob gwirfoddolwyr newydd, er bod mwyafrif mawr un ai wedi gwneud hynny (46% neu 17 ymatebydd) neu'n credu eu bod ar y ffordd (32% neu 12 o 37 ymatebydd) i gyflawni neu ragori ar y targed yma. Dywedodd tri ymatebydd (8%) fod y targed heb gael neu ddim yn debygol o gael ei gyflawni[62] - mewn un achos canfu'r sefydliad fod y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd wedi gweithio oriau byrrach nag a ragwelid.

*Ffigur 4.4: Targedau a Gyflawnwyd gan Sefydliadau a Arolygwyd*

[62] Ni wnaeth pum ymatebydd ymateb i'r cwestiwn yma




Ffynhonnell: Arolwg ffôn o 37 o sefydliadau derbyn grant cenedlaethol GwirVol a dderbyniodd gyllid drwy gronfeydd grant Creu Cyfleoedd, StreetGames neu Ryngwladol.

Gellid diffinio'r targedau a osodwyd ar gyfer pedwerydd llinyn cynllun GwirVol (Hyrwyddiadau) yn ystod y cam gwneud cais gan yr ymgeiswyr eu hunain. Nododd sefydliadau a arolygwyd oedd wedi derbyn grant Hyrwyddiadau (cyfanswm o wyth) fod eu targedau yn bennaf heb eu meintioli neu'n ansoddol o ran natur e.e. cynyddu ymwybyddiaeth a buddion gwirfoddoli, paratoi adnoddau megis CDs, rhoi cyflwyniadau a mynychu gwahanol ddigwyddiadau a fyddai maes o law yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol. Mae felly'n dilyn y credai'r holl sefydliadau a arolygwyd a dderbyniodd grant Hyrwyddiadau fod eu targedau wedi eu cyflawni neu y rhagorwyd arnynt (er i ddau o'r wyth nodi fod y prosiect yn dal i fynd rhagddo ond eu bod yn disgwyl cyrraedd eu targedau).


Yn nhermau cyflawniad, roedd sefydliadau a arolygwyd yn galonogol am i ba raddau y gallodd eu prosiect a ariannwyd gyflawni ei nodau ac amcanion gwreiddiol gyda 21 ymatebydd (47%) yn dweud iddo wneud hynny i raddau helaeth iawn, 19 (neu 42%) i raddau helaeth a dim ond dau (4%) i raddau bach[63].

Byddai'n ymddangos y bu cyllid grant GwirVol yn ganolog wrth helpu sefydliadau a ariannwyd i ddelio gyda heriau gwirfoddoli neilltuol; yn arbennig wrth helpu i oresgyn

[63] Ni wnaeth tri ymatebydd roi sylwadau ar hyn

anawsterau creu cyfleoedd gwirfoddoli newydd a goresgyn heriau recriwtio gwirfoddolwyr ifanc newydd, fel y dangosir yn Ffigur 4.5. Er ei bod yn dal yn bwysig i lawer o sefydliadau, byddai'n ymddangos y bu cyllid GwirVol yn gyffredinol yn llai canolog wrth helpu sefydliadau i fynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â chadw gwirfoddolwyr ifanc a recriwtio pobl o gefndir difreintiedig gydag, er enghraifft, dim ond dau-draean o'r rhai a arolygwyd (32 a 31 ymatebydd yn yr un drefn) yn dweud i'r cyllid eu helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn i raddau helaeth neu helaeth iawn.

*Ffigur 4.5: Y ba raddau yr helpodd cyllid GwirVol sefydliadau i oresgyn heriau gwirfoddoli*




Ffynhonnell: Arolwg ffôn o 45 o sefydliadau a dderbyniodd grantiau cenedlaethol GwirVol

Gofynnwyd i'r sefydliadau a arolygwyd i ddynodi unrhyw fanteision eraill fel canlyniad cyflenwi'r prosiect. Y tair mantais a nodwyd amlaf oedd:

- Canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y gwirfoddolwyr a gymerodd ran yn cynnwys datblygu sgiliau newydd yn cynnwys sgiliau cyflogadwyedd, a symud ymlaen i gyflogaeth a dysgu pellach e.e. nododd un ymatebydd fod rhai o'r gwirfoddolwyr wedi symud ymlaen i ymrestru mewn prifysgol i astudio gradd y credent y byddai'n amhosibl iddynt ar y dechrau;
- Cyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r sefydliad yn cyflenwi'r prosiect oedd yn aml wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus o’u gwaith a gwella eu henw da yn y gymuned. Nododd un sefydliad hefyd eu bod wedi llwyddo i ennyn diddordeb mewn gwirfoddoli ymysg pobl o bob oedran - nid pobl ifanc yn unig;
- Datblygu perthynas a phartneriaethau gyda sefydliadau eraill - yn aml elusennau a grwpiau cymunedol eraill.

Mae hefyd yn werth tynnu sylw at y buddion dilynol a nodwyd gan ddim ond un sefydliad ym mhob achos:

- Ennill gwobr am y gwaith a wnaed yn y prosiect;

- Parhau'r prosiect (a'r gwirfoddolwyr a gymerodd ran) i barhau gyda'r gwaith ar ôl i'r cyllid ddod i ben;
- Gwirfoddolydd ifanc wedi dod yn aelod o Fwrdd un sefydliad.

Dim ond nifer fach iawn o sefydliadau a arolygwyd fedrai ddynodi unrhyw anfanteision bod yn gysylltiedig gyda phrosiectau a ariannwyd gan GwirVol. Roedd y prif fater y soniwyd amdano yn ymwneud ag anawsterau wrth reoli'r gwirfoddolwyr a recriwtiwyd - roedd hyn yn fater neilltuol i ddau sefydliad oedd â diffyg capasiti adnoddau staff i reoli gwirfoddolwyr. Roedd trydydd sefydliad wedi wynebu'r mater oherwydd eu bod yn gorfod delio gyda a rheoli gwirfoddolwyr a atgyfeiriwyd at y prosiect gan sefydliadau eraill. Galwyd y gwirfoddolwyr hyn yn 'wirfoddolwyr dan orfodaeth' gan y sefydliadau dan sylw oherwydd eu bod yn amharod i gymryd rhan, yn brin o gymhelliant ac wedi dangos ymddygiad anodd ar adegau.

Roedd rhanddeiliaid allweddol yn gyffredinol fodlon gyda'r cynnydd a wnaeth GwirVol ar y targedau a gytunwyd. Nododd dau ymatebydd fod GwirVol yn cael ei weithredu mewn sefyllfa o berfformiad eisoes yn dda mewn gwirfoddoli ar bob grŵp oedran yng Nghymru. Fel y dywedodd un ymatebydd: 'Mae'n debyg fod hyn yn golygu nad oedd y niferoedd byth yn mynd i fod yn rhyfeddol o ran defnydd.'

Roedd rhanddeiliaid allweddol hefyd yn gyffredinol fodlon fod GwirVol wedi gwneud cynnydd da yng nghyswllt Argymhellion Russell, er eto, pwysleisiodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn tueddu i ganolbwyntio ar nifer fach o'r Argymhellion (e.e. 'sicrhau newid sylweddol' a 'cael eu harwain gan bobl ifanc') gan ei bod yn llai clir sut y cyfeiriai'r prosiect at Argymhellion eraill (e.e. 'cyfres o ymgyrchoedd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth').

Dynodwyd mai'r ffactorau allweddol yn cefnogi cyflawni targedau oedd:

- Strwythur cynllun cadarn gyda GwirVol fel yr 'ymbarel genedlaethol' ond gyda chysylltiadau ardderchog rhwng ymyriadau cenedlaethol a lleol;
- Cyswllt gyda gwasanaethau statudol ar y lefel leol a gafodd yr effaith o ysgogi cyllid ychwanegol (gwirioneddol ac amser mewn da) i gefnogi grantiau dan arweiniad pobl ifanc ac ati;

- Ymwybyddiaeth gynyddol o GwirVol (a galw cryf) fel y dangosir gan lefelau cyffredinol dda o geisiadau am grant;
- Cynhwysedd cynllun aml-agweddog yn cynnwys cymysgedd o ymyriadau ar lefelau cenedlaethol a lleol;
- Yr hyblygrwydd yn y cynllun - bod cwmpas a dull heb fod yn sefydlog - gan olygu y gall GwirVol esblygu i fanteisio ar gyfleoedd neu fynd i'r afael â phroblemau'n codi. Ystyriwyd bod gwaith yr is-grwpiau yn arbennig o bwysig yn y cyswllt hwn;
- Allbynnau ymarferol: er enghraifft gyhoeddi Siarter Gwirfoddolwyr Ifanc ac adroddiad cwmpas achredu: Os Rhowch Fe Gewch.

Ychydig o bryderon a godwyd am berfformiad, er i un ymatebydd ddweud y dylid edrych yn agosach ar berfformiad anghyson ledled Cymru. Yn arbennig, credid bod hyn yn rhannol yn 'adlewyrchu hanes' (mae gan rhai ardaloedd gefndir hirach o gefnogi gwirfoddoli ieuenctid nag ardaloedd eraill) ac yn rhannol yn adlewyrchu i ba raddau y gallai Cynghorau Gwirfoddol Sirol gefnogi GwirVol. Yn gyffredinol serch hynny dywedodd rhanddeiliaid allweddol fod y rhan fwyaf o broblemau (e.e. gwefan ddechreuol) wedi eu trin yn gyflym ac wedi gwella ers hynny.

Yn fwy cyffredinol roedd rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol iawn fod GwirVol yn gynllun cymharol newydd ac y byddai'n cymryd mwy nag un cyfnod ariannu o dair blynedd i gyflawni rhai nodau allweddol (e.e. iddi fod yn 'beth cyffredin i bobl ifanc wirfoddoli)[64].

Fodd bynnag, mewn sefyllfa o fwy o graffu ar wariant roedd rhanddeiliaid allweddol yn awyddus i ymchwilio beth fwy y medrid ei wneud i wella gwerthuso effaith:

> ‘Roedd pobl yn arfer dweud bod "gwirfoddoli yn dda oherwydd ei fod e!" drwy hynny rwy'n meddwl ei fod yn cael ei dderbyn yn ddigwestiwn. Ond mae pobl yn awr yn gofyn 'mae hyn yn fuddsoddiad felly "pam fod e'n dda, ym mha ffyrdd?"'.

[64] Argymhelliad 4: Comisiwn Russell (2005)

Cododd yr holl randdeiliaid allweddol y cafeat y byddai angen adnoddau ychwanegol ar gyfer dull gweithredu estynedig ar gyfer mesur perfformiad:

> ‘Rwy'n petruso rhag dweud y dylid cynnal un [gwerthusiad estynedig ar effaith] oherwydd y byddai'n golygu bod angen adnoddau ychwanegol. Os nad oedd yr adnoddau ychwanegol ar gael, mae'n rhaid i ni roi blaenoriaeth i gyflenwi ... [Fodd bynnag] 'Mae'n rhywbeth y dylai gael ei gynnig, hynny yw, os cawn X o gyllid gallwn wneud Y gwerthusiad effaith/canlyniadau.'

Yn yr un modd, cytunai rhanddeiliaid allweddol fod angen i'r dull o fesur effaith fod yn gadarn:

> ‘Mae'n rhaid ei wneud yn y ffordd gywir, mae angen i'r canfyddiadau fod yn ddigon cadarn i gael eu craffu. Felly byddech yn osgoi rhag gormod o hunan-adrodd ac ati.'

Yn y cyswllt hwn codwyd consyrn am sut y medrid mesur effeithiau hirdymor ar unigolion ac eraill.

Pe byddai adnoddau'n caniatau, ar y lefel unigol credid y gellid rhoi mwy o bwyslais i'r ochr ansoddol ac yn arbennig samplo ar hap i gynhyrchu canfyddiadau math astudiaeth achos. Ar y lefel ymyriad, medrid cynnwys arolygon o gyfranogwyr yn y cynllun o'r cychwyn cyntaf (cylch ariannu newydd).

Ymhellach roedd llyw clir gan y rhanddeiliaid allweddol y dylid ehangu monitro a gwerthuso GwirVol i ystyried yr effaith ar y gymuned ehangach lle mae gwirfoddoli'n digwydd.

Yn olaf, ystyriai rhanddeiliaid ei bod yn bwysig rhoi cyhoeddusrwydd i ganfyddiadau effaith i helpu i adeiladu GwirVol:

'Byddwch angen adnoddau ar gyfer hyn ond ar y cyfan mae'n debyg ei fod ei werth ef.'
'Byddai gwell mesur ar ganlyniadau ac effaith yn arwain at well arddangos GwirVol ac achos cryfach dros gyllid parhaus.'

*4.4.2 Effaith GwirVol ar Wirfoddolwyr Ifanc*

Credid fod gwirfoddolwyr ifanc wedi manteisio mewn llawer o ffyrdd o GwirVol. Dywedodd rhanddeiliaid allweddol y bu ansawdd y cyfleoedd gwirfoddoli yn uchel[65] a'r effeithiau - a ddatgelwyd gan yr astudiaethau achos a gasglwyd - yn dda.

Dynododd y CGI fanteision penodol i unigolion yn cynnwys:


- Datblygu sgiliau newydd a throsglwyddadwy i gyflogaeth;
- Datblygu ymdeimlad o falchder e.e. ennill gwobrau/cyflawniadau;
- Buddion dyngarol - medru cyfrannu at waith yn y gymuned neu waith gyda grwpiau penodol a gwneud gwahaniaeth;
- Gwella eu CV - prifysgolion, colegau a darpar gyflogwyr drwy brofiad gwirfoddoli mewn golau cadarnhaol;
- Buddion personol e.e. rhyngweithio cymdeithasol, adeiladu hyder ac ati.

Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg a dderbyniodd grant cenedlaethol mai'r prif fudd fu cynnydd mewn hunanhyder: gyda 71% o'r rhai a arolygwyd (32 ymatebydd) yn nodi y gallodd y gwirfoddolwyr a gymerodd ran yn y prosiectau gynyddu eu hyder i raddau helaeth iawn fel canlyniad i'w cyfranogiad. Er yn ddisgwyliedig, roedd y gwahaniaeth a wnaed i ragolygon gwirfoddolwyr o sicrhau cyflogaeth neu sicrhau cyflogaeth mewn gwirionedd fel canlyniad i'w cyfranogiad yn llawer is fel y dangosir yn Ffigur 4.6 islaw.

---

[65] Er enghraifft, gwyddom y cynhwyswyd cynigion yn gynnar yng nghynllun GwirVol y Rhwydwaith Gweithredol Gwasanaeth ar gyfer Canolfannau Gwirfoddolwyr yn ymwneud â safonau a pholisïau wrth gynnwys pobl ifanc drwy brosiectau fel y grantiau dan arweiniad ifanc (gweler adroddiad 6 misol CGGC 2009-10)

*Ffigur 4.6: I ba raddau y cafodd gwirfoddolwyr fudd yn ôl y sefydliadau a arolygwyd*




Ffynhonnell: Arolwg ffôn o 45 o sefydliadau a dderbyniodd grant cenedlaethol GwirVol

Adleisiodd adborth gan wirfoddolwyr ifanc a ymatebodd i'r arolwg ar y we farn y sefydliadau a arolygwyd gan y teimlai'r rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr ifanc fod eu profiad o GwirVol wedi arwain at gynnydd yn eu hyder ond dim ond nifer fechan (tua thraean) a deimlai fod y profiad wedi'u helpu i sicrhau lle hyfforddi a hyd yn oed lai (tua un mewn pump) a gredai fod y profiad wedi eu helpu i ddod o hyd i waith.

### *4.4.3 Ychwanegedd a Difuddiant*

Yn nhermau ychwanegedd, roedd yn weddol galonogol canfod y credai hanner y sefydliadau a dderbyniodd grant cenedlaethol (51% neu 23 sefydliad) na fyddai'r prosiect wedi ei ddarparu o gwbl onibai am gyllid grant GwirVol, sy'n awgrymu fod cynllun GwirVol yn cynnig lefel resymol o ychwanegedd. Credai'r hanner arall y byddai'r prosiect wedi ei gyflenwi mewn rhyw ffordd - credai dau (4%) y byddai'r prosiect wedi mynd ymlaen yn yr un ffordd gyda chyllid o fan arall, credai deg (22%) y byddai'r prosiect wedi ei gyflwyno ar raddfa lai gyda chyllid o fan arall, teimlai pump (11%) y byddai'r prosiect wedi'i ddarparu yn nes ymlaen a chredai'r pump arall (11%) y byddid wedi sicrhau canlyniad arall e.e. byddai'r prosiect wedi ei ddarparu ar raddfa lai ond heb unrhyw ffynhonnell arall o gyllid.

Er bod ychwanegedd ar lefel sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli'n ymddangos yn gymharol isel, nid ymddengys fod GwirVol wedi cynnig yr un lefel o werth ychwanegol o ran denu pobl ifanc nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o wirfoddoli. Dywedodd traean y sefydliadau a arolygwyd (31% neu 13 ymatebydd) fod gan hanner yr holl wirfoddolwyr ifanc a recriwtiwyd i'r prosiect brofiad blaenorol o wirfoddoli, tra nododd dros hanner (53% neu 24 sefydliad) hefyd fod gan rai o'r gwirfoddolwyr brofiad blaenorol o wirfoddoli[66].

Cafodd y farn hon ei hadleisio gan y wirfoddolwyr ifanc a ymatebodd i'r arolwg ar y we - roedd gan y rhan fwyaf ohonynt brofiad blaenorol o wirfoddoli cyn dechrau cymryd rhan yn GwirVol. Yn wir, dim ond chwarter a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw brofiad gwirfoddoli o gwbl cyn GwirVol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod elfen gref o ddi-fuddiant o fewn cynllun GwirVol cyn belled ag mae gwirfoddolwyr unigol (yn hytrach na chyfleoedd gwirfoddoli) yn y cwestiwn.

Yn olaf, gofynnwyd i'r sefydliadau a arolygwyd roi sylwadau ar yr hyn y credent y byddai unrhyw wirfoddolwyr newydd a ddenwyd drwy'r prosiect wedi ei wneud pe na fyddai'r prosiect yn bodoli. O'r 45 sefydliad a arolygwyd, credai:

- 19 ymatebydd (42%) y byddai gwirfoddolwyr newydd wedi edrych am waith neu gyfleoedd gwirfoddoli arall;
- Un ymatebydd (2%) y byddai gwirfoddolwyr newydd wedi edrych am waith cyflog;
- Dau ymatebydd (4%) y byddai gwirfoddolwyr newydd wedi gwirfoddoli mewn man arall;
- 17 ymatebydd (38%) na fyddai gwirfoddolwyr wedi gwneud dim (h.y. heb wirfoddoli mewn man arall neu edrych am waith cyflog).

Ymhellach dywedodd tua dau draean y gwirfoddolwyr ifanc a ymatebodd i'r arolwg ar y we y byddent wedi cymryd rhan mewn gwirfoddoli beth bynnag pe na bai GwirVol yn bodoli a dim ond traean na chredai na fyddent wedi gwneud hynny. Unwaith eto mae'r ymateb yn tynnu sylw at y ffaith bod cynllun GwirVol wedi arwain at elfen o

[66] Dywedodd y chwe ymatebydd arall nad oeddent yn gwybod.

ddadleoliad gan y byddai cyfran fawr o wirfoddolwyr wedi gwirfoddoli mewn man arall.

Yn wahanol i'r canfyddiad hwn, dadleuodd y CGI bod y rhan fwyaf o unigolion a gefnogent yn newydd i wirfoddoli ac mai eu prif reswm dros gysylltu â'r CGI am gyngor oedd nad oeddent yn gwybod sut i fynd ati i wirfoddoli, canfod cyfleoedd gwirfoddoli neu'r hyn y mae gwirfoddoli yn ei olygu'n sylfaenol:

> ‘mae rhai pobl ifanc yn dod gyda chamsyniad y byddant yn cael eu talu neu y byddant yn sicr o gael swydd wedyn.'

Credai'r CGI na fyddai cyfran eithaf mawr wedi mynd â'r syniad ymhellach oherwydd na wyddent sut i symud ymlaen gyda'r cysyniad.

Dywedodd CGI hefyd fod gwirfoddolwyr mwy diweddar hefyd yn derbyn cefnogaeth gan sefydliadau partner (o gofio am y gyfradd atgyfeirio uwch mewn blynyddoedd diweddar). Ychwanegodd CGI fod sefydliadau partner yn ystyried mai GwirVol oedd y ffynhonnell orau ar gyfer cefnogaeth gwirfoddoli a'i bod yn fwy tebygol o ystyried gwirfoddoli fel llwybr dilyniant i'w cleientiaid yn awr.

*4.4.4 Effeithiolrwydd cost*

Roedd rhanddeiliaid allweddol yn gryf o'r farn fod GwirVol yn cynnig gwerth am arian. Roedd cydnabyddiaeth glir o'r gwahanol fathau o fuddion:

> ‘Mae buddiolwyr ar unwaith - y bobl ifanc, y sefydliadau a ariannir - ac yna mae'r cymunedau y mae'r bobl ifanc hyn yn gwirfoddoli ynddynt'.
>
> ‘Mae'n newid diwylliant gydag effeithiau tu hwnt i'r gwirfoddolwyr GwirVol yma'
>
> ‘Mae'n fuddsoddiad yn y dyfodol ac nid ar gyfer y presennol yn unig.'

Credai'r CGI hefyd fod GwirVol yn cynnig gwerth am arian, er iddynt ddweud fod rhai elfennau yn fwy effeithiol o ran cost na rhai eraill: dywedwyd bod grantiau lleol bach

yn enghraifft o ymyriad yn cynnig lefelau cymharol gryf o werth am arian (er ei bod yn ddealladwy fod CGI yn teimlo'n llai galluog i roi sylwadau ar werth am arian y rhaglen grantiau cenedlaethol).

Dadleuodd CGI hefyd fod gwerth am arian wedi cynyddu dros gyfnod - a gwelent hynny fel dadl arall dros gadw - gan y gallai'r CGI gysylltu gyda, ac ychwanegu gwerth, at waith sefydliadau partner (e.e. Llywodraeth Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Sefydliadau Addysg Uwch a darparwyr y Rhaglen Waith Newydd) i helpu i gyflawni eu nodau.

Trosoli cyllid/Arian cyfatebol

Roedd hefyd dystiolaeth glir fod ymyriadau GwirVol yn trosoli cyllid o ffynonellau eraill. Nododd rhanddeiliaid allweddol y bu llawer o'r CGI yn llwyddiannus wrth ddod â chyllid i mewn gan fod eu swyddi wedi dod yn rhai llawn-amser yn hytrach na rhan-amser. Yn yr un modd, roedd y Grant dan Arweiniad Pobl Ifanc wedi cynyddu mewn llawer o ardaloedd drwy arian cyfatebol gan gynghorau gwirfoddol sirol a chyrff statudol. Ymhellach, roedd rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol iawn fod llawer o sefydliadau a dderbyniodd grant cenedlaethol wedi defnyddio cyllid GwirVol i sicrhau mwy o arian cyfatebol.

Fodd bynnag, datgelodd rhai rhanddeiliaid allweddol siom am y methiant i sicrhau cyllid Ewropeaidd fel arian cyfatebol ar gyfer GwirVol, er y pwysleisiwyd fod hyn yn ganlyniad ffactorau tu hwnt i reolaeth tîm CGGC a Bwrdd Partneriaeth GwirVol. Pe byddai cyllid GwirVol i barhau ar ôl Mawrth 2012 yna rhagwelid y byddai'r cynllun yn gwneud cais am arian cyfatebol drwy gyllid Ewropeaidd pe byddai ar gael.

Dywedodd rhai rhanddeiliaid allweddol hefyd y bu mwy o lwyddiant mewn mannau eraill wrth sicrhau arian cyfatebol:

> ‘Maen nhw'n fwy llwyddiannus yn gyffredinol am arian cyfatebol yn Lloegr - yn arbennig gyda chorfforaethau preifat mawr sydd â phencadlys yno. Ond rydych yn tybio os yw'r dirywiad economaidd wedi effeithio ar y cyllid hwnnw er, oherwydd ei fod y math o bethau a fyddai wedi mynd gyntaf pan oedd

pwysau ariannol yn cynyddu. Ond efallai y gellir gwneud mwy i wthio am gefnogaeth arian cyfatebol o'r sector preifat'.

Cyllid mewn nwyddau

Pwynt pellach yn y cyswllt hwn yw bod 'mewnbwn' GwirVol yn fwy na'r hyn y mae GwirVol yn ei ariannu. Dywedodd y rhanddeiliaid allweddol fod llawer o ymyriadau GwirVol yn seiliedig ar amser gwirfoddolwyr: GwirForce, y paneli ieuenctid lleol a Phartneriaeth GwirVol yw'r enghreifftiau amlycaf.[67] Tu hwnt i hyn roedd y teimlad fod sefydliadau a dderbyniodd grant hefyd yn darparu adnoddau yn ychwanegol at eu cyllid GwirVol i sicrhau gweithredu eu prosiectau GwirVol.


**4.5 Cyflenwi yn y dyfodol**

Yn olaf, ystyriwn dystiolaeth o'n gwaith maes ar gynlluniau cyflenwi a nodau ar gyfer y dyfodol.

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg nodi eu cynlluniau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf (Ffigur 4.7). Yr amcan pwysicaf, a nodwyd gan 89% o'r rhai a arolygwyd (40 ymatebydd) oedd recriwtio mwy o wirfoddolwyr ifanc. Dilynwyd hynny gan hyfforddiant a chynyddu sgiliau gwirfoddolwyr ifanc presennol neu wirfoddolwyr ifanc newydd (nodwyd gan 82% neu 37 ymatebydd). Rhoddwyd blaenoriaeth is i flaenoriaethau eraill, megis recriwtio mwy o wirfoddolwyr ifanc o grwpiau targed penodol er i dros hanner (53% neu 24 ymatebydd) ddweud y byddai hyn yn amcan iddynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

[67] Dywedwyd hefyd yn y cyfweliadau rhanddeiliaid allweddol fod aelodau'r Bwrdd Partneriaeth yn tueddu i fod yn rheolwyr uwch o fewn eu gwahanol sefydliadau, ac felly bod y cost cyfle yn uchel.

*Ffigur 4.7: Cynlluniau'r sefydliadau a arolygwyd ar gyfer y dyfodol*




Ffynhonnell: Arolwg ffôn o 45 sefydliad a dderbyniodd grant cenedlaethol GwirVol

Nododd y sefydliadau a arolygwyd y bwriadent ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau i ariannu'r cynlluniau hyn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn cynnwys y ffynonellau dilynol:

- Bwriadai 87% (39 sefydliad) ddefnyddio cyllid grant cynllun gwirfoddoli CGGC;
- Bwriadai 69% (31 sefydliad) gynnal gweithgareddau codi arian;
- Bwriadai 64% (29 sefydliad) ddefnyddio adnoddau eu sefydliad eu hunain;
- Bwriadai 64% (29 sefydliad) sicrhau cynlluniau grant eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdod Lleol, y Loteri Genedlaethol, yr Undeb Ewropeaidd a ffrydiau cyllid eraill cymunedol
- Bwriadai 7% (3 sefydliad) ariannu'r cynlluniau hyn drwy ddulliau eraill - nododd un ohonynt y bwriadent sefydlu'r sefydliad fel menter gymdeithasol a fyddai'n gostwng eu dibyniaeth ar gynlluniau cyllid grant.

Roedd rhanddeiliaid allweddol yn unfrydol eu barn y dylid cadw GwirVol. Dywedwyd bod hwn yn 'amser peryglus iawn i gamu ymaith o wirfoddoli pobl ifanc': nid oedd GwirVol yn hunangynhaliol ac roedd yn cael ei weithredu mewn sefyllfa lle'r oedd diweithdra pobl ifanc yn cynyddu a chyllid trydydd sector yn crebachu - y ddau'n ffactorau cryf wrth ystyried rhesymeg barhaus. Ymhellach, credai bron yr holl

randdeiliaid y byddai newidiadau sylweddol i GwirVol ar y cam hwn yn peryglu'r cynnydd a sicrhawyd.

Roedd rhanddeiliaid allweddol yn unfrydol, serch hynny, fod yn rhaid i'r cynllun barhau'n berthnasol yn neilltuol wrth ddynodi 'beth sy'n gweithio' wrth ymgysylltu pobl ifanc. Ystyriwyd bod rôl GwirForce ac ymyriadau lefel leol yn ganolog: 'mae'n rhaid i ni ddeall y datblygiadau yn y ffordd mae pobl ifanc yn meddwl.'

Rhybuddiodd dau ymatebydd serch hynny fod cynhwysiant yn golygu cydnabod bod gwirfoddolwyr yn set amrywiol o unigolion gydag amrywiaeth o gefndiroedd a chymhelliant dros wirfoddoli. O'r herwydd, rhaid cadw hyblygrwydd yn y ffyrdd y medrid ymgysylltu pobl ifanc.

Ymhellach, mae GwirVol hefyd yn cynnwys sefydliadau o'r trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Credai rhanddeiliaid allweddol y gellid gwneud mwy i wella ymgysylltu ar draws y sectorau hyn - ac yn arbennig, gyfranogiad yn y Bwrdd Partneriaeth (ac is-grwpiau). Byddai hyn yn golygu bod angen sicrhau apêl eang a oedd yn golygu, awgrymodd rhanddeiliaid allweddol, gadw set amrywiol o ddulliau gweithredu ac ymyriadau.

Credai rhanddeiliaid allweddol hefyd fod angen mwy o bwyslais ar hyrwyddo GwirVol. Soniodd rhanddeiliaid allweddol am wella adnabyddiaeth enw neu 'frand' ar draws Cymru a chynyddu'r ddealltwriaeth o beth yw GwirVol a'r hyn a'i waith. Byddai delweddau cadarnhaol drwy astudiaethau achos a 'straeon newyddion' yn bwysig, a hefyd sicrhau bod gwirfoddoli ieuenctid yn parhau ar y radar gwleidyddol. Ystyriwyd bod GwirVol yn gyfrwng cryf ar gyfer y ddau.

Credid bod defnydd effeithiol a chost-effeithlon o adnoddau yn hollbwysig. Teimlai rhanddeiliaid y byddai angen ffocws parhaus ar ddulliau gweithredu blaengar (fel y rhaglen GM50). Er enghraifft, i sicrhau gwelliannau pellach yn ansawdd y ceisiadau am grantiau cenedlaethol, gallai Gwirvol ystyried cyfeirio at sefydliadau eraill a all gefnogi ymgeiswyr.

Yn ychwanegol, credai partneriaid fod cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer trosoli cyllid (drwy arian cyfatebol) ar y lefel leol a chenedlaethol, yn cynnwys, yn hollbwysig, gefnogaeth cyllid o'r sector preifat. Er y gwnaed peth gwaith yn y maes hwn, roedd rhanddeiliaid allweddol yn awyddus rhoi mwy o bwyslais ar hynny dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yn erbyn hyn, credai tri rhanddeiliad allweddol fod risg gwirioneddol y byddai adnoddau GwirVol yn cael eu gwasgaru'n rhy denau. Yn arbennig, roedd yn rhaid i ymyriadau yn y dyfodol ennill 'dyfnder yn ogystal â lled' er mwyn sicrhau fod yr effeithiau ar bobl ifanc a sefydliadau'n parhau. Roedd rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol y gall fod angen rhoi'r gorau i rai 'cyfleoedd deniadol' oherwydd y cyfyngiadau ar adnoddau er i'r cyfweliadau ddangos awydd cryf i ystyried datblygiad posibl (e.e. ymestyn GwirVol i gynnwys pobl ifanc 14 i 25 oed).

Drwyddi draw, teimlid fod galw sylweddol nad oedd yn cael ei ddiwallu ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

Efallai nid yn annisgwyl, dywedodd CGI hefyd y dylai rhaglen GwirVol barhau. Yn neilltuol credent ei fod yn fater o flaenoriaeth fod gwirfoddolwyr yn cael rhyw fath o fynediad i gyllid ar gyfer costau (e.e. teithio, offer, gofal plant). Yn gyffredinol, roedd y CGI hefyd yn hapus gyda model presennol GwirVol, er yr awgrymwyd rhai mân newidiadau:

- Symleiddio ffurflenni cais am y rhaglen grantiau cenedlaethol (e.e. 'mae'r ffurflenni'n rhy hir i rai eu llenwi');
- Rhoi adnoddau ychwanegol i CGI ddelio gyda'r cynnydd mewn galw;
- Penderfynu sut mae CGI yn rhoi'r gefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc gydag anghenion penodol/arbennig, na fedrant ymdopi ar eu cyfer ar hyn o bryd;
- Ehangu GwirVol i gynnwys y grŵp oedran 14 a 15 oed.

## 5. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Yn yr adran yma, amlinellwn ein casgliadau cyffredinol a chyfres o ddeuddeg argymhelliad, sy'n anelu'n bennaf i dynnu sylw at y gwersi allweddol a all helpu i gefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau yn eu trafodaethau ar y trefniadau ariannu ar gyfer y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'r gwerthusiad yma'n dangos lefelau uchel o foddhad gyda GwirVol, gan y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol a hefyd y rhai sy'n manteisio o gefnogaeth o'r rhaglenni grant, er bod rhai cafeatau yn gysylltiedig â'r broses gais a monitro.

Mae GwirVol yn gynllun cynhwysol a gaiff ei reoli'n dda sy'n annog a chefnogi gwirfoddolwyr ifanc drwy gymysgedd o ymyriadau ar y lefel leol a chenedlaethol.

Mae GwirVol yn parhau i fod yn ddull unigryw i Gymru o gyflawni argymhellion Comisiwn Russell (2005). Cafodd y cynllun ei weithredu mewn cyd-destun polisi cefnogol yng Nghymru ac mae hyn yn debyg o barhau dan Raglen Lywodraethu Cymru 2011-2015. Ymhellach, adeg sefydlu GwirVol, roedd lefelau da o wirfoddoli eisoes ar draws pob grŵp oedran yng Nghymru, a roddodd lwyfan cadarn ar gyfer y cynllun.

Yng ngoleuni'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach - a nodweddir gan ddiweithdra uchel a chynyddol ymysg pobl ifanc a phryderon am densiynau rhwng y cenedlaethau - mae'n debyg bod y rhesymeg am GwirVol yn gryfach yn awr nag yn Ebrill 2009. Canfu'r gwerthusiad gefnogaeth gref dros barhau'r cynllun ar ôl Mawrth 2012.

Mae GwirVol yn rhoi fframwaith gyda sylfaen eang ar gyfer cynnig gwahanol lwybrau i wirfoddoli i bobl ifanc. Yn bwysig, mae hyn wedi galluogi GwirVol i wneud cynnydd (yn neilltuol drwy'r rhaglenni grant cenedlaethol) mewn ymgysylltu rhai o gefndiroedd difreintiedig.

Er y bu cynnydd wrth godi ymwybyddiaeth o wirfoddoli pobl ifanc a GwirVol ymysg grwpiau rhanddeiiaid a sefydliadau yng Nghymru, a bod teimlad cyffredinol fod y cynllun yn 'taro'n uwch na'i bwysau' yng nghyswllt gwaith hyrwyddo, ymddengys yn hanfodol fod mwy o waith yn cael ei wneud yn y maes yma.

Yn nhermau cynllun, mae GwirVol wedi gweithredu mewn ffordd hyblyg i fanteisio ar gyfleoedd newydd. Drwy wneud hynny dysgwyd llawer am 'yr hyn sy'n gweithio' wrth gyflenwi cefnogaeth gwirfoddoli ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid bod peth pryder am y cynnydd a wnaed gan ymyriad GwirForce. Mae'n amlwg fod gan GwirForce rôl bwysig drwy ymysg pethau eraill ddarparu 'llais ieuenctid' sy'n helpu i lunio rhaglen ehangach GwirVol. Y mae, serch hynny, angen brys i wella cynrychiolaeth gyffredinol yn cynnwys cynyddu nifer aelodau, gostwng dibyniaeth ar unigolion neilltuol, a gwella gorchudd ar draws Cymru (yn arbennig y gogledd).

Mae tystiolaeth dda fod cynllun GwirVol wedi cyfrannu'n gadarnhaol at wirfoddoli ieuenctid yng Nghymru. Er enghraifft, mae tystiolaeth monitro CGGC yn awgrymu - er nid yn cyrraedd eu targedau i gyd - i'r rhaglenni grant cenedlaethol recriwtio 957 o wirfoddolwyr yn 2009/10 gan ddarparu cyfanswm o 59,000 awr o fewnbwn gwirfoddolwyr yn 2009/10, tra bod ein harolwg o sefydliadau a dderbyniodd grantiau'n awgrymu y bydd bron y cyfan wedi eu cyflawni neu y byddant yn cyflawni'r targedau a roddwyd.

Yn yr un modd dangosodd y CGI a'r rhaglen Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc lefelau cryf o recriwtio/cyswllt gwirfoddolwyr, a chofnodwyd perfformiad cryf hefyd yn amrywiaeth y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli.

Fodd bynnag, mae effaith GwirVol ar wirfoddoli ieuenctid yng Nghymru yn llai clir. Mae'r data ar y swm cronnus o oriau gwirfoddoli pobl ifanc (Cymru-gyfan) yn gyfyngedig. Mae'r mesur anuniongyrchol/dirprwy yn seiliedig ar nifer y cyfleoedd gwirfoddoli (cafwyd o www.gwirfoddolicymru.net) wedi dangos cyfleoedd gwirfoddoli

sefydlog rhwng 2009/10 a 2010/11, er bod yn rhaid pwysleisio mai arwydd ar y gorau yw'r mesur ei hunan.

Ymhellach, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn nodi lefelau cymharol uchel o 'ddi-fuddiant' gwirfoddolwyr gan awgrymu fod angen gwneud mwy i ymgysylltu gwirfoddolwyr newydd, yn hytrach na gwirfoddolwyr presennol.

Ar lefel cynllun, mae angen gwneud mwy i wella'r mesurau perfformiad a ddefnyddir ar gyfer y cynllun, yn neilltuol o amgylch mesurau seiliedig ar y wefan a gosod ffigurau targed CAMPUS ar gyfer y rhaglenni grant.

Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu effeithiau sylweddol gadarnhaol ar bobl ifanc (ac yn anuniongyrchol ar bobl eraill) er bod angen clir i ddal effeithiau'r cynllun yn fanylach a chadarnach, yn neilltuol wrth gyflwyno darlun mwy cynhwysfawr o berfformiad, a helpu i benderfynu'n well ar berfformiad cymharol y gwahanol ymyriadau ar sail tebyg am debyg.

Byddai gwella gwerthuso monitro effaith hefyd yn sylfaen i fonitro mwy trylwyr ar werth am arian ar lefel ymyriad a chynllun. O fewn cwmpas yr adnoddau sydd ar gael, mae hyn yn debygol o gynnwys mesurau sy'n rhwydd pennu eu gwerth e.e. oriau mewnbwn gwirfoddoli a hefyd y rhai sy'n llai rhwydd pennu eu gwerth (canlyniadau meddalach ar wirfoddolwyr - e.e. newid agwedd - ac effeithiau ehangach ar gymunedau).

Yn hollbwysig, fodd bynnag, mae'n rhaid i GwirVol gadw'r gallu i ailddyrannu cyllid yng ngoleuni canfyddiadau'r dyfodol am werth cymharol am arian. Er enghraifft, mae'r canfyddiadau ar gyfer y Grantiau Lleol dan Arweiniad Pobl Ifanc yn awgrymu perfformiad cymharol gryf, a allai o bosibl arwain at ddadl gref dros i'r ymyriadau hynny dderbyn cyfran uwch o gyllid GwirVol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1:** Yng ngoleuni canfyddiadau bras gadarnhaol y gwerthusiad hwn, argymhellwn gadw rhaglen GwirVol am o leiaf dair blynedd arall. Er yn cydnabod y pwysau i dorri cyllidebau ar gyfer rhaglenni cymorth trydydd sector, ymddengys yn

bwysig tanlinellu fod cyllid presennol GwirVol yn cael ei ledaenu ar draws nifer o ymyriadau a byddai unrhyw ostyngiadau sylweddol mewn cyfanswm cyllid ar gyfer GwirVol yn peryglu gwneud ymyriadau unigol yn docenistig, ac yn golygu bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn aneffeithiol. Rydym felly'n argymell cadw'r lefelau cyllid presennol cyn belled ag sydd modd.

**Argymhelliad 2:** Argymhellwn gadw'r cyfuniad presennol o ymyriadau, tra hefyd yn rhoi hyblygrwydd i sicrhau addasu parhaus i newidiadau yn y cyd-destun polisi ehangach: yn neilltuol, dylai GwirVol anelu i ddynodi cyfleoedd posibl o ddatblygiadau polisi newydd a rhai'n datblygu (e.e. darparu cyfleoedd gwirfoddoli dilynol i'r rhai sy'n astudio Bagloriaeth Cymru, gan gysylltu gydag agenda Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol y Deyrnas Unedig a chyfleoedd yn ymwneud â datblygiadau polisi sy'n dod i'r amlwg fel yr agenda Tlodi Plant yng Nghymru).

**Argymhelliad 3:** Ar gyfer y presennol argymhellwn gadw tua'r un cydbwysedd rhwng y gwahanol ymyriadau â'r cynllun presennol. Fodd bynnag, o gofio am berfformiad cryf y cynlluniau grant lleol a'r swm bychan o gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, byddem yn dadlau y dylai'r elfen yma gael ei diogelu mewn termau absoliwt yn ogystal â chymharol. Lle'n bosibl, dylai paneli grantiau lleol, CGI a chynghorau gwirfoddol sirol geisio dynodi arian cyfatebol ar gyfer y 'potiau' hyn, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer da megis yr un yn Abertawe.

**Argymhelliad 4:** Argymhellwn fod codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'n dal i fod yn ffocws parhaus i gynllun GwirVol a gyda phwyslais cynyddol ar: a) hyrwyddo mewn ardaloedd gyda defnydd cymharol isel (e.e. ychydig o wirfoddolwyr o Ogledd Cymru sydd wedi cymryd rhan yn GwirForce hyd yma) a b) codi ymwybyddiaeth o gyfanswm effaith a manteision gwirfoddoli ieuenctid.

**Argymhelliad 5:** Argymhellwn fod GwirVol yn parhau i dargedu gwirfoddolwyr ifanc o bob cefndir ac nad yw'n canolbwyntio'n llwyr ar gysylltu â grwpiau traddodiadol anodd eu cyrraedd, tra'n cadw ei record llwyddiant yn y cyswllt hwn.

**Argymhelliad 6:** Ar y cyfan, argymhellwn y dylid cadw GwirForce er bod angen newid sylweddol ym mha mor gyflym y caiff gweithgareddau ac effeithiau GwirForce eu cyflenwi. Mae angen rhoi sylw ar frys i hyrwyddo GwirForce, yn arbennig yng ngogledd Cymru, a rhaid rhoi adnoddau digonol i GwirForce ar gyfer deunyddiau hyrwyddo/costau a chostau teithio i hyn o beth. Ymhellach, credwn fod trawsgynrychiolaeth rhwng y Paneli Ieuenctid Lleol a GwirForce yn ddymunol iawn, er yn cydnabod y cyfyngiadau angenrheidiol yn deillio o natur wirfoddol cyfranogiad yn y ddau.

**Argymhelliad 7:** Argymhellwn gadw'r trefniadau rheoli presennol ar gyfer GwirVol, ond gyda sylw brys i gynyddu nifer yr aelodau a chwmpas y bwrdd partneriaeth (ac is-grwpiau). Yn arbennig, er ein bod yn cydnabod fod hyn yn her gyffredinol i lawer o fyrddau seiliedig ar bartneriaeth, dylai GwirVol geisio mwy o ymgysylltu gan sefydliadau sector preifat. Mae manteision sylweddol i CGGC, gyda'i gysylltiadau strwythurol â'r cynghorau gwirfoddol sirol a'i broffil uchel o fewn y trydydd sector, i barhau i reoli'r cynllun.

**Argymhelliad 8:** Argymhellwn y dylai GwirVol barhau i weithredu'n gynhwysol, gan annog gwirfoddoli gan bob gwirfoddolydd ifanc yng Nghymru, dylai fod ffocws cryf (yn neilltuol yn y rhaglenni grant cenedlaethol) ar ddenu unigolion sy'n newydd i wirfoddoli. Ymhellach, credwn y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gynnwys y grŵp oedran 14 a 15 oed o fewn GwirVol.

**Argymhelliad 9:** Os cedwir y rhaglenni grantiau cenedlaethol, dylai CGGC adolygu'r ffurflenni cais am grant a monitro yng ngoleuni'r adborth o'n holiadur i sicrhau eu bod mor syml ag sydd modd, gan ddefnyddio eu profiad ehangach, a thrafod gyda Llywodraeth Cymru unrhyw rwystrau y tybiant fydd yn codi o ofynion Llywodraeth Cymru. Dylai CGGC a Llywodraeth Cymru hefyd ystyried os medrid cyfeirio sefydliadau lleol llai at gymorth i'r CGI am gefnogaeth (ac efallai am gefnogaeth o'r grantiau lleol) yn y lle cyntaf.

**Argymhelliad 10:** Argymhellwn fod GwirVol yn edrych eto (a lle'n addas, yn adolygu) y mesurau perfformiad presennol - yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig

gyda'r wefan/data ar-lein - i sicrhau bod y dull monitro yn gadarn. Ymhellach, dylai staff GwirVol weithio gydag ymgeiswyr i greu targedau CAMPUS - yn cynnwys ar gyfer grantiau hyrwyddo.

**Argymhelliad 11:** Argymhellwn fod Bwrdd Partneriaeth GwirVol yn ystyried yn ofalus sut y gellir canfod a monitro cyfanswm nifer gwirfoddoli ieuenctid yng Nghymru (efallai fel rhan o'r wybodaeth ystadegol ehangach a gesglir gan CGGC yn ei adnoddau ystadegol ar y trydydd sector). Ymhellach, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru a Bwrdd Partneriaeth GwirVol yn ystyried mesur agweddau pobl ifanc at wirfoddoli ar draws Cymru, efallai drwy Arolwg Cenedlaethol i Gymru.

**Argymhelliad 12:** Argymhellwn fod Bwrdd Partneriaeth GwirVol yn ystyried ffyrdd ymarferol o ddatblygu monitro effaith mwy manwl a chadarn a data cysylltiedig ar werth am arian (e.e. yr hyn y medrid ei gynnwys o fewn y ffurflenni safonol gan sefydliadau a ariennir, sut y medrid defnyddio arolygon o wirfoddolwyr ifanc a ph'un ai a fedrid datblygu templed astudiaeth achos ymhellach i gasglu effeithiau mwy manwl ac anuniongyrchol e.e. deillio effeithiau posibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol).

## Atodiad 1: Argymhellion Comisiwn Russell (2005) [68]

1. Cyfres o ymgyrchoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o wirfoddoli.

2. Porth gwirfoddoli cenedlaethol i sicrhau fod gan bobl ifanc fynediad rhwydd i wybodaeth ar gyfleoedd gwirfoddoli.

3. Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cyngor ac arweiniad ansawdd uchel ar wirfoddoli, dylai'r corff gweithredu gontractio i benodi 200 o Gynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid yn eu lle.

4. Dylai fod yn beth cyffredin i bobl ifanc wirfoddoli tra'u bod yn dal yn yr ysgol, goleg neu mewn addysg bellach;

5. I ddathlu llwyddiannau gwirfoddolwyr ifanc, dylai'r corff gwerthuso hwyluso seremoni wobrwyo flynyddol ar gyfer gwirfoddoli ymysg pobl ifanc, er mwyn cydnabod a gwobrwyo pobl ifanc am eu cyfraniadau i gymdeithas y Deyrnas Unedig;

6. Dylai pobl ifanc gael mynediad i 'ddewislen cyfle', gyda manylion yr ystod lawn o weithgareddau gwirfoddoli.

7. Dylai fod newid sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n gwirfoddoli ac amrywiaeth gwirfoddolwyr ifanc. Bydd hyn yn golygu y bydd angen ehangiad sylweddol yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael - tymor byr, rhan-amser a llawn-amser, gyda thargedu effeithiol i sicrhau fod pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn debycach o wirfoddoli;

8. Dylai fframwaith cenedlaethol gydnabod poblogrwydd a gwerth gwirfoddoli rhyngwladol, drwy gynnig hyd at 1,000 o gyfleodd gwirfoddoli tramor;

9. Mae potensial nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc i roi help ychwanegol o fewn y sector cyhoeddus, e.e. mewn ysbytai, ysgolion, a chanolfannau chwaraeon, hamdden a chelfyddydau, i ennill profiad gwerthfawr a sicrhau budd gwirioneddol i'r gymuned. Mae cyfleoedd neilltuol i gynnwys pobl ifanc wrth lunio gwasanaethau lleol ac fel dinasyddion egnïol mewn democratiaeth leol.

10. Byddai ansawdd y cyfleoedd gwirfoddoli yn manteisio o fwy o sicrwydd ar set o feini prawf a nodwyd yn glir. Dylai sefydliadau gwirfoddoli gael eu hannog i gyrraedd isafswm safonau ar fynediad, ymgysylltu, datblygu a gwobrwyo gwirfoddolwyr ifanc;

[68] Adroddiad Comisiwn Russell dan gadeiryddiaeth Ian M Russell (2005) *A National Framework for Youth Action and Engagement*, Norwich: HMSO

11. Mae'r cyfle i wella sgiliau a chyflogadwyedd yn gymhelliant grymus i bobl ifanc i wirfoddoli. Mae'n bwysig nodi cyfraniad gwirfoddolwyr ifanc; ac i gydnabod y sgiliau y maent  yn eu dysgu wrth wneud eu gweithgaredd;

12. Ni ddylai pobl ifanc ar fudd-daliadau, a'u teuluoedd, ddioddef rhwystr ariannol pan maent yn gwirfoddoli;

13. Cynyddu capasiti sefydliadau i ymgysylltu â grwpiau sy'n hanesyddol wedi'i chael yn anodd cael mynediad i wirfoddoli;

14. Dylai corff gweithredu penodol gomisiynu cyflenwi'r fframwaith, drwy gyfres o gontractau.

15. Argymhelliad ar gyfer cyllid yn cynnwys bod cyllid cyhoeddus ar gyfer gwirfoddoli pobl ifanc yn cael ei neilltuo;

16. Bydd angen i'r corff gweithredu fesur effaith y fframwaith a sicrhau bod dysgu a gwerthusiad cyson.

## Atodiad 2: Rhestr o'r rhai a gyfwelwyd

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Nigel Cram | Cynghorydd Gwirfoddoli Ieuenctid (Castell-nedd Port Talbot) |
| Thomas Crockett | Cynghorydd Gwirfoddoli Ieuenctid (Rhondda Cynon Taf) |
| Tim Day | CGGC |
| Leah Doherty | CGGC |
| Paul Dunhill | Llywodraeth Cymru |
| Paul Glaze | Cyngor Cymru Gwasanaethau Gwirfoddol Ieuenctid |
| Geraint Hannaford | Cynghorydd Gwirfoddoli Ieuenctid (Pen-y-bont ar Ogwr) |
| David Heald | CGGC |
| Clare Jones | Cynghorydd Gwirfoddoli Ieuenctid (Casnewydd a Sir Fynwy) |
| Gareth Jones | Gwasanaeth Ieuenctid Abertawe |
| Beverley Mallet | Cynghorydd Gwirfoddoli Ieuenctid (Caerffili) |
| Melanie Manca | GwirForce |
| Steve Sellars | GwirForce |
| Sheila Smith | Cyfnewidfa ENA |
| Felicitie Walls | Cynghorydd Gwirfoddoli Ieuenctid (Abertawe) |
| Amanda Williams | Llywodraeth Cymru |
| Holly Williams | Cynghorydd Gwirfoddoli Ieuenctid (Bro Morgannwg) |
| Wendy Thomas | Llywodraeth Cymru |